

Agenda – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom	Bethan Davies
Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Chwefror 2021	Clerc y Pwyllgor 0300 200 6372
Amser: 09.30	SeneddCyllid@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.TV

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Papur(au) i'w nodi

(09:30)

(Tudalennau 1 – 14)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2021.

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2021.

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2021.

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2021.

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2021.

2.1 PTN 1 – Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru: Ymateb Archwilio Cymru i argymhellion y Pwyllgor – 22 Ionawr 2021

(Tudalennau 15 – 21)

2.2 PTN 2 – Llythyr gan Archwilio Cymru – Amcangyfrif Atodol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020–21 – 27 Ionawr 2021

(Tudalen 22)



- 2.3 PTN 3 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd: Gwybodaeth am gyfalaf trafodiadau ariannol a chyllid canlyniadol fformiwla Barnett i Gymru – 21 Ionawr 2021
(Tudalennau 23 – 25)
- 2.4 PTN 4 – Ail gyllideb atodol Llywodraeth Cymru – ymateb Llywodraeth Cymru – 19 Ionawr 2021
(Tudalennau 26 – 40)
- 2.5 PTN 5 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd – cyfraddau amhreswyl a throthwyon Treth Trafodiadau Tir (TTT) – 2 Chwefror 2021
(Tudalennau 41 – 43)
- 2.6 PTN 6 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol at Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU – 2 Chwefror 2021
(Tudalennau 44 – 45)
- 2.7 PTN 7 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd: Gwaith modelu ar gyfer prydau ysgol am ddim – 9 Chwefror 2021
(Tudalen 46)
- 2.8 PTN 8 – Llythyr oddi wrth Hafal: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021–22 – 17 Chwefror 2021 (Saesneg yn unig)
(Tudalen 47)
- 3 Trydedd Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020–21
(09:30 – 11:00) (Tudalennau 48 – 196)
- Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru
Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru
Matthew Denham–Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is–Adran Rheolaeth Ariannol

Papurau ategol:

FIN(5)-06-21 P1 - Trydedd Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21

FIN(5)-06-21 P2 - Dyraniadau prif grŵp gwariant

FIN(5)-06-21 P3 - Nodyn Esboniadol

FIN(5)-06-21 P4 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd Dull ac amseriad Trydedd Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 - 1 Chwefror 2021

FIN(5)-06-21 P5 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd Cronfa Wrth Gefn y DU - 10 Chwefror 2021

Briff Ymchwil

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11:00)

5 Trydedd Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21: Trafod y dystiolaeth

(11:00 - 11:20)

6 Trafod Cynllun Ffioedd Archwilio Cymru 2021-22

(11:20 - 11:30)

(Tudalennau 197 - 222)

Papurau ategol:

FIN(5)-06-21 P6 - Cynllun Ffioedd Archwilio Cymru 2021-22

7 Trafod papur y flaenraglen waith

(11:30 - 11:45)

(Tudalennau 223 - 226)

Papurau ategol:

FIN(5)-06-21 P7 - Papur y flaenraglen waith

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Fideo gynadledda drwy Zoom

<http://senedd.tv/cy/11115>

Dyddiad: Dydd Gwener, 8 Ionawr 2021

Amser: 09.30 – 11.45

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	<p>Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd)</p> <p>Alun Davies AS</p> <p>Siân Gwenllian AS</p> <p>Mike Hedges AS</p> <p>Rhianon Passmore AS</p> <p>Nick Ramsay AS</p>
Tystion:	<p>Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd</p> <p>Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru</p> <p>Margaret Davies, Llywodraeth Cymru</p> <p>Matt Wellington, Llywodraeth Cymru</p> <p>Anna Adams, Llywodraeth Cymru</p>
Staff y Pwyllgor:	<p>Bethan Davies (Clerc)</p> <p>Leanne Hatcher (Ail Clerc)</p> <p>Georgina Owen (Ail Clerc)</p> <p>Mike Lewis (Dirprwy Clerc)</p>



	Martin Jennings (Ymchwilydd) Rhiannon Lewis (Ymchwilydd)
--	-------------------------------------------------------------

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mark Reckless AS.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 **PTN 1 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Cadeirydd: Trydedd Gyllideb Atodol 2020–21 – 23 Rhagfyr 2020**

3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22: Sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys, Llywodraeth Cymru; Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Cymru; Matt Wellington, Pennaeth Cyflawni Cyllideb, Llywodraeth Cymru; ac Anna Adams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Pennaeth yr Is-adran Polisi Strategaeth Trethi ac Ymgysylltu, ynghylch craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22.

3.2 Cytunodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i wneud yr hyn a ganlyn:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y gweithgor treth incwm;
- rhannu'r dadansoddiad o'r wybodaeth a gasglwyd gan yr holl golegau ynghylch effaith y cyfrifon dysgu personol;
- rhannu gwybodaeth am gostau newid y meini prawf ar gyfer prydau ysgol am ddim; a

- rhannu'r dadansoddiad o effaith creu band treth uwch ar gyfer trafodion eiddo amhreswyl.

4 Offerynnau Statudol ym maes treth: Sesiwn dystiolaeth

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys, Llywodraeth Cymru; Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Cymru; Matt Wellington, Pennaeth Cyflawni Cyllideb, Llywodraeth Cymru; ac Anna Adams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Pennaeth yr Is-adran Polisi Strategaeth Trethi ac Ymgysylltu, ynghylch offerynnau statudol ym maes treth.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

6 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

7 Offerynnau Statudol ym maes treth: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunwyd i gyflwyno adroddiad ar yr offerynnau statudol.

8 Trafod llythyr drafft at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys: Ymchwiliad i'r Fframwaith Cyllidol; a'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant

8.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr drafft.

9 Trafod y flaenraglen waith

9.1 Trafododd y Pwyllgor y flaenraglen waith.

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Fideogynhadledd drwy Zoom

<http://senedd.tv/cy/11116>

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Ionawr 2021

Amser: 09.12 – 12.45

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd) Alun Davies AS Siân Gwenllian AS Mike Hedges AS Rhianon Passmore AS Nick Ramsay AS Mark Reckless AS
Tystion:	Richard Hughes, Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol Andy King, Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol Jon Rae, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Dilwyn Williams, Gwynedd County Council & Chair of Society of Welsh Treasurers Darren Hughes, Confederasiwn GIG Cymru Ed Poole, Canolfan Llywodraethiant Cymru Guto Ifan, Canolfan Llywodraethiant Cymru David Phillips, Sefydliad Astudiaethau Cyllid



Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Leanne Hatcher (Ail Clerc) Georgina Owen (Ail Clerc) Mike Lewis (Dirprwy Clerc) Martin Jennings (Ymchwilydd) Joanne McCarthy (Ymchwilydd) Owen Holzinger (Ymchwilydd) Christian Tipples (Ymchwilydd)
-------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22: Sesiwn dystiolaeth 2

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Richard Hughes, Cadeirydd, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol; ac Andy King, aelod o'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22.

3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22: Sesiwn dystiolaeth 3

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Dilwyn Williams, Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd; a Darren Hughes, Cyfarwyddwr, Conffederasiwn GIG Cymru ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22.

4 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22: Sesiwn dystiolaeth 4

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Ed Poole, Dadansoddiad Cyllidol Cymru; Guto Ifan, Dadansoddi Cyllid Cymru; a David Phillips, y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

6 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Fideo gynadledda drwy Zoom

<http://senedd.tv/cy/11117>

Dyddiad: Dydd Gwener, 15 Ionawr 2021

Amser: 09.31 – 12.07

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd) Alun Davies AS Siân Gwenllian AS Mike Hedges AS Rhianon Passmore AS Nick Ramsay AS Mark Reckless AS
Tystion:	Steffan Evans, Sefydliad Bevan Gemma Schwendel, Sefydliad Joseph Rowntree Llyr ap Gareth, Federation of Small Businesses Cymru Andrew Campbell, Cynghrais Twristiaeth Cymru Ian Price, CBI Wales
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Leanne Hatcher (Ail Clerc) Georgina Owen (Ail Clerc) Mike Lewis (Dirprwy Clerc)



	<p>Martin Jennings (Ymchwilydd)</p> <p>Owen Holzinger (Ymchwilydd)</p> <p>Christian Tipples (Ymchwilydd)</p> <p>Owain Davies (Ymchwilydd)</p> <p>Rhiannon Lewis (Cyngorydd Cyfreithiol)</p>
--	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 PTN 1 – Llythyr gan y Gweinidog Addysg: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) – 11 Ionawr 2021

2.2 PTN2 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2021 – 7 Ionawr 2021

3 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22: Sesiwn dystiolaeth 5

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Steffan Evans, Swyddog Polisi ac Ymchwil, Sefydliad Bevan; a Gemma Schwendel, Uwch Ddadansoddwr, Sefydliad Joseph Rowntree ar Graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22.

4 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22: Sesiwn dystiolaeth 6

4.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Andrew Campbell, Cadeirydd Cynghair Twristiaeth Cymru; Ian Price, Cyfarwyddwr Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru (CBI Cymru); a Dr Llyr ap Gareth, Uwch Gyngorydd Polisi, Ffederasiwn

Busnesau Bach Cymru (FSB Cymru) ar Graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

6 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

7 Ceisiadau o ran Cyllideb Atodol 2020–21 gan Gyrrff a Ariennir yn Uniongyrchol

7.1 Trafododd a chymeradwyodd y Pwyllgor yr amrywiadau arfaethedig i gyllidebau 2020–21 ar gyfer Archwilio Cymru, Comisiwn y Senedd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Archwilio Cymru i ofyn am ragor o fanylion am gost ychwanegol gwyliau blynyddol cronedig staff.

8 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft.

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Fideogynhadledd drwy Zoom

<http://senedd.tv/cy/11118>

Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Ionawr 2021

Amser: 09.35 – 11.54

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd) Mick Antoniw AS (yn lle Alun Davies AS) Siân Gwenllian AS Mike Hedges AS Rhianon Passmore AS Nick Ramsay AS Mark Reckless AS
Tystion:	Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru Margaret Davies, Llywodraeth Cymru Matt Wellington, Llywodraeth Cymru Anna Adams, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Leanne Hatcher (Ail Clerc) Georgina Owen (Ail Clerc)



	Mike Lewis (Dirprwy Glerc) Martin Jennings (Ymchwilydd) Joanne McCarthy (Ymchwilydd) Owen Holzinger (Ymchwilydd) Christian Tipples (Ymchwilydd)
--	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies AS. Roedd Mick Antoniw AS yn dirprwyo ar ei ran.

2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021–22: Sesiwn dystiolaeth 7

2.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys; Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllidebu Strategol; Matt Wellington, Pennaeth Cyflawni'r Gyllideb; ac Anna Adams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Pennaeth yr Is-adran Polisi Strategaeth Trethi ac Ymgysylltu, ar graffu ar gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021–22.

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn a'r cyfarfod ar 27 Ionawr 2021.

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021–22: Trafod y dystiolaeth / prif faterion

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

5 Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol: Trafod yr adroddiad drafft

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad â rhai mân newidiadau.

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Fideogynhadledd drwy Zoom

<http://senedd.tv/cy/11119>

Dyddiad: Dydd Mercher, 27 Ionawr 2021

Amser: 09.30 – 10.24

(Private meeting)

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd) Mick Antoniw AS (yn lle Alun Davies AS) Siân Gwenllian AS Mike Hedges AS Rhianon Passmore AS Mark Isherwood AS Mark Reckless AS
Tystion:	
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Leanne Hatcher (Ail Clerc) Georgina Owen (Ail Clerc) Mike Lewis (Dirprwy Clerc) Martin Jennings (Ymchwilydd) Owen Holzinger (Ymchwilydd) Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol)



1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies AS. Roedd Mick Antoniw AS yn dirprwyo ar ei ran.

2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021–22: Trafod yr adroddiad drafft

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad â rhai mân newidiadau.

3 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – Treuliau'r Archwilydd Cyffredinol

3.1 Trafododd y Pwyllgor y darpariaethau sy'n ymwneud â threuliau'r Archwilydd Cyffredinol a chytunwyd i ysgrifennu at Archwilio Cymru.

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

Drwy'r e-bost:
SeneddFinance@senedd.wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyfeirnod: LF21002/AC246/caf
Dyddiad Cyhoeddi: 22 Ionawr 2021

Annwyl Llŷr

Gwaith Craffu Blynyddol y Pwyllgor Cyllid ar Swyddfa Archwilio Cymru

Yn dilyn eich adroddiad am eich gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwn i nodi ein hymatebion i argymhellion y Pwyllgor ar ein hadroddiadau statudol.

Rydym yn ymdrin â phob un o'ch argymhellion yn eu tro, isod:

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn adolygu ei ddull o fesur perfformiad, gan sicrhau bod modd cymharu mesurau â mesurau blynyddoedd blaenorol ac osgoi unrhyw amwysedd posibl wrth adrodd am ganlyniadau ei berfformiad yn gyhoeddus.

Mae'r Bwrdd wedi trafod ein mesurau perfformiad arfaethedig ar gyfer 2020-21 a 2021-22 ac wedi cytuno i beidio â'u newid ond adolygu'r targedau a osodwyd.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i adolygiad mwy sylfaenol yn ystod 2021. Caiff canlyniadau'r adolygiad hwnnw eu cynnwys yn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2022-23 er mwyn sicrhau ein bod yn mesur ac yn adrodd ar y dangosyddion perfformiad mwyaf priodol.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020-21 yn cynnwys manylion am effaith ailstrwythuro'r uwch dîm arweinyddol a'r gweithgareddau a gynhaliwyd i wella profiad y gweithiwr yn Archwilio Cymru.

Caiff effaith yr ailstrwythuro ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2020-21, er ei bod yn debygol y bydd yn rhy gynnar i nodi unrhyw effeithiau

sylweddol gan mai newydd gael eu penodi y bydd y Cyfarwyddwyr Gweithredol newydd.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol hefyd yn ymdrin â'r prif weithgareddau yn y flwyddyn a effeithiodd ar brofiad gweithwyr.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn croesawu penderfyniad yr Archwilydd Cyffredinol i sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio ac mae'n argymhell cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf.

Sefydlodd yr Archwilydd Cyffredinol Bwyllgor Ansawdd Archwilio ffurfiol ym mis Gorffennaf 2020. Ei bwrpas pennaf yw cynorthwyo i sicrhau'r canlynol:

- bod y trefniadau sydd gennym yn eu lle i reoli a monitro ansawdd archwilio yn effeithiol ac yn unol â safonau proffesiynol, gan gynnwys bod adnoddau digonol wedi cael eu neilltuo ar gyfer ansawdd archwilio;
- bod gwaith yr Archwilydd Cyffredinol o safon ansawdd briodol; a
- bod ansawdd archwilio yn parhau i wella yn unol â'r arfer proffesiynol gorau.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys staff perthnasol Archwilio Cymru ac Aelod Proffesiynol Annibynnol, sy'n Brif Weithredwr uchel a phrofiadol yn sector cyhoeddus y DU. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn flynyddol gyda'n hadolygwr ansawdd allanol (Adran Sicrhau Ansawdd (QAD) Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW)) a chyda chyswilt enwebedig o'r Bwrdd.

Fel y gofynnwyd, caiff y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor Ansawdd Archwilio ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2020-21.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Archwilydd Cyffredinol yn amlinellu pa gamau a gymerwyd i liniaru'r golled o wybodaeth sefydliadol ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am oblygiadau'r newidiadau yn yr arweinyddiaeth ar gyfer strwythurau staffio, amcanion ac unrhyw newid yn ffocws Archwilio Cymru unwaith y bydd y strwythur newydd yn ei le.

Mae ailstrwythuro'r arweinyddiaeth uwch wedi arwain at ostyngiad net o un swydd uwch, o bedair swydd i dair. Gadawodd yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a'r Arweinydd Sector ar gyfer Iechyd a Llywodraeth Ganolog ym mis Medi 2020 a bydd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol yn gadael ym mis Chwefror 2021.

Bydd swydd newydd y Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer y Gwasanaethau Archwilio yn cario llawer o'r cyfrifoldebau archwilio proffesiynol a gâi eu dal gynt gan y ddwy swydd archwilio uwch, gydag elfennau eraill wedi cael eu dirprwyo i'r saith uwch Gyfarwyddwr Archwilio sy'n parhau yn y sefydliad. Er y gall ymadawiad unrhyw uwch aelod o staff beri rhywfaint o ostyngiad dros dro o ran profiad ac arbenigedd sefydliadol, mae gan Archwilio Cymru gryfder mewn dyfnder sy'n golygu na fydd yna leihad yn ein perfformiad a'n gallu proffesiynol. Mae cyfrifoldebau'r Cyn-gyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol bellach yn gorwedd ar

y Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol (oedd gynt yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol) a'r Cyfarwyddwr Gweithredol newydd ar gyfer Cyfathrebu a Newid (sy'n ymuno ym mis Chwefror 2021).

Nid yw'r strwythur newydd yn arwydd o newid yn ffocws Archwilio Cymru. Ein pwrpas o hyd yw sicrhau pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda; esbonio sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i gwrdd ag anghenion pobl; ac ysbrydoli a grymuso sector cyhoeddus Cymru i wella. Mae'r strwythur newydd yn golygu bod ein huwch arweinyddiaeth wedi ei halinio a'i harfogi'n well i gyflawni ein pedair uchelgais strategol i wneud y canlynol:

- manteisio'n llawn ar ein persbectif, arbenigedd a dyfnder dealltwriaeth unigryw;
- cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol;
- ein gwneud yn fwy gweladwy, dylanwadol a pherthnasol; a
- bod yn sefydliad sy'n gosod esiampyl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod RSM UK Audit LLP yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod fersiwn derfynol ei adroddiad Canfyddiadau Archwilio yn cael ei gosod gerbron y Senedd yn y dyfodol, a'u bod yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw broblemau sy'n ymwneud â bodloni ei rwymedigaethau statudol o dan baragraff 35(2), Atodlen 1 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Rydym wedi trafod gyda RSM UK Audit LLP ac maent wedi cadarnhau mai'r fersiwn o Adroddiad y Canfyddiadau Archwilio, a osodwyd gerbron y Senedd ym mis Mehefin 2020, oedd y fersiwn derfynol fel y'i cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Swyddfa Archwilio Cymru. Ym mis Tachwedd 2020, gofynnodd swyddogion Comisiwn y Senedd am gael diwygio'r fersiwn hon er mwyn dileu'r cyfeiriad at eitemau oedd yn weddill, sy'n gymal safonol yn eu hadroddiadau hwy, oherwydd, erbyn yr adeg y caiff yr adroddiad terfynol ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y bydd yna eitemau yn weddill megis y Llythyr Cynrychiolaeth a llofnodi'r cyfrifon cymeradwy yn derfynol, yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd. Gwnawn nodyn i ddileu'r cymal hwn cyn gosod yr adroddiad gerbron y Senedd yn y blynyddoedd i ddod.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod RSM UK Audit LLP yn diweddarau cyfeiriadau mewn adroddiadau canfyddiadau archwilio yn y dyfodol o "Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru" i "Gomisiwn y Senedd". Cafodd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ailnodi'n "Gomisiwn y Senedd" yn rhinwedd adran 6 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, a ddaeth i rym ar 6 Mai 2020, a dylai dogfennau ffurfiol gydnabod hyn.

Rydym wedi tynnu sylw RSM UK Audit LLP at argymhelliad y Pwyllgor fel y byddant yn defnyddio'r derminoleg gywir yn y dyfodol.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell darparu diweddarad wrth i'r prosiect i adolygu'r cynllun teithio fynd rhagddo, gan gynnwys canlyniad trafodaethau gyda'r staff a'r Undebau Llafur ynglŷn â'r newidiadau a gynigir, yn ogystal â'r amserlenni ar gyfer gweithredu a'r arbedion a ragwelir.

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ôl i'r Bwrdd ystyried adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Bryd hynny, er na allwn fod yn benodol ynghylch dyddiadau gweithredu, byddwn yn gallu rhoi syniad o'r amserlen sydd gennym mewn golwg a bod yn glir y bydd yn amodol ar sicrhau cefnogaeth yr undebau i'r newidiadau.

Argymhelliad 8. Gan gydnabod nad yw'n waith archwilio traddodiadol, mae'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am waith prosiect dysgu COVID.

Mae prosiect dysgu COVID yn golygu canfod a rhannu dysgu a phrofiad mewn amser real ar draws ein cyrff archwiliedig. Mae hyn yn golygu bod ein staff yn casglu arferion newydd ac arferion eraill wrth iddynt ddod i'r amlwg ac yn eu dadansoddi'n gyflym er mwyn tynnu sylw at bwyntiau dysgu perthnasol.

Rydym yn rhannu'r ddealltwriaeth, sy'n dod o ganlyniad, yn gyflym â'n cysylltiadau allweddol ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru. Mae'r dulliau o rannu yn wyriad sylweddol oddi wrth adroddiadau archwilio traddodiadol, gyda'r defnydd o flogiau, trydariadau a chrynodebau yn dod i'r amlwg fel y dulliau a ffefrid gan ein cyrff archwiliedig, oedd yn dymuno derbyn gwybodaeth mewn tameidiau ac mewn fformatau fyddai'n hawdd i bobl brysur eu cymryd i mewn.

Hyd yma, rydym wedi casglu dros 1000 o enghreifftiau ac wedi cyhoeddi 17 o flogiau dysgu, dros 100 o drydariadau dwyieithog, a 10 crynodeb dysgu bob pythefnos. Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2020-21.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynilion ac arbedion effeithlonrwydd yn dilyn yr adolygiad o gyllidebau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau yng Ngwanwyn 2021.

Caiff y cyllidebau manwl ar gyfer 2021-22 eu pennu yn ystod chwarter cyntaf 2021. Mae rhai o'r meysydd lle y disgwylir cyflawni arbedion yn cynnwys gostyngiad mewn costau cyfieithu wrth i ni ddarparu adroddiadau archwilio byrrach a mwy miniog, arbedion pellach ar deithio a llety wrth i ni gadarnhau ffyrdd newydd o weithio a sefydlwyd yn 2020, yn ogystal ag arbedion proses fel y rheiny a ddisgwylir wrth inni ailgaffael y gyflogres ar contract allanol.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu am lefel yr arbedion y mae Archwilio Cymru yn ceisio'u sicrhau wrth roi swyddogaeth y gyflogres ar gontract allanol mewn ffordd wahanol.

Fe roddodd Archwiliad Cymru swyddogaeth y gyflogres allan ar gontract i CGI yn 2014 – gan sicrhau arbedion blynyddol o fwy na £25,000. Rydym bellach wedi canfod arbedion pellach o £12,000 y flwyddyn drwy ailgaffael y gwasanaeth hwn ochr yn ochr ag ailgaffael y system Adnoddau Dynol. At hynny, rydym yn rhagweld y bydd effeithlonrwydd prosesau o ganlyniad i'r newid hwn yn rhoi mwy o amser i'r tîm Adnoddau Dynol ganolbwyntio ar ddatblygiadau sefydliadol, lles y tîm a meysydd eraill sy'n ychwanegu gwerth.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am gael derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygu rhaglen waith Archwilio Cymru ar gyfer 2021-22, gan gynnwys unrhyw effaith a gaiff hyn ar yr Amcangyfrif.

Er ein bod yn parhau i adolygu'r sefyllfa, rydym yn hyderus ar hyn o bryd y gallwn gyflawni rhaglen lawn o waith archwilio lleol yn 2021-22 yn unol â'r tybiaethau cynhyrchu incwm o ffioedd oedd yn sail i'n Hamcangyfrif. Disgwyliwn fedru parhau i weithio o bell, os bydd angen, i gwblhau ein gwaith archwilio cyfrifon yn yr un modd ag y bu'n bosibl dros y flwyddyn ddiwethaf. Byddwn yn ceisio datblygu ein rhaglenni archwilio perfformiad lleol a chenedlaethol gan gymryd tirwedd ehangach yr adferiad o COVID i ystyriaeth ochr yn ochr â'r heriau mwy eang sy'n wynebu'r gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwn yn datblygu ein syniadau ynglŷn â chynnwys y rhaglenni gwaith hynny drwy'r cyfnod o fis Ionawr hyd fis Mawrth 2021 fel sail i'n Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22. Bydd peth o'n gwaith, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, yn llifo i mewn i 2021-22 a byddwn yn ceisio cadw peth hyblygrwydd er mwyn medru ymateb i feysydd fydd o ddiddordeb efallai i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus newydd, a Phwyllgorau eraill y Senedd, yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021.

Os bydd y Pwyllgor o'r farn fod yna bynciau penodol sy'n haeddu cael eu cynnwys yn ein rhaglen waith yna, fel bob amser, byddem yn croesawu'r adborth hwnnw.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell darparu rhagor o fanylion ynglŷn â'r ffordd y caiff yr adnodd o £180,000, a newidiwyd yn 2020-21 o ffioedd i gyllid Cronfa Gyfunol Cymru, ei ddefnyddio yn 2021-22.

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio drwy'r dewisiadau ar gyfer y ffrwd hon o waith yn 2021-22 a chaiff canlyniad yr ystyriaethau hyn ei gynnwys yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno. Byddwn yn talu sylw i adborth gan randdeiliaid, yn cynnal sesiynau dysgu yn dilyn prosiect ac yn ystyried sut y byddwn yn rhoi blaenoriaeth i'r gwaith hwn, o ystyried hyd a lled ein holl ymrwymadau.

Bwriadwn ymgymryd â gwaith yn 2021-22 fydd yn debyg i'r hyn a welwyd yn y flwyddyn bresennol, gan anelu'n benodol at gyfleu canfyddiadau sy'n codi o'n harchwiliadau o gyfrifon. Rydym yn awyddus i ehangu ein gwaith ffeithluniau i gynnwys mwy o gyrff a sectorau sy'n cael eu harchwilio ac ehangu'r wybodaeth y maent yn ei hamlygu. Ochr yn ochr â hyn byddwn yn datblygu Sylwebaeth y Cyfrifon ar gyfer Llywodraeth Cymru, a gynhyrchwyd gennym yn 2020-21. Rydym hefyd yn ystyried datblygu mwy o allbynnau seiliedig ar themâu o'n gwaith cyfrifon, naill ai fel cynhyrchion ar eu pen eu hunain neu i gefnogi ein rhaglen waith ehangach.

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn darparu nodyn ar yr arbedion effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â thynnu'r gwaith archwilio yn ôl i mewn a sut y mae hyn wedi effeithio ar gostau staff yn Archwilio Cymru.

Ym mis Ionawr 2019, bu'r Bwrdd yn ystyried gwerthuso dewisiadau ar gyfer cyflawni ein gwaith archwilio cyfrifon yn y dyfodol, sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan dri chwmni archwilio yn y sector preifat. Ar ôl ystyried:

- y cyd-destun hanesyddol ar gyfer contractau cyflenwi gwaith archwilio a dulliau sefydliadau archwilio cyhoeddus eraill y DU;
- y newid yn natur a chwmpas gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, sydd wedi arwain at anfon llai o lawer o waith allan o gymharu â lefelau hanesyddol;
- ein profiad o'r contractau cyflenwi gwaith archwilio, yn enwedig o safbwynt ansawdd y gwasanaeth a'u gwerth ychwanegol;
- tystiolaeth o gynnydd sylweddol mewn ffioedd archwilio a godir gan y sector preifat yng nghyd-destun y rheidrwydd arnom ni i reoli ffioedd ar adeg o gyfyngiadau ariannol;
- ystyriaethau gwerth am arian ehangach;
- ansicrwydd yn y farchnad hyd nes y daw cytundeb ymadael â'r UE i ben; a'r
- angen parhaus i ni dynnu arbenigedd i mewn ar gontract i fodloni gofynion penodol.

Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhelliad na ddylai Swyddfa Archwilio Cymru wahodd tendrau ar gyfer contract fframwaith pellach ac y dylid cynnal pob archwiliad o brif gynghorau a chynghorau tref a chymuned yn fewnol, ar ôl cwblhau cylch archwilio 2019-20. Roedd y penderfyniad hwn yn amodol ar gynnwys adolygiad blynyddol yn rhaglen waith y Bwrdd.

O ran costau staff, rhagdybiai'r adroddiad gwreiddiol y byddai costau staff yn gyffredinol yn aros heb newid i raddau helaeth, gan y byddai tynnu'r gwaith archwilio i mewn yn cyd-ddigwydd â cholli gwaith cronfeydd amaethyddol yr UE o 2021-22. Fel y digwyddodd, cafodd gwaith archwilio'r cronfeydd amaethyddol ei ymestyn am dair blynedd bellach. Golygodd hyn gynnydd o £400,000 y flwyddyn

mewn costau staff er mwyn cyflawni'r gwaith, sy'n cael mwy na'i wrthbwysu gan y £650,000 o incwm ffioedd blynyddol a gynhrychir.

Mae digwyddiadau diweddar wedi rhoi sicrwydd pellach ynglŷn â'r penderfyniad hwn:


- Cyhoeddwyd [Adolygiad Redmond](#) o archwiliadau llywodraeth leol ac adroddiadau ariannol yn Lloegr ar 8 Medi 2020. Ar y cyfan, daeth Redmond i'r casgliad bod y farchnad archwilio yn Lloegr yn fregus, gyda risg sylweddol y byddai cwmnïau'n gadael y farchnad honno. Nododd Redmond fod y ffioedd archwilio a delir gan awdurdodau lleol yn Lloegr o leiaf 25% yn is nag sy'n ofynnol i fodloni'r gofynion archwilio lleol presennol yn effeithiol. At hynny, yn ôl y corff goruchwyllo ar gyfer Lloegr, Penodiadau Archwilio'r Sector Cyhoeddus, collodd mwy na hanner y barnau archwilio awdurdodau lleol ar gyfer 2019-20 y dyddiad cau estynedig o 30 Tachwedd. Er na fu hyn yn broblem gyda'r contractau archwilio yng Nghymru, mae tynnu'r gwaith yn ôl i mewn yn rhoi mwy o reolaeth i ni dros gwblhau ein gwaith archwilio.
- Fel yr adroddwyd eisoes, yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi profi rhai problemau o ran rheoli contractau yn gysylltiedig â'n contractau archwilio ni ein hunain. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen i ddod â gwaith ardystio grantiau gan un contractwr yn ôl i mewn yn gynnar oherwydd problemau a gafwyd gyda'r contractwr hwnnw a'r ffaith fod elfen sylweddol o waith archwilio Cynghorau Tref a Chymuned 2019-20 heb ei chwblhau.

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn cadarnhau ei gyllideb ar gyfer Dadansoddi Data yn 2021-22, gan gynnwys dadansoddiad o gyllid o incwm ffioedd a Chronfa Gyfunol Cymru.

Ym mis Mehefin 2020 cymeradwyodd y Bwrdd gyllideb flynyddol barhaus o £485,000 ar gyfer Dadansoddi Data i gynnwys staffio a thechnoleg. Mae hyn i gael ei ariannu drwy £185,000 gan Gronfa Gyfunol Cymru a £300,000 o'r cyfraniad i'n gorbenion sydd wedi ei weithio i mewn i'n cyfraddau ffioedd. Mae'r rhaniad hwn (rhwng Cronfa Gyfunol Cymru a ffioedd) yn adlewyrchu'r dadansoddiad cyllid cyffredinol ar gyfer Archwilio Cymru.

Peidiwch ag oedi rhag cysylltu â ni os oes unrhyw eglurhad pellach y gallwn ei ddarparu fyddai o gymorth.

Yn gywir



LINDSAY FOYSTER

Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru



ADRIAN CROMPTON

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Eitem 2.2

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

Cyfeirnod: LF21003/AC248/caf
Dyddiad Cyhoeddi: 27 Ionawr 2021

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Annwyl Llŷr

Amcangyfrif Atodol Swyddfa Archwilio Cymru 2020-21

Diolch am eich llythyr dyddiedig y 19^{eg} o Ionawr 2021 lle gwnaethoch gadarnhau eich cefnogaeth i'n cynnig o Amcangyfrif Atodol a gofyn inni ddarparu rhagor o fanylion am werth amcangyfrifedig cronriad gwyliau blynyddol 2020-21 ar gyfer Archwilio Cymru.


Byddwch yn cydnabod bod y flwyddyn ariannol gyfredol wedi bod yn ddigynsail i bob un ohonom a bu rhaid i'n staff ninnau, fel y rhan fwyaf o sefydliadau, addasu i weithio o bell a chawsant fwy o anhawster i gymryd gwyliau blynyddol wedi eu cynllunio.

Rydym wedi parhau i bwysleisio i staff bwysigrwydd cymryd gwyliau blynyddol pan fo'n bosibl er mwyn eu lles ond, yn anochel, ein disgwiliad yw y bydd staff yn cronni mwy o wyliau blynyddol nag a fyddai wedi digwydd mewn blwyddyn arferol.

Ar ddiwedd 2019-20 gwerth y gwyliau blynyddol cronedig yn Archwilio Cymru, fel yr adroddwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon, oedd £521,000 – oedd yn cyfateb i 8.5 diwrnod ar gyfartaledd fesul aelod o staff. Ar gyfer 2020-21 rydym yn disgwyl i falansau gwyliau blynyddol cronedig gynyddu o oddeutu 3 diwrnod fesul aelod o staff – sy'n cyfateb i gost o £200,000 yn uwch i'n cyfrifon. Addasiad adnoddau yn unig yw'r cynnydd hwn ac nid yw'n effeithio ar ein gofynion ariannol.

Fel yr eglurir yn ein Hamcangyfrif Atodol, cafodd y gost hon fwy na'i gwrthbwysu gan incwm ac arbedion ychwanegol dan benawdau cyllidebau eraill sy'n golygu nad ydym yn gofyn am unrhyw arian ychwanegol gan Gronfa Gyfunol Cymru.

Yn gywir



LINDSAY FOYSTER
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru



ADRIAN CROMPTON
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE/463/21

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Caerdydd CF99 1SN

21 Ionawr 2021

Annwyl Llyr,

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 16 Rhagfyr, cytunais i anfon gwybodaeth ychwanegol at y Pwyllgor ynghylch cyfalaf trafodiadau ariannol a symiau canlyniadol fformiwla Barnett Cymru.

Cyfalaf trafodiadau ariannol

Roedd y cais yn ymwneud â rhestr gwariant y cyfalaf trafodiadau ariannol eleni, a beth rydym yn bwriadu ei wario'r flwyddyn nesaf. Gan nad yw blwyddyn ariannol 2020-21 eto wedi dod i ben, rwyf wedi atodi dadansoddiad o'r dyraniadau o gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u gwneud mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol bresennol hyd yma (Atodiad 1). Caiff unrhyw ddyraniadau pellach eu hadlewyrchu yn y drydedd Gyllideb Atodol.

Cafodd ein cynlluniau ar gyfer gwariant y flwyddyn nesaf eu hamlinellu yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22 a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020. Roedd hyn yn cynnwys dyraniadau trafodiadau ariannol newydd o gyfanswm o £114.3m. Rwyf wedi cynnwys dyraniadau 2021-22 yn y tabl er hwylustod.

Symiau canlyniadol fformiwla Barnett Cymru

Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o'r symiau canlyniadol a dderbyniom yng Nghylch Gwario 2021-22.

Rwy'n gosod copi o'r llythyr hwn yn llyfrgell Senedd Cymru.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dyraniadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol 2020-21 a 2021-22¹

Prosiect/Rhaglen	2020-21 £m	2021-22 £m
Cymorth i Brynu - Cymru – Helpu prynwyr tai cymwys i brynu cartref wedi'i adeiladu o'r newydd gyda morgais benthyciad isel mewn cymhariaeth â gwerth a rhoi hwb i'r diwydiant adeiladu.	67	74
Banc Datblygu Cymru – Cronfeydd buddsoddi i alluogi BBaCh i gael mynediad at gyllid, cefnogi twf busnesau, hybu allforion a chreu/diogelu swyddi. Mae'n cynnwys cyllid ar gyfer twristiaeth, achub ac ailstrwythuro, busnesau micro, Cronfa Cyd-fuddsoddi Angylion, eiddo masnachol, buddsoddi hyblyg, gwyddorau bywyd etc.	47	5
Y Cynllun Tir ar gyfer Tai – Darparu benthyciadau i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gaffael safleoedd er mwyn cyflymu datblygiad cynlluniau tai fforddiadwy.	10	
Mentrau Datblygu Economaidd – Cyllid sy'n cefnogi twf economaidd yng Nghymru	42	
Cronfeydd Datblygu Eiddo a'r sector Eiddo – Yn helpu i adeiladu cartrefi newydd, mannau masnachol a diwydiannol.	2	
Maes Awyr Caerdydd a Hedfanaeth – Cynyddu potensial masnachol y diwydiant hedfan yng Nghymru a gwella datblygiad llwybrau hedfan.	5	3
Tai a benthyciadau i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig – Helpu i wireddu'r ymrwymiad i sicrhau 20,000 o gartrefi a darpariaeth tai gan gynnwys datblygiadau arloesol newydd.	64	
Twf Gwyrdd Cymru a Seilwaith Gwyrdd – Cefnogi sector ynni adnewyddadwy Cymru a chynyddu a chyflymu prosiectau i sicrhau buddsoddiad gwyrdd yng Nghymru.	2	
Benthyciadau Canol Trefi a Chronfeydd Adfywio - Helpu i ddarparu dyfodol cynaliadwy i safleoedd ac eiddo gwag neu sy'n cael eu tanddefnyddio, ac wrth wneud hynny, helpu i gael canol trefi sy'n fywiog ac yn hyfyw.	10	5
Cronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol	1	1
Newid i Gerbydau Trydan	8	10
Undebau Credyd - Benthyciadau isradd i sicrhau cydymffurfiaid â chymarebau cyfalaf i asedau gofynnol		1
Benthyciadau diogelwch adeiladau i helpu i gadw a gwella ansawdd y stoc dai yng Nghymru a galluogi preswylwyr, lesddeiliaid a thenantiaid i deimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi.		12
Addysg i helpu i gyflwyno'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol		3

¹ Gwneir dyraniadau pellach yn y drydedd Cyllideb Atodol 2020-21. Caiff ffigurau eu talgrynnu i'r miliwn agosaf, yn unol â'r wybodaeth fonitro ddiweddaraf sydd ar gael, ac nid ydynt yn cynnwys ad-daliadau sy'n ddyledus i'r gronfa ganolog.

Symiau canlyniadol fformiwla Barnett Cymru, Cylch Gwario 2021-22 (£miliwn)**Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau Cyllidol****Ddim yn gysylltiedig â COVID-19**

Iechyd	422.9
Addysg	162.2
Llywodraeth Leol	65.1
Cyllid a Thollau EM	1.9
Trafnidiaeth	12.1
Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol	-0.2
Cymunedau	11.6
Yr Amgylchedd a Materion Gwledig	14.1
Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon	-2.6
Incwm Ardrethi Busnes	7.0
Cyfanswm heb fod yn gysylltiedig â COVID-19	694.2

COVID-19

Iechyd	435.4
Addysg	23.3
Llywodraeth Leol	175.4
Trafnidiaeth	121.0
Cymunedau	10.1
Gwaith a phensiynau	0.8
Cyfanswm COVID-19	765.9

Cyfanswm DEL Adnoddau Cyllidol **1,460.1****Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf****Cyfalaf cyffredinol**

Iechyd	65.5
Addysg	74.7
Cymunedau	-131.9
Cyllid a Thollau EM	0.5
Trafnidiaeth	15.0
Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol	3.7
Yr Amgylchedd a Materion Gwledig	27.0
Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon	5.4
Cyfanswm cyfalaf cyffredinol	59.7

Cyfalaf trafodiadau ariannol

Addysg	1.1
Cymunedau	-193.8
Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol	1.5
Yr Amgylchedd a Materion Gwledig	-0.1
Cyfanswm trafodiadau ariannol	-191.3

Cyfanswm DEL cyfalaf **-131.6**

Eitem 2.4

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/RE/4213/20

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Senedd Cymru,
Bae Cardydd,
Caerdydd,
CF99 1NA

19 Ionawr 2021

Annwyl Llyr,

Diolch am waith craffu'ch Pwyllgor ar Ail Gyllideb Atodol 2020-21 a'r adroddiad a ddaeth yn ei sgil.

Amgaeaf ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion a wnaed, ynghyd ag atodiad ailddatgan ar gyfer yr Ail Gyllideb Atodol sy'n adlewyrchu'r newidiadau gweinidogol a gyhoeddwyd ar 8 Hydref.

Gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION O ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID:

CRAFFU AR AIL GYLLIDEB ATODOL 2020-21 LLYWODRAETH CYMRU

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gall ddarparu gwybodaeth gyfredol am ei hymrwymiaadau gwariant mewn perthynas â'r pandemig, yn ogystal â darparu tryloywder ynghylch y cyllid sydd ar gael iddi a'r cyllid canlyniadol y mae'n ei dderbyn.

Ymateb:Derbyn

Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y Pwyllgor o'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd y flwyddyn hon i fod mor dryloyw â phosibl ynghylch goblygiadau cyllidol y pandemig i Gyllideb Llywodraeth Cymru, gan gynnwys bod yn dryloyw â'r Senedd drwy gyflwyno'r Ail Gyllideb Atodol.

Tynnodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd sylw at yr heriau o ran cysoni cyllid gwarantu Llywodraeth y DU â phenderfyniadau penodol ar wariant yn Lloegr yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar yr Adolygiad o Wariant ar 16 Rhagfyr. Ers hynny, mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid yn cadarnhau'r trefniadau i gyflwyno trydedd gyllideb atodol yn y flwyddyn newydd a fydd yn rhoi cyfrif llawn o'r cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru a'r ymrwymiaadau gwariant ers i'r ail gyllideb atodol gael ei chyhoeddi.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad o gostau datgomisiynu ysbytai maes, gan gynnwys lle mae cyllid ar gyfer y gweithgaredd hwnnw'n dod o fewn cyhoeddiadau y rhoddir cyfrif amdanynt naill ai yng Nghyllideb Atodol Gyntaf neu Ail Gyllideb Atodol 2020-21.

Ymateb:Derbyn

Fel rhan o'r Gyllideb Atodol Gyntaf cyhoeddwyd cyllid o £166m i agor ysbytai maes ledled Cymru ac roedd yn cynnwys costau a oedd yn ymwneud â datgomisiynu Ysbyty Maes Calon y Ddraig. Ar ôl gostyngiad yn y gofynion referniw tebygol a oedd yn gysylltiedig ag ysbytai maes, gostyngwyd y swm o £166m i £141m yn yr Ail Gyllideb Atodol ac mae'n cynnwys costau sy'n ymwneud â datgomisiynu a cholledion canlyniadol pob ysbyty maes ledled Cymru.

Mae'r tabl isod yn rhoi'r amcangyfrifon presennol o'r costau datgomisiynu gan y Byrddau Iechyd. Nid oes unrhyw gostau datgomisiynu i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan na Bwrdd Iechyd Powys.

	Costau datgomisiynu £m
Bae Abertawe	3.906
Betsi Cadwaladr	7.928
Caerdydd a'r Fro	9.963
Cwm Taf Morgannwg	0.395
Hywel Dda	4.338
	<u>26.530</u>

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad o'r £1.3 biliwn a ddarperir i sefydliadau'r GIG ar gyfer COVID-19 ac yn cyhoeddi dadansoddiad o'r costau manwl sy'n gysylltiedig â'r pecyn sefydlogi.

Ymateb: Derbyn

Mae'r £1.3 biliwn a ddyrannwyd i MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Ail Gyllideb Atodol wedi galluogi Llywodraeth Cymru i sefydlogi sefyllfaoedd ariannol sefydliadau'r GIG wrth iddynt ymateb i effaith COVID-19. Defnyddiwyd y cyllid i gefnogi cynlluniau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys sefydlu'r rhwydwaith o ysbytai maes, darparu cyfarpar diogelu personol ar gyfer y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol, gwaith profi ac olrhain cysylltiadau, a defnyddio'r sector annibynnol i ddarparu adnoddau ysbyty ychwanegol.

Ar ddiwedd mis Tachwedd, roedd £938.7 miliwn wedi'i ddyrannu i sefydliadau unigol yn y GIG, gan gynnwys cyrff sy'n cael eu lletya, fel a ganlyn:

	Covid-19 allocations to 30th November
	£000
Aneurin Bevan UHB	97,992
Betsi Cadwaladr UHB	116,534
Cardiff and Vale UHB	109,231
Cwm Taf Morgannwg UHB	77,102
Hywel Dda UHB	69,919
Powys	20,279
Swansea Bay UHB	96,803
Public Health Wales NHS Trust	18,136
Velindre NHS Trust	4,328
Welsh Ambulance Services NHS Trust	2,143
Welsh Health Specialised Services Cttee	26,071
NHS Wales Shared Services Partnership	299,856
NHS Wales Informatics Service	310
Total to 30th November	938,705

Mae'r symiau hyn yn gyfuniad o ddyraniadau blwyddyn lawn i sefydliadau ar gyfer eu cynlluniau lleol a chyllid a ddyrannwyd ar sail symiau gwirioneddol fel yr aed iddynt fel costau a ariennir yn ganolog. Mae cyllid Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cynnwys £275 miliwn ar gyfer cyfarpar diogelu personol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Caiff dadansoddiad manwl o'r dyraniadau terfynol ei roi ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y drydedd gyllideb atodol yn darparu rhagor o fanylion am unrhyw gyllid dilynol ar gyfer Profi, Orlhain a Diogelu, yn enwedig yr elfen diogelu yn y strategaeth.

Ymateb:Derbyn

Dyrannwyd £1m i awdurdodau lleol ymgymryd â gweithgareddau Diogelu megis cymorth gyda siopa, danfoniadau fferyllfaoedd, cynlluniau cyfeillio a chymorth o ran cyngor ac arweiniad ariannol. Gall awdurdodau lleol hefyd ddefnyddio'r gyllideb i roi cymorth ychwanegol i unigolion o ran llety dros dro, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl a llesiant a phecynnau gofal diwygiedig. Mae swyddogion yn datblygu adroddiad monitro misol ar y cyd â swyddogion arweiniol Diogelu awdurdodau lleol a bwriedir cyhoeddi'r adroddiad cyntaf yn fuan.

Hefyd, mae'r Cynllun Cymorth i Hunanynysu gwerth £32m a lanswyd ar 16 Tachwedd yn cynnig taliad o £500 i bobl y gofynnwyd iddynt hunanynysu drwy'r rhaglen Profi, Orlhain a Diogelu. Estynnwyd y cynllun ar 14 Rhagfyr i gynnwys rhieni a gofalwyr plant y gofynnwyd iddynt hunanynysu.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad o'r cyllid a hawliwyd gan bob awdurdod lleol yn erbyn y cyllid mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddarparu, yn y gyllideb atodol nesaf.

Ymateb:Derbyn

Byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad o daliadau yn ôl maes gwasanaeth ac awdurdod lleol o Gronfa Galedi Llywodraeth Leol, ar gyfer costau ychwanegol ac incwm a gollwyd, ar wefan Llywodraeth Cymru cyn y gyllideb atodol nesaf.

Argymhelliad 6

Mewn perthynas â chymorth ariannol i ddarparwyr trafndiaeth, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei chyhoeddi sy'n manylu ar lefel y cyllid mae darparwyr trafndiaeth wedi ei gyrchu hyd yma, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth bellach am ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru am gyllid pellach yn y maes hwn yn 2020-21.

Ymateb:Derbyn

Ar ôl diwedd trydydd chwarter y flwyddyn ariannol gyfredol, bydd Llywodraeth Cymru, drwy'r awdurdodau lleol a Trafnidiaeth Cymru, yn cynnal ymarfer cysoni'r

cyllid a hawliwyd gan weithredwyr trafndiaeth a bydd yn gwneud hynny eto ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi gan awdurdodau lleol pan fydd ar gael.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn parhau i ddadlau'n gryf dros y mater hwn, ar y cyd â gweinyddiaethau datganoledig eraill, er mwyn llacio'r terfynau benthyca blynyddol a'r gallu i dynnu arian o gronfa wrth gefn Cymru.

Ymateb:Derbyn

Rydym yn croesawu cefnogaeth y Pwyllgor o hyd o ran y mater pwysig hwn. Cyn yr Adolygiad o Wariant, galwodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, ynghyd â Phrif Weinidog yr Alban a Phrif Weinidog Gogledd Iwerddon ar Lywodraeth y DU i roi tri phrif fath o hyblygrwydd cyllidebol, gan gynnwys y gallu i gario mwy ymlaen yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ni chrybwyllwyd y materion hyn yn yr Adolygiad o Wariant.

Mae'r fframwaith cyllidol yn nodi'r adnoddau cyllidebol i'w gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru reoli ei chyllid mor effeithiol â phosibl a thros fwy nag un flwyddyn. Fodd bynnag, mae maint y newidiadau a welwyd i gyllideb Llywodraeth Cymru y flwyddyn hon a'r ansicrwydd a wynebwn yn ddigynsail. Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi ysgrifennu eto at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yn gofyn am gytundeb i roi hyblygrwydd ychwanegol mewn perthynas â rheoli'r adnoddau i ymateb i'r pandemig. Byddwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor gyda diweddariad ar ganlyniadau'r trafodaethau hynny.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth bellach am sut mae ei chronfeydd wrth gefn wedi eu 'clustnodi' – ar y lleiaf, yr hyn a ddyrannwyd i gronfa wrth gefn COVID-19 a'r hyn sydd ar gael ar gyfer diwedd cyfnod pontio'r Undeb Ewropeaidd.

Ymateb:Derbyn

Nododd Ail Gyllideb Atodol 2020-21 sefyllfa Llywodraeth Cymru o ran DEL nas dyrannwyd yn Nhabl 2.2 ar adeg cyhoeddi. Mae'r DEL cyfunol nas dyrannwyd yn cynnwys adnoddau cyllidol, adnoddau anghyllidol, cyfalaf cyffredinol a thrafodion ariannol.

Mae DEL adnoddau cyllidol yn cynnwys y cyllid yng Nghronfa Wrth Gefn COVID-19 a'r gronfa wrth gefn arferol a ddelir at ddibenion digwyddiadol wrth inni symud drwy'r flwyddyn ariannol. Ar adeg cyhoeddi'r Ail Gyllideb Atodol, roedd DEL adnoddau

cyllidol nas dyrannwyd yn dal £923.7m at ddibenion a oedd yn ymwneud â COVID-19 a £227.7m at ddibenion digwyddiadol eraill.

Ers hynny, mae bron £600m wedi'i ddyrannu o Gronfa Wrth Gefn COVID-19 ar nifer o fesurau, gan gynnwys £450m i gefnogi busnesau o dan gyfyngiadau lefel rhybudd tri a phedwar.

O ran diwedd cyfnod pontio'r UE, rydym yn parhau i asesu'r goblygiadau ariannol, a rhoi mesurau ar waith i liniaru'r effaith. Mae Cronfa Bontio'r UE gwerth £50m a gyhoeddwyd gennym ar ddechrau 2018, wedi helpu busnesau, gwasanaethau cyhoeddus a'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru i wynebu diwedd y cyfnod pontio gyda chyn lleied o darfu â phosibl. Mae'r gronfa hon, er enghraifft, wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol, mynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd, a meithrin cadernid busnesau; meysydd yr effeithiwyd ar bob un ohonynt o ganlyniad i'r pandemig. Caiff unrhyw ddyraniadau pellach a wnawn y flwyddyn hon eu cyllido drwy'r DEL nas dyrannwyd sydd ar gael.

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn y Cynllun Diwedd y Cyfnod Pontio, mae cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU yn hanfodol i gymryd y camau gweithredu yn y Cynllun ac rydym yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i ddarparu'r cyllid hwnnw.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar ei ohebiaeth â Changhellor Trysorlys y Deyrnas Unedig ynghylch ei ofynion o ran materion yr Undeb Ewropeaidd.

Ymateb: Derbyn

Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Canghellor ar 21 Hydref yn amlinellu prif bryderon Llywodraeth Cymru ynghylch materion sy'n ymwneud â chyllid yr UE cyn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU.

Yn y llythyr hwn, nododd y Gweinidog fod angen cyllid a hyblygrwydd ychwanegol er mwyn lliniaru'r pwysau sy'n gysylltiedig â diwedd y cyfnod pontio a'r swyddogaethau a drosglwyddwyd, gan gynnwys gofynion ar gyfer seilwaith newydd ar y ffin, gan bwysleisio bod llawer o'r ysgogwyr ariannol macro, i liniaru effeithiau'r ansicrwydd economaidd sy'n gysylltiedig â gadael yr UE heb gytundeb masnach cynhwysfawr, yn rhai ar lefel y DU.

Tynnodd y Gweinidog sylw hefyd at bryderon penodol mewn nifer o feysydd polisi, gan gynnwys yr oedi a'r diffyg eglurder ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ymchwil, datblygu ac arloesedd, Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, addysg a symudedd myfyrwyr, a'r sector diwylliant a chreadigol.

Hefyd, ailadroddodd y Gweinidog bryderon a godwyd yn gynharach (ar 20 Hydref) mewn llythyr ar y cyd â Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, o ran y ffordd y bwriedir disodli cronfeydd yr UE ar gyfer amaethyddiaeth a datblygu gwledig yng Nghymru.

Pwysleiswyd y pwyntiau hyn sawl gwaith ar lefel Weinidogol a swyddogol, gan gynnwys mewn llythyr arall gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Canghellor dyddiedig 13 Tachwedd, fel rhan o ohebiaeth a oedd yn nodi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru cyn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU.

Yn y llythyr hwn, cododd y Gweinidog y pwynt yn benodol unwaith eto ei bod yn hanfodol nad oedd unrhyw oedi pellach cyn bod Llywodraeth y DU yn rhannu sut roedd yn bwriadu gweithredu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, y mae'n rhaid i hynny barchu datganoli yn llawn a chadw addewidion Llywodraeth y DU na fyddai Cymru geiniog ar ei cholled nag y byddai wedi bod pe bai wedi aros yn yr UE.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar frys i ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig eraill i gael manylion am y Gronfa Ffyniant Gyffredin a chyhoeddi'r manylion hynny.

Ymateb:Derbyn

Ers i Lywodraeth y DU gyhoeddi Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU dros dair blynedd yn ôl, nid yw wedi ymgysylltu'n ystyrlon ar lefel Weinidogol na swyddogol â Llywodraeth Cymru na'r llywodraethau datganoledig eraill ynglŷn â'i chynlluniau. Mae'r £220m o gyllid a gyhoeddwyd ar gyfer cynllun peilot i'r DU gyfan yn 2021-22 yn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU yn golygu gostyngiad sylweddol mewn cyllid i Gymru ac yn achosi ansicrwydd i amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n gweithio'n galed i gefnogi busnesau, cymunedau ac unigolion pan fydd angen cymorth arnynt fwyaf o ganlyniad i effaith gyfunol pandemig COVID-19 a gadael yr UE.

Mae ein Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol a gyhoeddwyd ar 18 Tachwedd wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â channoedd o sefydliadau o bob sector – llywodraeth leol, addysg bellach ac uwch, y sector preifat a'r trydydd sector – yng Nghymru, ac wedi cael ei gefnogi gan waith y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac ymgynghoriad cyhoeddus. Felly, mae'n hollbwysig na chaiff y gwaith caled a wnaed gennym ar y cyd â'n rhanddeiliaid dros y ddwy flynedd diwethaf ei golli a bod y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ymgorffori ein gwaith a'n harbenigedd yn llawn.

Drwy gydol y broses o ddatblygu polisi buddsoddi rhanbarthol ar ôl gadael yr UE, rydym wedi cynnal deialog rheolaidd â'r gweinidogion cyfatebol mewn llywodraethau datganoledig eraill ac wedi gweithio gyda'n gilydd ar ddulliau gweithredu cyffredin er mwyn codi pwysigrwydd y mater hwn yn gyhoeddus ac yn wleidyddol.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig eraill ac yn pwysu am ymgysylltu ystyrlon â Llywodraeth y DU, yn cynnwys sut y caiff cyllid yn y dyfodol ei ddosbarthu a rôl ac ymwneud Llywodraeth Cymru. Mae'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar 22 Rhagfyr i ailbwysleisio'r pwyntiau hyn a phwyso am gyfarfod brys â'r Ysgrifennydd Cymunedau a'r Ysgrifennydd Pensiynau fel y gallwn fwrw ymlaen â hyn ymhell cyn cyhoeddi fframwaith y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn y gwanwyn.

Argymhelliad 11

Er gwaethaf y materion posibl sy'n codi o'r adolygiad gwariant, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddarparu eglurder i randdeiliaid ynghylch cyllidebau y tu hwnt i flwyddyn, yn ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22.

Ymateb:Derbyn

Rydym bob amser yn anelu at roi cyllidebau ar gyfer y tymor hwy i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid lle y bo modd, ond un ffactor pwysig sy'n codi wrth bennu cyllidebau am fwy na blwyddyn yw terfyn amser ein setliad cyllidebol ein hunain. Er i Lywodraeth y DU addo'n wreiddiol y byddem yn cael setliad dros fwy na blwyddyn, dim ond setliad refeniw a chyfalaf am flwyddyn a gawsom yn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynlluniau adnoddau a chyfalaf ar gyfer y tymor hwy ar gyfer rhaglenni penodol, gan gynnwys y GIG ac addysg. Fodd bynnag, cynlluniau i Loegr yn unig yw'r rhain ac nid ydynt yn rhoi canllaw dibynadwy ar gyllid yn y dyfodol yng Nghymru, oherwydd gallai symudiadau mewn rhaglenni eraill nas cwmpaswyd gan y cynlluniau hyn gael effaith sylweddol ar ein terfynau gwariant cyffredinol.

Felly, mae hyn yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i roi sicrwydd yn y tymor hwy i'r gwasanaethau a'r sefydliadau lu a ariannwn, yn enwedig o ystyried y cyd-destun cyllidol rydym yn ei wynebu. Mae adroddiad y Prif Economegydd a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chyllideb ddrafft 2021-22 Llywodraeth Cymru ar 21 Rhagfyr yn tynnu sylw at yr ansicrwydd mawr iawn a wynebwn ar hyn o bryd, o ganlyniad i natur newidiol pandemig COVID-19 a'r diffyg eglurder ynghylch y llwybr tuag at bontio i berthynas newydd â'n partneriaid masnachu allweddol yn yr Undeb Ewropeaidd. Tanlinellir hyn gan yr amrywiol senarios a luniwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o ran CDG a diweithdra. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn dangos amcanestyniadau o gyllideb Llywodraeth Cymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf sydd ar gael i gefnogi'r gwaith blaengynllunio ariannol.

Cynlluniau ar gyfer 2020-21 adeg yr Ail Gyllideb Atodol, Hydref 2020

£000oedd

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	Adnoddau		Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM MEG	
	Cyllidol	Anghyllido	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf		Cyfanswm AME
Iechyd, Llesiant a Chwaraeon	9,526,060	190,000	9,716,060	407,488	-	407,488	217,667	-	217,667	10,341,215
Llywodraeth Leol	4,815,823	240	4,816,063	615,085	150,505	765,590	828,255	-	828,255	6,409,908
Yr Economi a'r Seilwaith	2,004,931	192,400	2,197,331	637,315	85,260	722,575	29,525	-	29,525	2,949,431
Addysg	1,490,143	107,154	1,597,297	219,450	(195)	219,255	(123,801)	863,631	739,830	2,556,382
Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol	207,788	8,882	216,670	32,767	15,746	48,513	3,013	-	3,013	268,196
Yr Amgylchedd a Materion Gwledig	417,240	21,675	438,915	118,192	2,000	120,192	2,400	-	2,400	561,507
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	366,907	16,000	382,907	27,446	1,000	28,446	2,999	-	2,999	414,352
CYFANSWM Y DYRANIADAU I BRIF GRWPIAU GWARIANT LLYWODRAETH CYMRU	18,828,892	536,351	19,365,243	2,057,743	254,316	2,312,059	960,058	863,631	1,823,689	23,500,991

Cynlluniau ar gyfer 2020-21 adeg yr Ail Gyllideb Atodol, wedi'i hailddatgan Rhagfyr 2020

£000oedd

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	Adnoddau		Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM MEG	
	Cyllidol	Anghyllido	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf		Cyfanswm AME
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	9,413,209	190,000	9,603,209	402,416	-	402,416	217,667	-	217,667	10,223,292
Tai a Llywodraeth Leol	4,767,165	240	4,767,405	588,685	150,505	739,190	828,255	-	828,255	6,334,850
Yr Economi a Thrafnidiaeth	2,008,085	192,400	2,200,485	637,315	85,260	722,575	29,525	-	29,525	2,952,585
Addysg	1,490,143	107,154	1,597,297	219,450	(195)	219,255	(123,801)	863,631	739,830	2,556,382
Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg	309,637	8,882	318,519	37,339	15,746	53,085	3,013	-	3,013	374,617
Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig	465,898	21,675	487,573	144,592	2,000	146,592	2,400	-	2,400	636,565
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	374,755	16,000	390,755	27,946	1,000	28,946	2,999	-	2,999	422,700
CYFANSWM Y DYRANIADAU I BRIF GRWPIAU GWARIANT LLYWODRAETH CYMRU	18,828,892	536,351	19,365,243	2,057,743	254,316	2,312,059	960,058	863,631	1,823,689	23,500,991

SYMUDIADAU

£000oedd

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM MEG
	Cyllidol	Anghyllido	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	(112,851)	-	(112,851)	(5,072)	-	(5,072)	-	-	-	(117,923)
Tai a Llywodraeth Leol	(48,658)	-	(48,658)	(26,400)	-	(26,400)	-	-	-	(75,058)
Yr Economi a Thrafnidiaeth	3,154	-	3,154	-	-	-	-	-	-	3,154
Addysg	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg	101,849	-	101,849	4,572	-	4,572	-	-	-	106,421
Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig	48,658	-	48,658	26,400	-	26,400	-	-	-	75,058
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	7,848	-	7,848	500	-	500	-	-	-	8,348
SYMUDIADAU NET	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-

Ailddatgan Ail Gyllideb Atodol 2020-21 ar ôl y Newidiadau mewn Cyfrifoldebau Gweinidogol

Nodyn: Os nad oes nodiadau, mae'r symudiadau isod yn golygu symud BELs rhwng MEGs

IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (H&SS)											£000oedd
Cynlluniau ar gyfer 2020-21 adeg yr Ail Gyllideb Atodol, Hydref 2020		Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM
		Cyllidol	Anghyllido	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
		9,526,060	190,000	9,716,060	407,488	-	407,488	217,667	-	217,667	
Trosglwyddwyd allan:	I:										
Iechyd Meddwl	MHW&WL	(3,029)	-	(3,029)	-	-	-	-	-	-	(3,029)
Cronfa'r Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau	MHW&WL	(30,075)	-	(30,075)	(5,072)	-	(5,072)	-	-	-	(35,147)
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd	MHW&WL	(3,737)	-	(3,737)	-	-	-	-	-	-	(3,737)
Ymchwil a Datblygu	MHW&WL	(42,075)	-	(42,075)	-	-	-	-	-	-	(42,075)
Gwella Iechyd a Gweithio'n Iach ^{Nodyn 1}	MHW&WL	(7,189)	-	(7,189)	-	-	-	-	-	-	(7,189)
Dyraniadau Uniongyrchol Eraill GIG Cymru ^{Nodyn 2}	MHW&WL	(16,053)	-	(16,053)	-	-	-	-	-	-	(16,053)
Cymru Iachach ^{Nodyn 3}	MHW&WL	(10,000)	-	(10,000)	-	-	-	-	-	-	(10,000)
Gofalwyr Pobl Hŷn a Phobl ag Anableddau ^{Nodyn 4}	MHW&WL	(693)	-	(693)	-	-	-	-	-	-	(693)
Ail Gyllideb Atodol wedi'i Hailddatgan, Rhagfyr 2020		9,413,209	190,000	9,603,209	402,416	-	402,416	217,667	-	217,667	10,223,292

- NODIADAU
- Mae'r BEL hon wedi trosglwyddo i MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg (MHW&WL) ond mae £9,697k wedi aros yn MEG H&SS yn y BEL 'Hybu Iechyd' newydd
 - Mae'r BEL hon yn aros yn MEG H&SS ond mae £16,053k wedi'i drosglwyddo allan i BEL Iechyd Meddwl o fewn MEG MHW&WL
 - Mae'r BEL hon yn aros yn MEG H&SS ond mae £10,000k wedi'i drosglwyddo allan i BEL y Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau o fewn MEG MHW&WL
 - Mae'r BEL hon yn aros yn MEG H&SS ond mae £693k wedi'i drosglwyddo allan i BEL Iechyd Meddwl o fewn MEG MHW&WL

TAI A LLYWODRAETH LEOL (H&LG)											£000oedd
Cynlluniau ar gyfer 2020-21 adeg yr Ail Gyllideb Atodol, Hydref 2020		Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM
		Cyllidol	Anghyllido	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
		4,815,823	240	4,816,063	615,085	150,505	765,590	828,255	-	828,255	
Trosglwyddwyd allan:	I:										
Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol	EE&RA	(38,692)	-	(38,692)	(17,500)	-	(17,500)	-	-	-	(56,192)
Tirwedd a Hamdden Awyr Agored	EE&RA	(9,966)	-	(9,966)	(8,900)	-	(8,900)	-	-	-	(18,866)
Ail Gyllideb Atodol wedi'i Hailddatgan, Rhagfyr 2020		4,767,165	240	4,767,405	588,685	150,505	739,190	828,255	-	828,255	6,334,850

YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH (E&T)											£000oedd
Cynlluniau ar gyfer 2020-21 adeg yr Ail Gyllideb Atodol, Hydref 2020		Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM
		Cyllidol	Anghyllido	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
		2,004,931	192,400	2,197,331	637,315	85,260	722,575	29,525	-	29,525	
Trosglwyddwyd i mewn: Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi	O: MHW&WL	3,154	-	3,154	-	-	-	-	-	3,154	
Ail Gyllideb Atodol wedi'i Hailddatgan, Rhagfyr 2020		2,008,085	192,400	2,200,485	637,315	85,260	722,575	29,525	-	29,525	2,952,585

ADDYSG (Educ) - Dim Newid											
Cynlluniau ar gyfer 2020-21 adeg yr Ail Gyllideb Atodol, Hydref 2020		Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM
		Cyllidol	Anghyllido	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
		1,490,143	107,154	1,597,297	219,450	(195)	219,255	(123,801)	863,631	739,830	
Ail Gyllideb Atodol wedi'i Hailddatgan, Rhagfyr 2020		1,490,143	107,154	1,597,297	219,450	(195)	219,255	(123,801)	863,631	739,830	2,556,382

IECHYD MEDDWL, LLESIAINT A'R GYMRAEG (MHW&WL)											£000oedd
Cynlluniau ar gyfer 2020-21 adeg yr Ail Gyllideb Atodol, Hydref 2020		Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM
		Cyllidol	Anghyllido	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
		207,788	8,882	216,670	32,767	15,746	48,513	3,013	-	3,013	
Trosglwyddwyd i mewn:	O:										
Iechyd Meddwl	H&SS	3,029	-	3,029	-	-	-	-	-	3,029	
Iechyd Meddwl ^{Nodyn 1}	H&SS	16,053	-	16,053	-	-	-	-	-	16,053	
Iechyd Meddwl ^{Nodyn 2}	H&SS	693	-	693	-	-	-	-	-	693	
Cronfa'r Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau	H&SS	30,075	-	30,075	5,072	-	5,072	-	-	35,147	
Cronfa'r Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau ^{Nodyn 3}	H&SS	10,000	-	10,000	-	-	-	-	-	10,000	
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd	H&SS	3,737	-	3,737	-	-	-	-	-	3,737	
Ymchwil a Datblygu	H&SS	42,075	-	42,075	-	-	-	-	-	42,075	
Gwella Iechyd a Gweithio'n Iach ^{Nodyn 4}	H&SS	7,189	-	7,189	-	-	-	-	-	7,189	
Trosglwyddwyd allan:	I:										
Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi	E&T	(3,154)	-	(3,154)	-	-	-	-	-	(3,154)	
Datblygu Rhyngwladol	CS&A	(860)	-	(860)	(500)	-	(500)	-	-	(1,360)	
Cysylltiadau Rhyngwladol	CS&A	(6,988)	-	(6,988)	-	-	-	-	-	(6,988)	
Ail Gyllideb Atodol wedi'i Hailddatgan, Rhagfyr 2020		309,637	8,882	318,519	37,339	15,746	53,085	3,013	-	3,013	374,617

NODIADAU

1

Mae'r Gyllideb hon wedi trosglwyddo o BEL Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG sy'n aros yn MEG H&SS

- 2 Mae'r Gyllideb hon wedi trosglwyddo o BEL Gofalwyr Pobl Hŷn a Phobl ag Anableddau sy'n aros yn MEG H&SS
- 3 Mae'r Gyllideb hon wedi trosglwyddo o BEL Cymru Iachach sy'n aros yn MEG H&SS
- 4 This BEL has transferred in from the H&SS MEG but £9,697k has remained in the H&SS MEG in the new 'Health Promotion' BEL

YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG (EE&RA)											£000oedd	
Cynlluniau ar gyfer 2020-21 adeg yr Ail Gyllideb Atodol, Hydref 2020		Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM	
		Cyllidol	Anghyllido	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME		
		417,240	21,675	438,915	118,192	2,000	120,192	2,400	-	2,400		
Trosglwyddwyd i mewn:		O:										
Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol		H&LG		38,692	-	38,692	17,500	-	17,500	-	-	56,192
Tirwedd a Hamdden Awyr Agored		H&LG		9,966	-	9,966	8,900	-	8,900	-	-	18,866
Ail Gyllideb Atodol wedi'i Hailldatgan, Rhagfyr 2020		465,898	21,675	487,573	144,592	2,000	146,592	2,400	-	2,400	636,565	

GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU (CS&A)											£000oedd	
Cynlluniau ar gyfer 2020-21 adeg yr Ail Gyllideb Atodol, Hydref 2020		Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM	
		Cyllidol	Anghyllido	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME		
		366,907	16,000	382,907	27,446	1,000	28,446	2,999	-	2,999		
Trosglwyddwyd i mewn:		O:										
Datblygu Rhyngwladol		MHW&WL		860	-	860	500	-	500	-	-	1,360
Cysylltiadau Rhyngwladol		MHW&WL		6,988	-	6,988	-	-	-	-	-	6,988
Ail Gyllideb Atodol wedi'i Hailldatgan, Rhagfyr 2020		374,755	16,000	390,755	27,946	1,000	28,946	2,999	-	2,999	422,700	

Tudalen y pecyn 40

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE-470-21

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

2 Chwefror 2021

Annwyl Llyr,

Amgaeaf nodyn ar gyfraddau a throthwyon amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir (LTT). Cytunais i ddarparu hyn i'r Pwyllgor Cyllid yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar Offeryn Statudol y Dreth Trafodiadau Tir ar 8 Ionawr.

Byddaf yn rhoi copi yn llyfrgell y Senedd.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y Dreth Trafodiadau Tir – Cyfraddau Amhreswyl

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud penderfyniadau, a gymeradwywyd gan y Senedd, i ddarparu'r bandiau a'r cyfraddau treth amhreswyl mwyaf graddoledig o blith trethi trafodiadau eiddo'r DU.

Pan bennwyd cyfraddau amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir (LTT) gan Lywodraeth Cymru, a'u cymeradwyo gan y Senedd yn gynnar yn 2018, roeddent yn cynnwys band treth uchaf o 6% a gymhwyswyd ar ystyriaethau mwy na £1,000,000. Y dreth a oedd yn cael ei chodi ar Dreth Tir y Dreth Stamp (SDLT) bryd hynny oedd 5% ac mae hynny'n dal yr un fath.

Ym mis Rhagfyr 2020, cynyddodd Llywodraeth Cymru y trothwy ar gyfer y bandiau treth cyfradd sero amhreswyl o £150,000 i £225,000. Mae hyn yn gwella graddoliad y gyfundrefn LTT amhreswyl ymhellach. Trethdalwyr eiddo amhreswyl Cymru bellach sy'n talu'r dreth leiaf ar drafodiadau hyd at tua £1.1 miliwn a'r dreth fwyaf ar drafodiadau sy'n uwch na'r pwynt hwnnw.

Mae'r tabl isod yn nodi'r dreth sy'n daladwy ar brynu eiddo amhreswyl rhydd-ddaliadol ar bum pwynt pris gwahanol; £250,000, £500,000, £1,000,000, £5,000,000 a £10,000,000, sy'n dangos natur raddoledig y dreth a godir o dan LTT. Mae cyfraddau gwahanol yn berthnasol i drethu rhenti sy'n daladwy ar roi prydles.

Tabl: Enghreifftiau o rwymedigaethau treth eiddo amhreswyl ar gyfer LTT¹, SDLT ac LBTT

Gwerth y trafodiad	LTT	SDLT	LBTT
£250,000	£250	£2,000	£1,000
£500,000	£12,750	£14,500	£13,500
£1,000,000	£37,750	£39,500	£38,500
£5,000,000	£157,750	£139,500	£138,500
£10,000,000	£577,750	£489,500	£488,500

1. Cyfraddau sy'n gymwys o 22 Rhagfyr 2020

Mae ystadegau Awdurdod Cyllid Cymru ar gyfer y dreth trafodiadau tir (LTT) yn dangos yn 2019-20 bod 320 o drafodiadau amhreswyl â gwerth trethadwy o dros £1m o ystyriaeth ac eithrio rhent. O'r rhain, y gwerth yw £3.9m ar gyfartaledd. O'r 320 o drafodiadau, roedd 50 am £5m neu fwy gyda gwerth o £14.9m ar gyfartaledd. Cynhyrchodd y rhain £25.7m o dreth. Nid oes dadansoddiadau pellach â gwerthoedd uwch ar gael oherwydd cyfrinachedd data.

Yn y flwyddyn ariannol gyfredol hyd at fis Tachwedd, bu 150 o drafodiadau am £1m neu fwy, gyda gwerth o £4.1m ar gyfartaledd. Nid oes unrhyw ddadansoddiadau pellach yn ôl gwerth gyda'r data yn ystod y flwyddyn.

Ni fydd pob un o'r trafodiadau hyn wedi bod yn agored i dalu treth, gan fod rhai'n debygol o fod wedi cael eu rhyddhau o dreth oherwydd natur y trafodiad, er enghraifft pan symudir perchnogaeth eiddo o fewn grŵp corfforaethol. Mae Awdurdod Cyllid Cymru yn cyhoeddi dadansoddiad o hawliadau am ryddhad¹.

¹ Dadansoddiad o hawliadau am ryddhad - <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Taxes-devolved-to-Wales/Land-Transaction-Tax/landtransactiontaxstatistics-relief-by-measure-transactiontype>

Mae data alldro yn awgrymu y gallai cynnydd o 1 pwynt canran i gyfraddau LTT ar werth trafodiadau dros £5m godi rhwng £1m a £5m bob blwyddyn – er y byddai effeithiau ymddygiadol yn ansicr a bod nifer y trafodiadau gwerth uchel yn agored i amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn. Byddai cynnydd o 1 pwynt canran i gyfraddau LTT ar werth trafodiadau dros £20m yn annhebygol o godi referniw ychwanegol sylweddol.

Byddai disgwyl i gynnydd mewn cyfraddau treth ar gyfer y trafodiadau drutach hyn leihau'r prisiau a nifer y trafodiadau. Rhagdybiaethau canolog presennol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar yr effeithiau ymddygiadol hyn yw y byddai cynnydd o 1 pwynt canran yn y gyfradd dreth yn lleihau trafodiadau tua 5% a phrisiau tua 2% . Fodd bynnag, mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch yr amcangyfrifon hyn.

Mae ystadegau am y dreth trafodiadau tir ar gael ar StatsCymru:

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Taxes-devolved-to-Wales/Land-Transaction-Tax>

Welsh Parliament

External Affairs and Additional Legislation Committee

Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

2 February 2021

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol,

Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Rwy'n ysgrifennu i'ch gwahodd i fod yn bresennol mewn cyfarfod rhithwir o Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Senedd ("y Pwyllgor").

Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod eich defnydd arfaethedig o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Nghymru ("y Gronfa"), gan gynnwys cyfanswm yr arian fydd ar gael i Gymru, a'r mecanwaith rydych chi'n bwriadu ei ddefnyddio er mwyn dyrannu'r cyllid hwn.

Os ydych chi'n barod i fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol, byddwn yn ddiolchgar pe gallai eich swyddogion gysylltu â Chlerc y Pwyllgor i wneud trefniadau. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod ar brynhawn dydd Llun ac mae ganddo gyfarfodydd wedi'u trefnu ar 22 Chwefror, 1 Mawrth ac 8 Mawrth 2021.

Rwyf ar ddeall eich bod wedi derbyn gwahoddiad i fod yn bresennol yn un o gyfarfodydd Pwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Mawrth, sef sesiwn a fydd, o bosibl, yn cynnwys cwestiynau ynghylch y Gronfa hefyd. Yn wyneb hynny – ac fel dewis arall heblaw ymddangos gerbron y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar wahân – byddwn yn fodlon trafod â Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid i gael gweld a ellir cynnal sesiwn ar y cyd, unwaith bod dyddiad ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid wedi'i bennu.

Diolch i chi am ichi ystyried y cais hwn a dyma obeithio y gallwch chi ymuno â ni yn un o gyfarfodydd y dyfodol.



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ SeneddMADY@senedd.cymru

☎ 0300 200 6565


Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ SeneddEAAL@senedd.wales

☎ 0300 200 6565

Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "David F. Rees." The signature is written in a cursive style with a large initial 'D'.

David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Eitem 2.7

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE- 480-21

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

09 Chwefror 2021

Annwyl Llyr,

Diolch am eich ymholiad am y gwaith modelu ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ystod fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ar 8 Ionawr.

Fel y gwyddoch, ar 11 Ionawr cyflwynodd Adam Price AS gwestiwn: "Yn dilyn WQ81793, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r gwaith modelu i wella'r cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim?" (WQ81850).

Ar y pryd, dywedais fod y Gweinidog Addysg yn bwriadu cyhoeddi'r gwaith modelu erbyn diwedd mis Ionawr 2021. Mae'n bleser gennyf gadarnhau bod y ddogfen bellach wedi'i gosod yn llyfrgell y Senedd lle gall Aelodau ei gweld.

Er hwylustod, dyma ddolen at y ddogfen yn Llyfrgell y Senedd isod: <https://senedd.wales/media/50xn41rr/dp-1947-16-21.pdf>

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Rhun ap Iorwerth a gododd hyn yn ystod fy sesiwn gwestiynau ddiwethaf.

Gobeithio bod hyn o gymorth.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 46

Prif Swyddfa Hafal
Uned B3
Parc Technoleg Lakeside
Ffordd y Ffenics
Llansamlet
Abertawe
SA7 9FE

Hafal Head Office
Unit B3
Lakeside Technology Park
Phoenix Way
Llandaulet
Swansea
SA7 9FE

hafal.org



Llyr Gruffydd MS
Chair
Finance Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
CF99 1SN

17th February 2021

Dear Mr Gruffydd

Re: Scrutiny of the Welsh Government's Draft Budget 2021-22

As Chief Executive of member-led mental health charity Hafal I am writing to you for clarification of the following Recommendation in the Finance Committee's Scrutiny of the Welsh Government's Draft Budget:

Recommendation 14. The Committee recommends that whilst tackling the increased levels of mental ill health linked to the pandemic, the Welsh Government ensures that investment is made in preventative measures which consider the wider determinants of mental health, such as skills and employability, education, housing, access to green space and physical activity.

We are concerned that this recommendation could be interpreted as support for mental health-specific funding (protected by the ring fence) to be used to fund such additional measures. We recognise the value of such measures in preventing mental ill health, but for the ring fence to have meaning it cannot include such measures which are matters for other budgets: of course the Welsh Government can fund other departments to undertake such measures but this should not be at the expense of mental health services funded under the ring fence.

As indicated in our response to the consultation, Hafal Members believe that funding for mental health services should not be diverted to support the responsibilities of other departments and agencies to play their role in protecting and enhancing the mental wellbeing of their clients, staff and the public.

I would seek your reassurance that the Committee does not support use of ring-fenced funds for such wider purposes.

Yours sincerely

Alun Thomas
Chief Executive

Cynnig y Gyllideb Atodol 2020-21

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Chwefror 2021

Cynnig y Gyllideb Atodol

1. Gofynnir i'r Senedd gytuno ar y canlynol:

- Gwneir y penderfyniad hwn ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 gan Senedd Cymru ("y Senedd") yn unol ag Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf").

2. Dylai'r Cynnig Atodol hwn ar gyfer y Gyllideb gael ei ddarllen ochr yn ochr â dogfennau'r gyllideb a gyhoeddwyd ar 16 Chwefror 2021.

Llywodraeth Cymru

3. Awdurdodir Llywodraeth Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronuss) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 yr Atodlen honno;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronuss a nodir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 2 o bob Rhan o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer pob Rhan o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn Atodlen 1, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

4. Er gwaethaf paragraffau 2(a) a (b), caiff yr adnoddau y gellir eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, yng Ngholofn 2 o bob Rhan o Atodlen 2), fod yn uwch na'r swm a bennir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 2 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, ym mhob rhan o Atodlen 2)-

(a) os bodlonir yr amod cyntaf, yn achos adnoddau heb gynnwys adnoddau cronuss, neu

(b) os bodlonir yr ail amod, yn achos adnoddau cronuss.

5. Yr amod cyntaf yw nad yw cyfanswm yr adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronuss) a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2021 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno.

6. Yr ail amod yw nad yw cyfanswm yr adnoddau cronuss a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2021 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 2 o Atodlen 2 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir ar gyfer pob rhan o'r Atodlen honno.

7. O dan Adran 126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gall cynnig cyllidebol ar gyfer blwyddyn ariannol gynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r adnoddau y disgwylir iddynt gael eu defnyddio gan unrhyw gorff sy'n gorff dynodedig mewn perthynas â pherson perthnasol. Mae adnoddau'r cyrff sydd wedi'u dynodi o dan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 (fel y'i diwygiwyd) wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn ar gyfer y gyllideb atodol.

Comisiwn y Senedd

8. Awdurdodir Comisiwn y Senedd -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 1 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 1 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 1 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

9. Awdurdodir Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 2 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 2 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 2 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Swyddfa Archwilio Cymru

10. Awdurdodir Swyddfa Archwilio Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 3 o Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y manau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 3 o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer Rhan 3 o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 o Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Manyleb y Categorïau o Adnoddau Cronnus

11. Mae'r categorïau o adnoddau cronnus a restrir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, ac yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 4, yn gategorïau penodedig at ddibenion Adran 120(2)(a) o'r Ddeddf.”

Crynodeb o'r Gofynion Adnoddau a Chyfalaf

Gweinidogion Cymru

Cwmpas	Adnoddau (£000)	Adnoddau Cronnus (£000)
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	10,466,690	68,636
Tai a Llywodraeth Leol	5,945,017	29,537
Yr Economi a Thrafnidiaeth	4,195,263	84,840
Addysg	3,574,858	274,511
Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg	413,580	4,426
Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig	639,838	106,379
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	453,502	411,131
Cyfanswm yr Adnoddau y Gofynnir Amdanynt a'r Incwm Cronnus mewn perthynas â Gweinidogion Cymru	25,688,748	979,460

Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

Cwmpas	Adnoddau (£000)	Adnoddau Cronnus (£000)
Comisiwn y Senedd	60,625	220
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	5,270	991
Swyddfa Archwilio Cymru	8,223	14,270
Cyfanswm yr Adnoddau a'r Incwm Cronnus ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol	74,118	15,481

Atodlen 1 – Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus)

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Cyflenwi gwasanaethau GIG craidd a gwasanaethau GIG wedi'u targedu, gan gynnwys amhariadau a darpariaethau; cefnogi addysg a hyfforddiant i weithlu'r GIG a hosbisau; noddi cyrff iechyd cyhoeddus, rhaglenni iechyd y cyhoedd; trefniadau effeithiol i baratoi ar gyfer argyfwng iechyd; gofal a chymorth cymdeithasol, partneriaethau ac integreiddio, gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, Gofal Cymdeithasol Cymru; cyllid ar gyfer y Comisiynydd Pobl Hŷn; cyllid ar gyfer y Comisiynydd Plant a CAFCASS; gwariant ar gefnogi plant ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	10,466,690

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Tai a Llywodraeth Leol</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar dai, llywodraeth leol a chymunedau, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Cyllid i gefnogi llywodraeth leol, gan gynnwys cyllid cyfalaf cyffredinol a gwasanaethau prisio; meithrin democratiaeth leol; cefnogi cydweithio, diwygio a gwella. Cyllid ar gyfer cynllunio a rheoleiddio a thai i gynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai fforddiadwy a thai'r farchnad; i helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi drwy rhaglen Cefnogi Pobl, y rhaglen Byw'n Annibynnol a'r Gronfa Gofal Integredig ac i atal digartrefedd. Cyllid i gefnogi cymunedau, gan gynnwys Adfywio, Cynhwysiant Ariannol a Chynhwysiant Digidol; y Gwasanaethau Tân ac Achub a Chydnerthedd. Ariannu Academi Wales, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Estyn. Hefyd yn cynnwys unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	<p>5,945,017</p>

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Yr Economi a Thrafnidiaeth</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar yr Economi a Thrafnidiaeth, gan gynnwys hybu a chefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol busnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru.</p> <p>Gwariant ar sectorau a datblygu busnes rhanbarthol; entrepreneuriaeth a gwybodaeth fusnes; allforio, masnach a mewnfuddsoddi; darparu cymorth i wella a datblygu seilwaith digidol; darparu seilwaith TGCh a seilwaith sy'n gysylltiedig ag eiddo; rhaglenni corfforaethol a strategol; Banc Datblygu Cymru; Cyllid Cymru; gweithrediadau traffyrdd a chefnffyrdd; gwella a chynnal y rhwydwaith cefnffyrdd; gwasanaethau a buddsoddiadau ffyrdd, rheilffyrdd, awyr a môr; teithio cynaliadwy; gwella diogelwch ar y ffyrdd; dysgu'n seiliedig ar waith; darparu cymorth ar gyfer sgiliau; polisi sgiliau; cyflogaeth a sgiliau; dewisiadau addysgol a gyrfacol ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol sy'n rhoi budd economaidd ehangach i Gymru.</p>	4,195,263
Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Addysg</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Addysg, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Gwariant ar safonau addysg a hyfforddiant, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd, cwricwlwm, addysgu ac arweinyddiaeth, cymwysterau, addysg ôl-16, addysg uwch, grant datblygu disgyblion, TGCh a systemau rheoli gwybodaeth, a darpariaeth TG ac ystadau; ymgysylltiad a chyflogaeth ieuenctid; llesiant plant a phobl ifanc; cymorth i ddysgwyr ôl-16; enbyn diddordeb disgyblion; addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog; cymorth cyflawni; ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	3,574,858

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg gan gynnwys hyrwyddo a chefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol busnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru.</p> <p>Gwariant ar gyflawni polisiau iechyd meddwl a deddfwriaeth a chyflawni cynllun gweithredu'r strategaeth camddefnyddio sylweddau; yr Asiantaeth Safonau Bwyd; rhaglenni iechyd y cyhoedd; datblygu a gweithredu ymchwil a datblygu er budd cleifion a'r cyhoedd; gofal a chymorth cymdeithasol, twristiaeth a Digwyddiadau Cymru i hyrwyddo Cymru; cefnogi diwylliant a'r celfyddydau drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Cymru Greadigol ac eraill; cymorth i ddiwylliant a chwaraeon lleol; y cyfryngau a chyhoeddi; cefnogi'r amgylchedd hanesyddol a naturiol drwy Cadw, Gerddi Botaneg Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru; hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy Chwaraeon Cymru ac eraill; cefnogi'r Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg; ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol sy'n rhoi budd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach i Gymru.</p>	<p>413,580</p>

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, gan gynnwys hybu, gwella neu gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.</p> <p>Datblygu a gweithredu polisi a rhaglenni cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli cyfoeth naturiol, amaethyddiaeth, bwyd a'r môr; datblygu a gweithredu polisi newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, Twf Gwyrdd, economi gylchol, seilwaith gwyrdd, diogelu'r amgylchedd, perygl o lifogydd a pherygl i'r arfordir, a pholisi a deddfwriaeth dŵr a charthion; Cynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi; darparu polisiâu gwarchod natur a choedwigaeth; noddi a rheoli cyrff cyflawni; datblygu sylfaen dystiolaeth briodol i ategu gwaith Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig.; gwarchod iechyd anifeiliaid, planhigion a gwenyn a datblygu polisiâu addasu genetig; hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig a mynediad ehangach at fannau gwyrdd; gweinyddu a chyflawni'r Polisi Amaethyddol Cyffredin; darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig; cefnogi newydd-ddyfodiaid i ffermio, ffermwyr a chymunedau gwledig Cymru; datblygu ar sail tystiolaeth ar gyfer materion gwledig; datblygu a rheoli môr, pysgodfeydd a dyframaethu Cymru, gan gynnwys gorfodi pysgodfeydd Cymru; datblygu a marchnata bwyd a diod Cymru, ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	<p>639,838</p>

Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus)	
Colofn 1	Colofn 2
<i>Gwasanaethau a dibenion</i>	<i>Swm £000</i>
<p>Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu</p> <p>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Wasanaethau Canolog a Gweinyddu ac ar hyrwyddo cydraddoldeb; atal trais; cynghori ac eiriolaeth; cydnerthedd ac argyfyngau sifil posibl; cyfiawnder ieuenctid; swyddogion cymorth cymunedol; y rhaglen cyfleusterau cymunedol a chefnogi'r sector gwirfoddol, datblygu rhyngwladol a chysylltiadau rhyngwladol.</p> <p>Gwariant ar gostau rhedeg Llywodraeth Cymru (gan gynnwys costau staff; gweinyddu cyffredinol; rheoli asedau; cyfalaf a thaliadau cyfalaf; costau TG; gwella busnes; a darpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar a phensiynau; costau etholiadau a refferenda; gwybodaeth ystadegol ac ymchwil; cyllido cyrff allanol; cyfrifoldebau cyllidol (gan gynnwys trethi datganoledig a benthyca); gwasanaethau caffael (Cymru gyfan); digwyddiadau a chyfathrebu corfforaethol; ymholiadau ac ymchwiliadau; y Gronfa Buddsoddi i Arbed; y Gronfa Rhyddhau Tir: rheoli'r modd y darperir cyllid Ewropeaidd yng Nghymru; atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; cynghori ac eiriolaeth; cydnerthedd ac argyfyngau sifil posibl; glasbrintiau troseddwr benywaidd a chyfiawnder ieuenctid; swyddogion cymorth cymunedol; y rhaglen cyfleusterau cymunedol; cefnogi'r sector gwirfoddol; sefydlu a chynnal safleoedd Sipsiwn/Teithwyr, hyrwyddo datblygu rhyngwladol a chysylltiadau rhyngwladol ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau anghyllidol.</p>	<p>453,502</p>

Atodlen 2 – Defnydd o adnoddau cronrus gan Weinidogion Cymru**Rhan 1: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Categori adnoddau cronrus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Mae'r adnoddau cronrus yn cynnwys incwm o dan y Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol; incwm mewn perthynas â setliadau hawliadau cyfreithiol; tâl am lety, nwyddau a gwasanaethau i gleifion preifat, cleifion y GIG, awdurdodau lleol ac eraill; ad-daliadau cyllid Buddsoddi i Arbed gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru; incwm oddi wrth Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yr Adran Iechyd, adrannau llywodraeth eraill a'r Undeb Ewropeaidd; cynlluniau creu incwm; incwm anweithredol drwy werthu tir, adeiladau, cerbydau, offer ac eiddo, ac adennill TAW; incwm o gynlluniau a chytundebau ad-dalu.	Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant ar wasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol; gwariant gan Ymddiriedolaethau GIG Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr gofal iechyd cysylltiedig yn prynu neu'n caffael asedau sefydlog; cefnogaeth i ddarparu a gweinyddu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
Cyfanswm yr incwm (£000)	68,636

Rhan 2: Tai a Llywodraeth Leol

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Categori adnoddau cronnus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys arian grant uniongyrchol neu anuniongyrchol oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys daliadau ac adennill taliadau grant ac adennill TAW; ffioedd a thaliadau a godwyd am gynnal arolygiadau a gwasanaethau rheoleiddio; incwm o werthiant asedau cyfalaf; incwm o ailddosbarthu buddiannau aelodau mewn buddsoddiadau; incwm o ad-daliadau'r Grant Tai Cymdeithasol; darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; ad-daliadau darparwyr hyfforddiant; taliadau am gofrestrïadau deintyddol; incwm o secondiadau staff; ad-dalu benthyciadau gan gynnwys benthyciadau staff; incwm o rentu eiddo; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso.	Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys costau rhedeg, costau gweinyddu cyffredinol a gwariant adnoddau'r Arolygiaethau a'r Tribiwnlys Prisio; darparu ymyriadau hyfforddiant i Wasanaeth Cyhoeddus Cymru; gwariant ategol ar gymunedau mwy diogel ac adfywio; talu grantiau i awdurdodau lleol a chyrff y Trydydd Sector; pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd; ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant.
Cyfanswm yr incwm (£000)	29,537

Rhan 3: Yr Economi a Thrafnidiaeth

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Categori adnoddau cronrus</i>	<i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Adnoddau cronrus ac arian naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd; rhentu eiddo ac incwm cysylltiedig arall; taliadau gwasanaethau busnes; cyfraniadau prosiect gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; incwm o fuddsoddiadau; ad-daliadau grant a chyllid busnes ad-daladwy; incwm o werthu asedau cyfalaf; derbyniadau o astudiaethau trafndiaeth; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso; ac adennill TAW.	Pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant.
Cyfanswm yr incwm (£000)	84,840

Rhan 4: Addysg

Colofn 1 <i>Categori adnoddau cronnus</i>	Colofn 2 <i>Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer</i>
Cam Gweithredu: Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol	3,091	-16	250	0	27	3,352
Comisiynydd y Gymraeg	385	0	0	0	0	385
Cam Gweithredu: Y Gymraeg	385	0	0	0	0	385
MEG: IECHYD MEDDWL, LLESIANT A'R GYMRAEG	53,085	-855	0	0	26,452	78,682

IECHYD MEDDWL, LLESIANT A'R GYMRAEG			
AME - ADNODDAU			
Llinell Wariant yn y Gyllideb	2il Gyllideb Atodol 2020-21 Wedi'i Halldatgan Rhagfyr 2020	Newidiadau	3edd Gyllideb Atodol 2020-21 Chwefror 2021
	£000oedd	£000oedd	£000oedd
Darpariaeth Pensiynau Amgueddfa Cymru - AME	2,391	6,609	9,000
Darpariaeth Pensiynau Llyfrgell Genedlaethol Cymru - AME	622	4,378	5,000
Darpariaeth Pensiynau Chwaraeon Cymru - AME	0	2,000	2,000
Cam Gweithredu: Pensiynau'r Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd	3,013	12,987	16,000
Cymorth i Fusnesau	0	1,500	1,500
Cam Gweithredu: Cymorth i Fusnesau	0	1,500	1,500
MEG: IECHYD MEDDWL, LLESIANT A'R GYMRAEG	3,013	14,487	17,500

YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG			
CRYNODEB	2il Gyllideb Atodol 2020-21 Wedi'i Halldatgan Rhagfyr 2020	Newidiadau	3edd Gyllideb Atodol 2020-21 Chwefror 2021
	£000oedd	£000oedd	£000oedd
Adnoddau	487,573	7,607	495,180
Cyfalaf	146,592	8,066	154,658
CYFANSWM ADNODDAU A CHYFALAF (AC EITHRIO AME)	634,165	15,673	649,838
AME Adnoddau	2,400	-2,400	0
AME Cyfalaf	0	0	0
CYFANSWM AME	2,400	-2,400	0
CYFANSWM YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG	636,565	13,273	649,838

YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG						
ADNODDAU						
Llinell Wariant yn y Gyllideb	2il Gyllideb Atodol 2020-21 Wedi'i Halldatgan Rhagfyr 2020	Trosglwyddiadau MEG i MEG	Trosglwyddiadau o fewn y MEG	Dyraniadau COVID-19 o'r Cronfeydd wrth Gefn	Dyraniadau Eraill i'r Cronfeydd wrth Gefn neu ohonynt	3edd Gyllideb Atodol 2020-21 Chwefror 2021
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd
Deddfwriaeth a Llywodraethiant yr Amgylchedd	181	-61	0	0	0	120
Cam Gweithredu: Datblygu a gweithredu polisi a rhaglenni cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli cyfoeth naturiol	181	-61	0	0	0	120
Y Rhaglen Tlodi Tanwydd	3,312	0	0	0	0	3,312
Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru	1,636	0	0	400	1,500	3,536
Strategaeth a Chysylltiadau'r Llywodraeth	2,834	0	0	0	0	2,834
Atal Ymbelydredd a Llygredd	5,415	0	0	0	0	3,415

Ynni Glân	3,235	0	0	600	0	3,835
Cam Gweithredu: Datblygu a gweithredu polisi newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd	14,432	0	0	1,000	1,500	16,932
Rheoli Risg Llifogydd a Refeniw Dŵr	27,197	0	0	0	0	27,197
Cam Gweithredu: Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth ynglŷn â'r perygl o lifogydd a'r perygl i'r arfordir, dŵr a charthion	27,197	0	0	0	0	27,197
Ansawdd yr Amgylchedd Lleol	449	0	200	0	0	649
Cynnwys Cymunedau	60	0	-60	0	0	0
Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	1,500	0	0	0	0	1,500
Galluogi Adnoddau Naturiol	274	0	0	0	0	274
Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion	2,175	0	107	2,000	-1,000	3,282
Coedwigaeth	914	0	360	0	0	1,274
Cam Gweithredu: Darparu polisiâu gwarchod natur a choedwigaeth a gwella'r amgylchedd lleol	5,372	0	607	2,000	-1,000	6,979
Cyfoeth Naturiol Cymru	61,456	351	-467	0	-9,198	52,142
Cam Gweithredu: Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu	61,456	351	-467	0	-9,198	52,142
Rheolaeth Amgylcheddol (Pwllperian)	38	0	0	0	0	38
Cam Gweithredu: Datblygu sylfaen dystiolaeth briodol er mwyn helpu gwaith yr Adran	38	0	0	0	0	38
Strategaeth Amaethyddol	100	0	0	0	0	100
Cyllid Fframwaith Awdurdodau Lleol	200	0	0	0	0	200
Ymgysylltu â Chwsmeriaid Amaeth	250	0	0	0	0	250
Prosiect Sir, Plwyf, Daliad	200	0	512	0	0	712
EID Cymru	2,641	0	0	0	0	2,641
Adnabod Da Byw	1,647	0	0	0	0	1,647
Gwasanaethau Cyngor Technegol	358	0	0	0	0	358
Deddf Tiroedd Comin	0	0	0	0	0	0
Gweithredu Deddf yr Amgylchedd	731	0	60	0	0	791
Cam Gweithredu: Datblygu a darparu polisi a rhaglenni cynhwysfawr mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr	6,127	0	572	0	0	6,699
Taliadau Amaeth Uniongyrchol Colofn 1 yr UE	231,145	0	0	0	11,855	243,000
Taliadau Amaeth Uniongyrchol Colofn 1 yr UE (Incwm)	0	0	0	0	0	0
TG Polisi Amaethyddol Cyffredin	5,748	0	-2,748	0	-3,000	0
Gweinyddu'r Cynllun Taliadau Sengl	12,048	0	2,022	0	0	14,070
Cam Gweithredu: Gweinyddu'r PAC a gwneud Taliadau yn unol â rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru	248,941	0	-726	0	8,855	257,070
Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20	19,502	0	0	0	0	19,502
Cam Gweithredu: Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Daparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20	19,502	0	0	0	0	19,502
Ymchwil a Gwerthuso	520	0	0	0	0	520
Cam Gweithredu: Datblygu ar sail tystiolaeth ar gyfer Materion Gwledig	520	0	0	0	0	520
Cynlluniau Pysgodfeydd a ariennir gan yr UE	565	0	0	0	0	565
Y Môr a Physgodfeydd	3,135	0	214	0	0	3,349
Cam Gweithredu: Datblygu a rheoli Môr, pysgodfeydd a dyframaethu gan gynwys gorfodi Pysgodfeydd Cymru	3,700	0	214	0	0	3,914
Hybu Bwydydd Cymreig a Datblygu'r Diwydiant	19,800	0	0	-2,415	0	17,385
Cam Gweithredu: Datblygu a Marchnata Bwyd a Diod Cymru	19,800	0	0	-2,415	0	17,385
Y Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid	58	0	0	0	0	58
Cam Gweithredu: Cefnogi a Darparu'r rhaglen/strategaeth iechyd a Lles Anifeiliaid	58	0	0	0	0	58
Incwm TB yr UE	-1,300	0	0	0	0	-1,300
Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion	15,281	0	0	0	0	15,281
Taliadau Difa TB - Cosgtau a Derbyniadau	10,110	0	0	0	0	10,110
Dileu TB	7,500	0	0	0	0	7,500
Cam Gweithredu: Rheoli a Darparu Dileu TB a Chlefydau Endemig Eraill	31,591	0	0	0	0	31,591

Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol	38,692	0	-200	5,500	0	43,992
Cam Gweithredu: Gwella Effeithlonrwydd Adnoddau a Chefnogi'r Newid i Economi Gylchol	38,692	0	-200	5,500	0	43,992
Tirwedd a Hamdden Awyr Agored	9,966	0	0	1,075	0	11,041
Cam Gweithredu: Hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchoddedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd	9,966	0	0	1,075	0	11,041
MEG: YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG	487,573	290	0	7,160	157	495,180

YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG						
CYFALAF						
Llinell Wariant yn y Gyllideb	Zil Gyllideb Atodol 2020-21 Wedi'i Hailddatgan Rhagfyr 2020	Trosglwyddiadau MEG i MEG	Trosglwyddiadau o fewn y MEG	Dyraniadau COVID-19 o'r Cronfeydd wrth Gefn	Dyraniadau Eraill i'r Cronfeydd wrth Gefn neu ohonynt	3ed Gyllideb Atodol 2020-21 Chwefror 2021
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd
Y Rhaglen Tlodi Tanwydd	23,000	0	0	0	0	23,000
Seilwaith Gwyrdd	1,402	0	0	0	0	1,402
Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru	4,000	-5,270	0	100	-17,000	-18,170
Atal Ymbelydredd a Llygredd	7,595	0	0	0	0	7,595
Cam Gweithredu: Datblygu a gweithredu polisi newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd	35,997	-5,270	0	100	-17,000	13,827
Rheoli Risg Llifogydd a Refeniw Dŵr	37,500	0	-1,500	0	8,000	44,000
Cam Gweithredu: Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth ynglŷn â'r perygl o lifogydd a'r perygl i'r arfordir, dŵr a charthion	37,500	0	-1,500	0	8,000	44,000
Galluogi Adnoddau Naturiol	5,273	0	0	0	0	5,273
Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion	25,500	0	-7,169	0	-2,300	16,031
Coedwigaeth	150	0	6,503	0	-1,500	5,153
Cam Gweithredu: Darparu polisiau gwarchod natur a choedwigaeth a gwella'r amgylchedd lleol	30,923	0	-666	0	-3,800	26,457
Cyfoeth Naturiol Cymru	1,216	-41	1,050	0	0	2,225
Cam Gweithredu: Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu	1,216	-41	1,050	0	0	2,225
EID Cymru	2,100	0	-384	0	0	1,716
Deddf Tiroedd Comin	1,200	0	0	0	0	1,200
Cam Gweithredu: Datblygu a darparu polisi a rhaglenni cynhwysfawr mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr	3,300	0	-384	0	0	2,916
TG Polisi Amaethyddol Cyffredin	1,505	0	0	0	0	1,505
Cam Gweithredu: Gweinyddu'r PAC a gwneud Taliadau yn unol â rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru	1,505	0	0	0	0	1,505
Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20	9,418	0	1,500	0	0	10,918
Cam Gweithredu: Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Daparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20	9,418	0	1,500	0	0	10,918
Cynlluniau Pysgodfeydd a ariennir gan yr UE	233	0	0	0	0	233
Cam Gweithredu: Datblygu a rheoli Môr, pysgodfeydd a dyframaethu gan gynnwys gorfodi Pysgodfeydd Cymru	233	0	0	0	0	233
Hybu Bwydydd Cymreig a Datblygu'r Diwydiant	100	0	0	0	2,900	3,000
Cam Gweithredu: Datblygu a Marchnata Bwyd a Diod Cymru	100	0	0	0	2,900	3,000
Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol	17,500	2,977	0	20,200	0	40,677
Cam Gweithredu: Gwella Effeithlonrwydd Adnoddau a Chefnogi'r Newid i Economi Gylchol	17,500	2,977	0	20,200	0	40,677
Tirwedd a Hamdden Awyr Agored	8,900	0	0	0	0	8,900
Cam Gweithredu: Hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchoddedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd	8,900	0	0	0	0	8,900
MEG: YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG	146,592	-2,334	0	20,300	-9,900	154,658

AME - ADNODDAU			
Llinell Wariant yn y Gyllideb	2il Gyllideb Atodol 2020-21 Wedi'i Hailldatgan Rhagfyr 2020	Newidiadau	3edd Gyllideb Atodol 2020-21 Chwefror 2021
	£000oedd	£000oedd	£000oedd
Darpariaeth Pensiynau Cyfoeth Naturiol Cymru - AME	2,400	-2,400	0
Cam Gweithredu: Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu	2,400	-2,400	0
MEG: YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG	2,400	-2,400	0

GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU			
CRYNODEB	2il Gyllideb Atodol 2020-21 Wedi'i Hailldatgan Rhagfyr 2020	Newidiadau	3edd Gyllideb Atodol 2020-21 Chwefror 2021
	£000oedd	£000oedd	£000oedd
Adnoddau	390,755	39,850	430,605
Cyfalaf	28,946	-5,809	23,137
CYFANSWM ADNODDAU A CHYFALAF (AC EITHRIO AME)	419,701	34,041	453,742
AME Adnoddau	2,999	0	2,999
AME Cyfalaf	0	0	0
CYFANSWM AME	2,999	0	2,999
CYFANSWM GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU	422,700	34,041	456,741

GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU						
ADNODDAU						
Llinell Wariant yn y Gyllideb	2il Gyllideb Atodol 2020-21 Wedi'i Hailldatgan Rhagfyr 2020	Trosglwyddiadau MEG i MEG	Trosglwyddiadau o fewn y MEG	Dyraniadau COVID-19 o'r Cronfeydd wrth Gefn	Dyraniadau Eraill i'r Cronfeydd wrth Gefn neu ohonynt	3edd Gyllideb Atodol 2020-21 Chwefror 2021
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd
Costau Staff	201,222	366	3,770	0	10,053	215,411
Cam Gweithredu: Costau Staff	201,222	366	3,770	0	10,053	215,411
Gwariant Gweinyddu Cyffredinol	27,158	0	-1,201	0	456	26,413
Gwariant Gweinyddol Cyffredinol (Taliadau Cyfalaf - Heb fod yn arian parod)	16,000	0	0	0	0	16,000
Costau TG	15,673	0	-384	0	77	15,366
Galluogi Llywodraeth	3,721	0	-1,659	0	0	2,062
Cam Gweithredu: Costau Rhedeg	62,552	0	-3,244	0	533	59,841
Gwella Ystadegau'r Economi a'r Farchnad Lafur	1,246	0	0	0	0	1,246
Gwybodaeth Ddaearyddol	719	0	250	0	-380	589
Gwyddor Data	0	0	500	0	0	500
Ymchwil Ganolog	1,925	0	0	0	0	1,925
Cam Gweithredu: Ystadegau, Gwybodaeth ac Ymchwil	3,890	0	750	0	-380	4,260
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cymru	1,509	0	0	0	0	1,509
Cronfa Rhyddhau Tir	276	0	0	0	0	276
Tribiwnlysoedd	4,161	44	-13	0	0	4,192
Y Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru	490	0	0	0	0	490
Y Sefydliad Polisi Cyhoeddus	450	0	0	0	0	450
Chwarae Teg	360	0	0	0	0	360
Cam Gweithredu: Cyrff a Gwasanaethau Allanol	7,246	44	-13	0	0	7,277
Awdurdod Cyllid Cymru	6,196	0	0	0	0	6,196
Awdurdod Cyllid Cymru (Heb fod yn arian parod)	0	0	0	0	835	835
Trethi Datganoledig	419	0	0	0	112	531

Cost Benthycu	2,474	0	0	0	0	2,474
Cam Gweithredu: Cyfrifoldebau Cyllidol	9,089	0	0	0	947	10,036
Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol	261	0	0	0	959	1,220
e-gaffael	3,000	0	0	0	0	3,000
Cam Gweithredu: Gwasanaeth Caffael	3,261	0	0	0	959	4,220
Digwyddiadau a Chyfathrebu Corfforaethol	356	0	0	0	0	356
Etholiadau	0	0	0	0	765	765
Ymchwiliadau	0	0	0	0	300	300
Ymchwil Economaidd	46	0	0	0	0	46
Costau Canolog Pontio Ewropeaidd	24,250	0	-1,263	0	0	22,987
Cam Gweithredu: Gwasanaethau Cymorth Eraill	24,652	0	-1,263	0	1,065	24,454
Buddsoddi i Arbed	-7,367	2,646	1,250	0	0	-3,471
Ad-dalu'r Gronfa Buddsoddi i Arbed	5,352	2,492	-1,250	0	0	6,594
Cam Gweithredu: Buddsoddi i Arbed	-2,015	5,138	0	0	0	3,123
Cymorth Rhaglenni	1,897	0	0	0	1,057	2,954
Arian Cyfatebol	0	0	0	0	2,750	2,750
Cam Gweithredu: Rheoli Cyllid Ewropeaidd	1,897	0	0	0	3,807	5,704
Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	6,825	0	0	0	0	6,825
Cam Gweithredu: Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	6,825	0	0	0	0	6,825
Cydluniant Cymunedol	1,600	0	0	0	0	1,600
Cydraddoldeb a Cydluniant Cymunedol	4,510	0	0	620	0	5,130
Cam Gweithredu: Cydraddoldeb a Chynhwysiant	6,110	0	0	620	0	6,730
Gwasanaethau Cynghori	10,316	0	0	300	391	11,007
Cam Gweithredu: Gwasanaethau Eirioli	10,316	0	0	300	391	11,007
Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli	30,625	0	0	10,700	30	41,355
Cam Gweithredu: Cymorth i'r Sector Gwirfoddol	30,625	0	0	10,700	30	41,355
Swyddogion Cymorth Cymunedol	16,750	0	0	0	1,768	18,518
Cam Gweithredu: Swyddogion Cymorth Cymunedol	16,750	0	0	0	1,768	18,518
Glasbrintiau Troseddwy'r Benywaidd a Chyfiawnder Ieuentid	487	0	0	191	0	678
Cam Gweithredu: Glasbrintiau Troseddwy'r Benywaidd a Chyfiawnder Ieuentid	487	0	0	191	0	678
Seibergadernid	0	0	0	0	2,318	2,318
Cam Gweithredu: Cadernid ac Argyfyngau Sifil Posibl	0	0	0	0	2,318	2,318
Datblygu Rhyngwladol	860	0	350	1,000	0	2,210
Cysylltiadau Rhyngwladol	6,988	0	-350	0	0	6,638
Cam Gweithredu: Rhyngwladol	7,848	0	0	1,000	0	8,848
MEG: GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU	390,755	5,548	0	12,811	21,491	430,605

GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU						
CYFALAF						
Llinell Wariant yn y Gyllideb	2il Gyllideb Atodol 2020-21 Wedi'i Hailldatgan Rhagfyr 2020	Trosglwyddiadau MEG i MEG	Trosglwyddiadau o fewn y MEG	Dyraniadau COVID-19 o'r Cronfeydd wrth Gefn	Dyraniadau Eraill i'r Cronfeydd wrth Gefn neu ohonynt	3edd Gyllideb Atodol 2020-21 Chwefror 2021
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd
Gwariant Gweinyddu Cyffredinol	11,679	-1,500	-3,257	0	-3,000	3,922
Costau TG	0	0	2,768	0	0	2,768
Galluogi Llywodraeth	0	0	489	0	0	489
Cam Gweithredu: Gweinyddol Cyffredinol	11,679	-1,500	0	0	-3,000	7,179

Cronfa Rhyddhau Tir	5,560	0	0	0	0	5,560
Cam Gweithredu: Cyrff a Gwasanaethau Allanol	5,560	0	0	0	0	5,560
Awdurdod Cyllid Cymru	0	0	0	0	170	170
Cam Gweithredu: Cyfrifoldebau Cyllidol	0	0	0	0	170	170
Buddsoddi i Arbed	2,613	-2,769	3,018	0	0	2,862
Ad-dalu'r Gronfa Buddsoddi i Arbed	-2,613	0	-3,018	0	0	-5,631
Cam Gweithredu: Buddsoddi i Arbed	0	-2,769	0	0	0	-2,769
Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	2,169	0	0	1,000	0	3,169
Cam Gweithredu: Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	2,169	0	0	1,000	0	3,169
Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr	3,200	0	0	0	0	3,200
Cam Gweithredu: Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr	3,200	0	0	0	0	3,200
Y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol	5,838	0	0	0	0	5,838
Cam Gweithredu: Cyfleusterau Cymunedol	5,838	0	0	0	0	5,838
Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli	0	0	0	150	0	150
Cam Gweithredu: Cymorth i'r Sector Gwirfoddol	0	0	0	150	0	150
Seibergadernid	0	0	0	0	140	140
Cam Gweithredu: Cadernid ac Argyfyngau Sifil Posibl	0	0	0	0	140	140
Datblygu Rhyngwladol	500	0	0	0	0	500
Cam Gweithredu: Rhyngwladol	500	0	0	0	0	500
MEG: GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU	28,946	-4,269	0	1,150	-2,690	23,137

GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU			
AME - ADNODDAU			
Llinell Wariant yn y Gyllideb	2il Gyllideb Atodol 2020-21 Wedi'i Halldatgan Rhagfyr 2020	Newidiadau	3edd Gyllideb Atodol 2020-21 Chwefror 2021
	£000oedd	£000oedd	£000oedd
Darpariaethau Pensiwn CSA - AME	2,999	0	2,999
Cam Gweithredu: Darpariaethau ar gyfer Ymdeoliadau Cynnar	2,999	0	2,999
MEG: GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU	2,999	0	2,999

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Coronafeirws (Covid-19)	3
3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Ail Gyllideb Atodol 2020-21	33
4. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn	45
5. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)	54
Atodiad 1 - Y pecyn ail-greu: dadansoddiad yn ôl MEG a maes blaenoriaeth	57
Atodiad 2 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb	62
Atodiad 3 – Geirfa	64

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y ddogfen hon cysylltwch â: wag-en@mailuk.custhelp.com

1. Cyflwyniad

- 1.1** Heddiw cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Drydedd Gyllideb Atodol ar gyfer 2020-21, yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae'r gyllideb atodol hon yn cynnig newidiadau i'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2020-21 fel y'i cymeradwywyd gan Senedd Cymru ('y Senedd') ar 17 Tachwedd 2020.
- 1.2** Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu effaith barhaus y pandemig ond hefyd yn cydgrynhoi addasiadau eraill sy'n deillio o Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU Mae'n cysoni dyraniadau yn ôl ac ymlaen i gronfeydd wrth gefn a throsglwyddiadau rhwng portffolios ac o'u mewn. Mae hefyd yn cynnwys addasiadau i gyllidebau Comisiwn y Senedd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilio Cymru. Crynhoir y newidiadau hyn ym mhennod 4.
- 1.3** Mae'r ddogfen hon yn ategu'r 'Tablau Llinellau Gwariant y Gyllideb (BEL)' manwl sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
- 1.4** Mae'r gyllideb atodol hon yn adlewyrchu'r newidiadau i gyfrifoldebau gweinidogol a gyhoeddwyd ar 8 Hydref 2020. Mae aildatganiad o sefyllfa'r ail gyllideb atodol a manylion symudiadau'r gyllideb ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

2. Coronafeirws (Covid-19)

2.1 Mae'r pandemig Covid-19 yn parhau i gael effaith ar ein bywydau a'n cymunedau. Ers inni gyhoeddi ein Hail Gyllideb Atodol, rydym wedi cyrraedd y garreg filltir gyntaf yn ein rhaglen frechu. Fodd bynnag, mae'r achosion cynyddol dros fisoedd y gaeaf wedi arwain at gyfyngiadau symud a chyfyngiadau pellach. Yn erbyn y cefndir hwn rydym wedi darparu £1.4bn ychwanegol mewn ymateb i'r pandemig, ac i liniaru ei effaith. Ers dechrau'r pandemig rydym wedi dyrannu mwy na £5bn mewn cyllid ymateb.

2.2 Mae dyraniadau o'r maint hwn yn ystod y flwyddyn yn ddigynsail i Gymru. Mae'r pandemig parhaus wedi arwain at heriau sy'n esblygu yn ystod y flwyddyn. Er mwyn gallu ymateb i'r heriau wrth iddynt godi, rydym wedi cadw cymaint o hyblygrwydd â phosibl yn ein cyllideb. Yn y drydedd gyllideb atodol hon, rydym yn dyrannu cyfran sylweddol o'r cyllid i gefnogi busnesau sy'n parhau i ddioddef effaith o ganlyniad i'r cyfyngiadau parhaus. Rydym hefyd yn darparu cyllid sylweddol ar gyfer addysg, gan gydnabod gymaint y mae'r pandemig wedi amharu ar ddysgwyr, a'r angen i ddarparu cyfle iddynt ddal i fyny ac ymaddasu. Ochr yn ochr â'r meysydd hyn, rydym yn rhoi mwy o gefnogaeth i'r GIG ar gyfer darparu brechlynnau ac i lywodraeth leol sydd ar ar reng flaen ein hymateb i'r pandemig.

2.3 Dyraniadau refeniw o gronfeydd canolog wrth gefn

2.4 Mae'r gyllideb hon yn dyrannu £1.1bn yn ein hymdrechion i ymateb i Covid-19. Mae'r cyllid hwn yn canolbwyntio ar bedair prif elfen.

Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus

2.5 Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi darparu cyllid i iechyd a gwasanaethau cyhoeddus. Adeg yr Ail Gyllideb Atodol, dyrannwyd £800m i sefydlogi'r GIG. Mae'r cyllid hwn wedi rhoi sicrwydd cyllid i

sefydliadau'r GIG ledled Cymru am weddill y flwyddyn, gan eu galluogi i ymateb i ail don y feirws, ochr yn ochr â phwysau arferol y gaeaf – gan barhau yr un pryd i gynyddu mynediad at wasanaethau hanfodol ymhellach. Mae'r dyraniadau a nodir isod yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer meysydd penodol, ac yn ymestyn cyllid i rai gwasanaethau cyhoeddus.

2.6 Rydym wedi dyrannu **£32m** i Gynllun Cymorth Hunanynysu. Mae hyn yn darparu taliad o £500 i gefnogi pobl y gofynnwyd iddynt hunanynysu, neu rieni a gofalwyr plant y gofynnwyd iddynt hunanynysu gan y gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu. I fod yn gymwys, rhaid i bobl fod yn gweithio ond yn methu gweithio gartref ac yn derbyn un o nifer o fudd-daliadau. Er hynny, mae elfen ddisgresiynol yn sicrhau y gall pobl sydd y tu allan i'r prif gynllun wneud cais hefyd. Er enghraifft os oes gan rywun statws mewnfudo dros dro ac nad yw felly yn gallu gwneud cais am fudd-daliadau. Nod y cynllun yw annog pobl i aros gartref drwy gael gwared ar unrhyw rwystrau ariannol i hunanynysu. Mae cynnwys rhieni a gofalwyr yn cefnogi ymdrechion ehangach ysgolion a gwasanaethau eraill i reoli lledaeniad y feirws.

Er ei bod yn dal yn rhy fuan i asesu effaith y cynllun yn llawn, mae'r adborth hyd yn hyn yn dangos ei fod wedi bod yn fuddiol, o ran galluogi pobl i hunanynysu pan fydd angen hynny ac i leihau effeithiau negyddol hunanynysu ar aelwydydd ag incwm isel. Felly, mae'r cynllun yn bwysig o ran lleihau effaith Covid-19 ar bobl sy'n agored i niwed yn economaidd a diogelu Cymru.

2.7 Yn ogystal â'r cynllun cymorth hunanynysu, rydym yn cydnabod y bydd pobl sy'n wynebu rhwystrau eraill, nad ydynt yn rhai ariannol, i ynysu. Bydd angen gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector arnynt i'w cefnogi. Fel rhan o elfen 'Diogelu' ein strategaeth Profi, Orlhain, Diogelu, rydym wedi darparu **£1m** i'r awdurdodau lleol am gymorth ychwanegol ac arbenigol i'r rhai sy'n hunanynysu. Mae'r cymorth a ddarperir yn amrywio o gymorth i ddeall cyngor, i lety dros dro naill ai

am fod person yn byw gyda rhywun ar y rhestr o bobl sy'n gwarchod eu hunain neu am ei fod yn ddiartref ac yn methu â hunanynysu'n ddiogel gyda ffrindiau neu deulu. Mae'r awdurdodau lleol yn arwain, yn cydgysylltu ac yn darparu'r cymorth hwn yn lleol, gan weithio gyda'r trydydd sector a gwirfoddolwyr i sicrhau bod cymorth ar gael ac yn atgyfeirio pobl at wasanaethau penodol eraill – er enghraifft, eu hatgyfeirio at wasanaethau cynghori arbenigol – lle y bo'n briodol.

Mae'r cymorth ychwanegol hwn yn darparu un pwynt cyswllt a ffynhonnell o gyngor i'r rhai sy'n arbennig o agored i niwed. Mae'n galluogi'r awdurdodau lleol i ddarparu asesiad o anghenion cymorth, a chydgyssylltu a chynghori ar sut y gellir mynd i'r afael â'r anghenion hyn. Wrth wneud hynny, mae'r cymorth hwn yn dileu'r rhwystrau anariannol i hunanynysu ac yn helpu i liniaru unrhyw effaith negyddol o safbwynt iechyd a llesiant. Gyda'r taliad hunanynysu o £500, mae unigolion yn fwy tebygol o hunanynysu'n llwyddiannus sy'n golygu y gallwn leihau cyfraddau trosglwyddo Covid-19.

- 2.8** Er mwyn atal Covid-19 rhag lledaenu ymhellach, rydym wedi darparu **£16.7m** i ychwanegu at y Tâl Salwch Statudol (SSP) ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol i sicrhau eu bod yn cael cymorth ariannol. Gwyddom nad yw 90% o'r gweithlu gofal annibynnol yn cael tâl salwch galwedigaethol, sy'n golygu bod eu hincwm yn gostwng i SSP os bydd angen iddynt gymryd amser i ffwrdd oherwydd Covid-19. Yn ogystal, mae dros 80% o'r gweithlu yn fenywod sy'n golygu y byddai'r gostyngiad hwn i'r SSP yn cael effaith anghymesur ar fenywod. Er mwyn mesur goblygiadau hyn a'r ffordd orau o fynd i'r afael ag ef, gwnaethom gynnull gweithgor o randdeiliaid allanol sy'n cynrychioli gweithwyr gofal, darparwyr gofal ac awdurdodau lleol (comisiynwyr). O ganlyniad, rydym wedi darparu dyraniad sy'n codi tâl salwch statudol gweithwyr gofal cymdeithasol i lefel eu cyflogau arferol os bydd rhaid iddynt gymryd amser i ffwrdd oherwydd Covid-19.

Oherwydd natur eu gwaith, efallai y bydd yn ofynnol i weithwyr gofal hunanynysu sawl tro a byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar eu sefyllfa ariannol. Drwy amddiffyn gweithwyr gofal cymdeithasol rhag caledi ariannol o ganlyniad i hunanynysu, rydym yn diogelu bywydau ein dinasyddion mwyaf agored i niwed. Yn y tymor canolig a'r tymor hwy, mae cefnogi gwelliannau i SSP yn ystod Covid-19 yn cyd-fynd â'n cefnogaeth i'r agenda Gwaith Teg.

2.9 Mae olrhain cysylltiadau yn elfen hanfodol ar ein gallu i leihau cyfraddau trosglwyddo. I ddelio â thon y gaeaf o achosion Covid-19 rydym wedi dyrannu **£15.7m** yn ychwanegol, sy'n golygu bod cyfanswm o £60.7m wedi'i ddyrannu ar gyfer olrhain cysylltiadau eleni. Rydym wedi darparu cyllid yn unol â chynlluniau'r gweithlu ar draws y byrddau iechyd. Bydd yn hwyluso ehangu'r capasiti olrhain cysylltiadau yn gyflym, yn ychwanegol at yr hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn ymdrin yn effeithiol â'r niferoedd o achosion presennol a'r niferoedd sy'n cael eu rhagamcanu.

Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn helpu i sicrhau effeithlonrwydd a chyflymder yn y system olrhain, a fydd yn ei dro yn atal Covid-19 rhag lledaenu.

2.10 Ochr yn ochr â'n hymdrechion ar olrhain cysylltiadau a chymorth hunanynysu, mae'r brechlynnau Covid-19 yn cynnig y gobaith gorau o ddychwelyd i normalrwydd ar ôl cyfnod mor anodd. Ein nod yw cyrraedd cynifer o bobl mor ddiogel a chyflym â phosibl, ac i'r perwyl hwn rydym wedi rhoi rhaglen frechu fwyaf a welodd Cymru erioed ar waith. Mae hyn yn cynnwys darparu drwy ganolfannau brechu torfol, meddygon teulu, fferyllfeydd ac unedau symudol. Er mwyn sicrhau llwyddiant y rhaglen, rydym wedi dyrannu **£27m** ar gyfer darparu brechlynnau. Bydd y rhan fwyaf o'r cyllid hwn (£26m) yn cael ei darparu i'r byrddau iechyd ar gyfer cyflawni'r rhaglen frechu. Fodd bynnag, darperir £1m i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) ar gyfer datblygu a chyflwyno llwyfan digidol i Gymru gyfan i gefnogi'r rhaglen frechu, gan

gynnwys costau cysylltiedig megis negeseuon SMS a llythyrau drwy'r post.

2.11 Gwyddom pa mor anodd y mae'r pandemig wedi bod i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal a'u hanwyliaid. Rydym yn awyddus i gefnogi darparwyr cartrefi gofal yn eu hymdrechion i sicrhau bod y bobl y maent yn gofalu amdanynt yn gallu ailgysylltu'n ddiogel â theulu a ffrindiau. O'r herwydd, cyn y Nadolig dyrannwyd **£3m** i ariannu'r gwaith o osod 'podiau' dros dro mewn cartrefi gofal ar gyfer ymweliadau. Cynllun peilot yw hwn i'n helpu i ddeall a yw podiau ymweld yn ffordd effeithiol ac ymarferol o gefnogi ymweliadau ystyrlon. Byddwn yn defnyddio'r gwersi sydd wedi'u dysgu i benderfynu a ddylem ystyried comisiynu ateb pwrpasol i Gymru yn y dyfodol os bydd cwrs y pandemig yn golygu bod hyn yn ofynnol

2.12 Mae nifer mawr o aelwydydd wedi gweld newidiadau yn eu hamgylchiadau o ganlyniad i Covid-19. I lawer, mae hyn wedi arwain at ddirywiad yn eu sefyllfa ariannol sydd wedi effeithio ar eu gallu i dalu biliau. O ganlyniad, bu cynnydd yn nifer yr aelwydydd sydd â hawl i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS). Yn wahanol i'r gwaith arferol o gynnal hawliau, ni allai'r awdurdodau lleol fod wedi rhag-weld y cynnydd yn y galw am CTRS o ganlyniad i Covid-19 pan oeddent yn llunio eu cynlluniau cyllidebol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21. Rydym wedi darparu **£8.1m** yn ychwanegol i'r awdurdodau lleol i'w digolledu am yr incwm a gollwyd oherwydd y galwadau cynyddol am y Cynllun, gan adeiladu ar y cyllid ychwanegol a ddarparwyd ym mis Awst. Mae hyn yn golygu bod bron £11m o gymorth Covid-19 wedi'i ddyrannu i'r cynllun eleni. Mae hyn yn ychwanegol at ein hymrwymiad i ddiogelu hawliau i CTRS drwy gydol tymor presennol y Senedd drwy ddarparu cyllid o £244m y flwyddyn.

2.13 Bydd y gostyngiad yn incwm aelwydydd nid yn unig yn effeithio ar hawliadau o dan CTRS, ond hefyd ar gyfraddau casglu'r dreth gyngor. Yn ystod y pandemig, mae gan yr awdurdodau lleol gyfrifoldebau

ychwanegol dros weinyddu taliadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 gan gynnwys grantiau busnes, hunanynysu a chynlluniau gwella SSP. Mae'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn yn debygol o fod wedi effeithio ar allu'r awdurdodau i gasglu'r dreth gyngor. Rydym wedi gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Awdurdodau Lleol i fonitro'r sefyllfa. Ar sail y data hwn, rydym wedi dyrannu **£22.6m** yn ychwanegol i dalu am 75% o incwm y dreth gyngor y disgwylir ei gollu yn 2020-21.

Ochr yn ochr â'r dreth gyngor, mae incwm Ardrethi Annomestig (NDR) yn elfen sylweddol o gyllid llywodraeth leol. Mae incwm NDR hefyd yn cyfrannu at ariannu awdurdodau'r heddlu yng Nghymru. Gwyddom fod Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar fusnesau, ac mae hyn yn debygol iawn o arwain at ostyngiad yn swm yr incwm NDR a gesglir gan awdurdodau lleol eleni.

2.14 Er mwyn cydnabod effaith llai o incwm NDR, rydym yn dyrannu **£100m** yn ychwanegol o arian canolog i setliadau llywodraeth leol a'r heddlu, ac yn lleihau'r ddarpariaeth o gronfeydd NDR yn ôl yr un swm. Mae'r cam gweithredu hwn yn lleddfu unrhyw effaith barhaus ar y cyllid NDR sydd ar gael ar gyfer setliadau llywodraeth leol a'r heddlu yn y dyfodol.

2.15 Mae'r awdurdodau lleol yn wynebu nifer o heriau eraill. I gydnabod hyn, sefydlwyd Cronfa Caledi Llywodraeth Leol ar ddechrau'r pandemig i helpu'r awdurdodau lleol â'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â Covid-19. Ers hynny, rydym wedi dyrannu dros £500m i'r gronfa. Mae'r cyfyngiadau symud parhaus wedi arwain at gostau ychwanegol i'r awdurdodau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys darparu prydau ysgol am ddim i blant gartref, cyllid i dalu am arbedion nad ydynt wedi'u gwireddu o ganlyniad i Covid-19, a chyllid ar gyfer trawsnewid digidol angenrheidiol. Rydym yn darparu **£92.5m** yn ychwanegol i'r awdurdodau lleol, gan godi'r cyfanswm a ddyrannwyd i'r gronfa galedi i bron £600m. Bydd yr arian hwn yn galluogi'r awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ogystal ag adeiladu ar y cynnydd digidol sydd wedi'i wneud yn ystod Covid-19.

Cefnogi'r Economi

- 2.16** Mae cyfyngiadau symud wedi cael effaith sylweddol ar fusnesau. Mae llawer wedi cael eu gorfodi i gau, tra bo eraill wedi dod yn amhroffidiol dros dro o ganlyniad i'r neges 'aros gartref'. Rydym yn cydnabod yr effaith sylweddol y mae hyn wedi'i chael ar fywoliaeth pobl ac rydym wedi darparu cymorth drwy gydol y pandemig drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd.
- 2.17** Ers mis Hydref, bu cynnydd o **gyfanswm o £660m** yn ein cymorth i fusnesau, a hynny tan ddiwedd mis Mawrth. Wrth i'r pandemig a'r cyfyngiadau cysylltiedig fynd rhagddynt, rydym wedi rhyddhau cyllid ychwanegol i sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi busnesau. Ar ddiwedd mis Tachwedd, cyhoeddwyd y byddai cyfyngiadau cyn y Nadolig yng Nghymru i fynd i'r afael â'r nifer cynyddol o achosion o Covid-19. O ganlyniad i'r mesurau hyn, cyhoeddwyd cyllid drwy Gronfa ERF i Fusnesau o dan Gyfyngiadau a'r Gronfa ERF i Sectorau Penodol i roi cymorth pellach i fusnesau. Cafodd y ddwy elfen eu cyfeirio'n bennaf at y sectorau lletygarwch, twristiaeth a hamdden a'r gadwyn gyflenwi gysylltiedig. Ers hynny rydym wedi cynyddu'r cyllid ymhellach i gefnogi busnesau yn ystod y cyfyngiadau parhaus sy'n gysylltiedig â lefel Rhybudd 4. Yn ystod y cyfnod y pecyn cymorth diweddaraf, o fis Rhagfyr tan ddiwedd mis Mawrth, gall pob busnes a gwmpesir gan y rhyddhad ardrethi i fusnesau bach gael taliad o hyd at £6,000, ac mae'r rhai sydd â gwerth ardrethol annomestig o dros £12,001 yn gymwys i gael taliad o £10,000.
- 2.18** Dangosodd gwerthusiad cychwynnol o'r Gronfa Cadernid Economaidd, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, fod grantiau busnes ERF wedi cefnogi bron i 12,000 o gwmnïau neu sefydliadau yng Nghymru yn uniongyrchol a 125,000 o swyddi (amser llawn a rhan-amser), sef tua 10.5% o gyfanswm y gyflogaeth yng Nghymru. Roedd bron i 80% o'r cwmnïau a gafodd grant yn ficrofusnesau, a chafodd y cwmnïau hyn grant cyfartalog o bron i £10,000. Roedd cwmnïau bach yn cyfrif am 18% o

gwmnïau a gafodd gymorth gyda chyllid cyfartalog o bron i £31,000 i bob cwmni. Canfu'r gwerthusiad y gallai effeithiau ehangach y cymorth fod yn sylweddol, gyda sawl mil o swyddi pellach yn cael eu cefnogi'n anuniongyrchol mewn busnesau cysylltiedig drwy effeithiau'r gadwyn gyflenwi ac effeithiau gwario cyflogau. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd ac effaith ein cymorth busnes.

2.19 Mae'r cyfyngiadau symud yn arbennig wedi cael effaith sylweddol ar y sector diwylliannol. Mae lleoliadau ledled Cymru wedi'u cau a digwyddiadau wedi'u canslo neu eu gohirio gan golli incwm ar unwaith. Er mwyn cydnabod yr effaith hon a chyfraniad gwerthfawr y sector, sefydlwyd y Gronfa Adfer Diwylliannol ym mis Gorffennaf. Mae cyfanswm o £63m o gyllid refeniw yn darparu cymorth hanfodol i theatrau, lleoliadau cerddoriaeth, safleoedd treftadaeth, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, orielau, gwasanaethau archifau a sinemâu annibynnol, ledled Cymru - sydd i gyd wedi colli refeniw aruthrol oherwydd pandemig Covid-19.

Mae'r sector yn cyflogi tua 85,000 o bobl yng Nghymru, y mae bron i hanner ohonynt yn hunangyflogedig, ac mewn perygl ychwanegol o effeithiau economaidd negyddol y pandemig. Mae gwerth llawn y sectorau diwylliant a'r celfyddydau yn mynd y tu hwnt i fuddion cyflogaeth ac economaidd. Mae cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol yn gysylltiedig â llesiant uwch a gwell boddhad â bywyd. Roedd y Gronfa Adfer Diwylliannol yn cynnwys y gronfa gyntaf yn y DU i weithwyr llawrydd, gan gydnabod y rôl hanfodol y mae unigolion yn ei chwarae yn yr economi ac wrth greu a chyflwyno profiadau diwylliannol. Ers iddi gael ei lansio, mae'r galw am y gronfa wedi bod yn uchel iawn ac i gydnabod maint yr ergyd i'r sector, rydym wedi buddsoddi **£12.19m** yn ychwanegol i ddarparu cymorth pellach, yn enwedig i weithwyr llawrydd. Trwy ddarparu cyllid ar gyfer adfer diwylliannol byddwn yn parhau i ddiogelu swyddi, i sicrhau cynaliadwyedd sefydliadau a

gefnogir ac wrth wneud hynny byddwn yn diogelu ein hasedau diwylliannol sy'n bwysig yn gymdeithasol ac yn economaidd.

2.20 Ochr yn ochr â'r Gronfa Adfer Diwylliannol, rydym wedi darparu **£1m** i gyflymu'r rhaglen Clwstwr sy'n hybu ymchwil a datblygu ym maes cynhyrchu'r cyfryngau yng Nghymru. Bydd hyn yn galluogi Cymru Greadigol i ddatblygu rhaglen datblygu sgiliau/talent, cronfa datblygu sgrin (ffilm a theledu) a chronfa datblygu digidol. Byddai'r rhaglenni hyn yn darparu cyfleoedd twf sylweddol ac yn cyfrannu at frand cenedlaethol cryf, gan helpu i hyrwyddo Cymru a'i diwylliant a'i thalent i'r byd.

2.21 Fel y gwelwyd yn y sector diwylliannol, mae'r sector chwaraeon hefyd wedi dioddef o ganlyniad i'r pandemig. Sefydlwyd y Gronfa Diogelu Chwaraeon Gwylwyr ym mis Ionawr 2021 i sicrhau bod chwaraeon sy'n dibynnu ar incwm gan wylwyr y mae'r cyfyngiadau angenrheidiol yn ystod y pandemig wedi effeithio'n andwyol arnynt yn cael eu diogelu am y tymor byr i ganolig. Rydym wedi dyrannu **£17.7m** i'r Gronfa hon, sy'n golygu bod cyfanswm o fwy na £40m wedi'i roi i'r sector cyfan ers dechrau'r argyfwng.

Bydd y Gronfa yn rhoi cymorth ariannol ar unwaith i'r sector i dalu am golledion, i'w cynnal drwy gyfnod y gaeaf ac i sicrhau eu bod yn barod am ddechrau'r tymor nesaf. Heb y cymorth ariannol hwn, byddai'r chwaraeon hyn wedi ei chael yn anodd iawn goroesi yn ystod y misoedd nesaf heb orfod dileu swyddi, canslo gemau sydd wedi'u cynllunio a/neu dorri'n ôl ar y cymorth y maent yn ei ddarparu i glybiau chwaraeon/chwaraeon cymunedol ar lawr gwlad. Rydym yn cydnabod bod chwaraeon yn sector pwysig i'n heconomi sy'n cael effaith gadarnhaol ar ein llesiant meddyliol a chorfforol. Ceir tystiolaeth sylweddol hefyd o'r manteision iechyd sy'n deillio o gymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer corff, gan gynnwys atal problemau corfforol a phroblemau iechyd, ac arbedion ar gyfer gofal iechyd.

2.22 Rydym yn cydnabod bod y pandemig wedi amharu'n sylweddol ar sectorau eraill. Mae twristiaeth yn wynebu heriau eithriadol o ganlyniad i gyfyngiadau i reoli'r pandemig. Rydym wedi dyrannu **£1m** i becyn adfer ar gyfer twristiaeth a marchnata i gefnogi'r sector dros dri mis cyntaf 2021. Mae'r pecyn hwn wedi'i gymeradwyo gan y diwydiant a bydd yn helpu i roi busnesau ar sylfaen gadarnach ar gyfer adfer yn sgil y pandemig Covid-19 ac ailagor twristiaeth yn ddiogel.

Mae twristiaeth yn sector sylfaenol allweddol sy'n cynrychioli tua 10% o weithlu Cymru. Mae'n cyfrannu'n anghymesur mewn ardaloedd gwledig - sydd yn aml yn ardaloedd Cymraeg eu hiaith- ac yn darparu cyflogaeth hanfodol i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol megis fel pobl ifanc, gweithwyr benywaidd a gweithwyr BAME. Drwy ddarparu'r pecyn hwn rydym yn lliniaru'r effeithiau anghymesur ar y cymunedau a'r grwpiau hyn.

2.23 Mae'r pandemig hefyd wedi tarfu ar rannau helaeth o'r system addysg.

2.24 Mae myfyrwyr sy'n mynychu prifysgolion wedi wynebu anawsterau enfawr oherwydd Covid-19. Nid yw miloedd lawer o fyfyrwyr wedi llwyddo i ddychwelyd i'r campws eto. Mewn rhai achosion, mae hyn yn golygu y gallai rhai myfyrwyr orfod parhau i dalu am eu llety yn ystod cyfnod pan na allant ei ddefnyddio. Rydym yn cydnabod pa mor anodd yw hyn, a dyna paham rydym wedi dyrannu **£40m** yn ychwanegol ar gyfer caledi myfyrwyr ac iechyd meddwl myfyrwyr. Mae hyn yn ychwanegol at y £10m a ddarparwyd gennym yn gynharach yn y flwyddyn, gan godi'r cyfanswm i £50m.

Bydd prifysgolion yn defnyddio'r cyllid i gefnogi myfyrwyr sy'n wynebu caledi ariannol, gan helpu'r myfyrwyr y mae'r pandemig yn effeithio fwyaf arnynt gyda threuliau fel costau llety. Gan fod y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gorfod astudio gartref ar hyn o bryd, bydd y cyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â 'thlodi digidol' ymhlith myfyrwyr, er mwyn iddynt allu cael gwell mynediad at ddysgu ar-lein, ac i fynd i'r

afael â'r costau a ysgwyddir oherwydd yr angen i hunanynysu. Yn ogystal, bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio gan brifysgolion i gryfhau gwasanaethau cyngor a chymorth i fyfyrwyr.

2.25 Amharwyd ar addysg bellach hefyd, yn enwedig i'r rhai sy'n ymgymryd â chymwysterau galwedigaethol. Ni all rhai dysgwyr ennill eu cymhwyster heb fynychu'r coleg yn bersonol. Rydym yn cydnabod y costau ychwanegol y mae darparwyr Addysg Bellach yn eu hwynebu i sicrhau bod dysgu wyneb yn wyneb yn bosibl. Felly, rydym wedi dyrannu £5m o'r blaen i gyfrannu at y costau hyn. Er hynny, gan fod y pandemig yn parhau, nid yw rhai myfyrwyr wedi gallu cwblhau eu cymwysterau o hyd (er enghraifft y rhai y mae arnynt angen mynediad i gartrefi gofal i gwblhau agweddau ymarferol ar gymwysterau).

2.26 Er mwyn osgoi gorfodi dysgwyr i barhau i'r flwyddyn academaidd nesaf a chymhlethu cyfnod pontio sydd eisoes yn anodd i'r cam neu'r lefel nesaf o ddysgu, rydym wedi cynyddu **£26.5m** ar y cyllid ar gyfer pob rhaglen alwedigaethol yn 2020/21. Bydd hyn yn helpu tuag at y nod o alluogi cynifer o ddysgwyr galwedigaethol â phosibl i gwblhau eu cwrs o fewn blwyddyn academaidd 2020/21. Bydd yn darparu ar gyfer costau ychwanegol, megis addysgu grwpiau llai, cynnig addysgu gyda'r hwyr, addysgu ar benwythnosau, yn ystod y gwyliau ac ysgolion haf. Gellir ei ddefnyddio hefyd i ddod ag addysg yn nes at y gymuned drwy logi neuaddau lleol, canolfannau cynadledda neu warysau i weithredu dros dro fel gweithdai, gan fuddsoddi arian yn y gymuned leol. Rydym hefyd wedi darparu **£2.5m** o gyllid ar gyfer cymorth iechyd meddwl i staff a dysgwyr.

2.27 Rydym wedi dyrannu **£2.9m** yn ychwanegol i ddarparu cyfraniad uwch at gostau rhedeg, yn ogystal â chyfrannu at redeg ffreuturiau a meithrinfeydd yn ddiogel. Bydd yr arian hwn felly'n darparu ar gyfer dysgu diogel wyneb yn wyneb lle bo angen yn ogystal â galluogi dysgwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyflogadwyedd eraill lle nad yw hyn yn ymarferol. Rydym wedi dyrannu **£0.3m** yn benodol i

Goleg Pen-y-bont ar Ogwr i gefnogi dysgwyr ag anableddau ac anawsterau dysgu. Mae'r cyllid hwn yn cydnabod effeithiau Covid-19 ar ddiogelwch tymor byr y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr presennol a hyfywedd hirdymor y ddarpariaeth yn y dyfodol.

- 2.28** Er mwyn sicrhau bod ein sefydliadau addysg bellach yn addas at y dyfodol, rydym wedi dyrannu **£7m** o gyfalaf ar gyfer seilwaith TG a chyfarpar digidol. Gyda dysgu ar-lein a dysgu cyfunol yn debygol o fod yn nodwedd allweddol ar addysg am beth amser i ddod, dyma'r adeg iawn i fuddsoddi yn y seilwaith TG hwn i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau i barhau i gefnogi pob dysgwr.
- 2.29** Rydym hefyd wedi dyrannu **£2.6m** i ddarparu cymorth digidol i brentisiaid. Mae diffyg offer TG a chysylltedd ym mhob lleoliad yn effeithio'n anghymesur ar ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Bydd y cyllid rydym yn ei ddarparu yn galluogi darparwyr seiliedig ar waith i sicrhau bod gliniaduron a dyfeisiau cysylltedd MiFi ar gael i'w dysgwyr, gan flaenoriaethu'r rhai mwyaf anghenus. Bydd hefyd yn creu set hyblyg o adnoddau y gellir eu defnyddio i ddarparu dysgu arloesol y tu hwnt i'r argyfwng presennol.
- 2.30** Gwyddom o'r cyfyngiadau symud blaenorol fod hyn wedi achosi problemau o ran cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Felly, rydym wedi darparu **£9m** o gyllid i helpu awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach â'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â meddalwedd arbenigol, sesiynau ychwanegol i lynu at gadw pellter cymdeithasol, a helpu dysgwyr ag ADY i gael mynediad at ddarpariaeth gymysg ac o bell.
- 2.31** Gyda mwy o ddysgu o bell a'n cynnydd gyda'r Cwricwlwm newydd, mae TGCh yn bwysicach nag erioed. Mae ein rhaglen Hwb lwyddiannus wedi cyflawni sawl menter fuddsoddi ers 2012, i helpu i drawsnewid y ffordd y defnyddir technoleg ddigidol ar gyfer addysgu a dysgu mewn ysgolion ledled Cymru. Fel rhan o hyn, mae EdTech yn sicrhau gwerth

am arian drwy drafodaethau cenedlaethol cyfanredol ar gyfer offer. Rydym wedi dyrannu cyfalaf ychwanegol o **£11.9m** ar gyfer 50,000 o ddyfeisiau ychwanegol. Rydym yn sicrhau bod dyfeisiau'n cael eu blaenoriaethu i helpu i ymateb ar unwaith i gau ysgolion.

2.32 Mewn cyfnod mor anodd, mae'n hanfodol inni barhau i gefnogi pobl sydd mewn addysg ar hyn o bryd, a fydd yn allweddol wrth inni ailadeiladu ein heconomi yn sgil y pandemig. Bydd y cyllid hwn hefyd yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, drwy sicrhau y gall y myfyrwyr mwyaf agored i niwed a'r rhai y mae'r pandemig yn effeithio fwyaf arnynt gwblhau eu hastudiaethau.

Y Sector Gwirfoddol a Chymunedau

2.33 Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) yn darparu taliadau argyfwng brys i'r rhai sy'n wynebu caledi ariannol annisgwyl. Bydd llawer o'r bobl hyn ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas oherwydd materion yn ymwneud â thlodi, materion iechyd corfforol a meddyliol. O'r herwydd, maent mewn mwy o berygl o effeithiau Covid-19, boed yn ariannol neu o ran iechyd. Rydym yn cydnabod bod y pandemig wedi rhoi pwysau ychwanegol ar bobl a theuluoedd ac felly rydym wedi llacio'r rheolau ynghylch gwneud cais am daliad o dan y Gronfa Cymorth Dewisol. Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd a disgrisiwn i nifer ac amllder y Taliadau Cymorth mewn Argyfwng.

Rydym yn monitro'r galw yn ddyddiol er mwyn sicrhau bod y gronfa'n cael ei thargedu at y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan effeithiau Covid-19. Gallwn weld y cymorth cynyddol y mae'r Gronfa yn ei ddarparu drwy'r data hwn. Cynyddodd ceisiadau am Daliadau Cymorth mewn Argyfwng o dan y Gronfa yn ddifawr, o 15,650 cyn dechrau'r pandemig ym mis Chwefror, ar gost o bron £365,000, i bron 29,000 o geisiadau ym mis Tachwedd 2020 ar gost o bron £1.5m, sef cynnydd pedwarplyg mewn gwariant misol.

2.34 Er mwyn darparu cymorth parhaus i'r rhai mwyaf anghenus rydym wedi dyrannu **£3.18m** yn ychwanegol i'r Gronfa Cymorth Dewisol, gan ddod â chyfanswm y cyllid ychwanegol yn 2020-21 i £14.9m.

2.35 Rydym yn cydnabod rôl hanfodol y trydydd sector yn yr ymateb i'r pandemig, gan eu bod wedi cynnig llawer o wasanaethau a chyngor amhrisiadwy. Maent wedi cadw ein cymunedau i fynd yn ogystal â sicrhau bod bwyd a meddyginiaeth ar gael i bobl sy'n agored i niwed a'r rhai sy'n hunanynysu. Mae natur ddigynsail y pandemig wedi cael effaith ar eu cyllid a'r galw am eu gwasanaethau. I gydnabod hyn, cyhoeddwyd Cronfa Ymateb y Trydydd Sector gwerth £24m yn gynharach yn y flwyddyn. Nod y gronfa hon oedd helpu seilwaith y trydydd sector i ymateb i'r argyfwng, cefnogi'r sector gwirfoddol a chefnogi sefydliadau sy'n cael pethau'n anodd yn sgil colli incwm codi arian i oroesi'r argyfwng.

2.36 Er hynny, mae ail don Covid-19 wedi cynyddu ymhellach y pwysau ar wasanaethau'r trydydd sector a'u cyllid. Mae ceisiadau i'r Gronfa Ymateb bellach yn uwch na'r cyllid blaenorol a oedd ar gael. Rydym wedi ymateb i'r galw cynyddol hwn drwy ddyrannu **£4.7m** yn ychwanegol yn ogystal ag ailgyfeirio'r arian i gefnogi gweithgareddau'n uniongyrchol i fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig Covid-19 ar gydraddoldeb, gan atal y rhain rhag ymwreiddio a sicrhau bod sefydliadau'n addas ar gyfer y dyfodol.

At ei gilydd, mae'r Gronfa eisoes wedi cefnogi dros 400 o sefydliadau'r trydydd sector i ymateb i'r argyfwng ac addasu ar gyfer y dyfodol. Mae'r elfen gwasanaethau gwirfoddol wedi galluogi bron i 9,000 o wirfoddolwyr i helpu bron i 1 miliwn o fuddiolwyr. Mae'r Gronfa wedi cefnogi sefydliadau, gwirfoddolwyr, cymunedau ac unigolion ledled Cymru ac wedi ariannu prosiectau ym ardal pob awdurdod lleol.

2.37 Ers dros ddegawd, rydym wedi bod yn datblygu ac yn dyfnhau cysylltiadau a phartneriaethau rhwng cymunedau neu sefydliadau ag

Affrica Is-Sahara drwy raglen Cymru ac Affrica. Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael effaith ddofn yn rhyngwladol gyda llawer o sefydliadau yn sector Datblygu Rhyngwladol Cymru yn chwilio am ffynonellau cyllid ar frys i'w helpu i ymateb yn well i Covid. Drwy ein rhaglen Cymru ac Affrica rydym wedi dyrannu **£1m** ar gyfer gwaith ymwybyddiaeth ac atal o ran Covid, yn ogystal â gwaith paratoi ar gyfer brechu.

2.38 Yn anffodus, nid ydym yn ddiogel rhag heriau eraill yn ystod y pandemig hwn. Yng Nghymru rydym wedi gweld sawl achos o lifogydd lleol sydd wedi golygu bod pobl wedi gorfod gadael eu cartrefi. Mae'r pandemig ac, yn benodol, lleihau cyswllt â phobl eraill a lledaeniad y feirws, yn golygu bod delio â llifogydd yn arbennig o anodd. Mae cadw pobl yn eu cartrefi eu hunain neu eu dychwelyd i'w cartrefi eu hunain cyn gynted â phosibl yn hanfodol. Felly, rydym wedi dyrannu **£6.5m** i ddarparu taliad o £500 i aelwydydd yr effeithwyd arnynt, ac i dalu am y costau gweinyddu ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ymateb yn ystod y pandemig.

Trafnidiaeth

2.39 Yn ystod 2020-21, rydym wedi darparu cyngor clir na ddylai pobl deithio oni bai bod hynny'n gyfan gwbl hanfodol. Roedd hyn yn hanfodol er mwyn diogelu'r GIG a'r bobl sy'n byw yng Nghymru. Er hynny, mae wedi cael effaith sylweddol ar y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Ers dechrau'r pandemig rydym wedi darparu £153m ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd. Rydym yn dyrannu **£24m** arall ar gyfer cymhorthdal pellach i redeg gwasanaethau rheilffyrdd ar draws rhanbarth Cymru a'r Gororau. Bydd hyn yn cwmpasu rhan o'r gost gyffredinol sy'n cael ei hysgwyddo wrth ymadael â'r contract gwasanaethau rheilffyrdd presennol yn ogystal â'r costau refeniw sy'n gysylltiedig â galluogi Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig i fod yn weithredwr newydd y gwasanaeth rheilffyrdd.

2.40 Bydd hyn yn parhau i ganiatáu i wasanaethau rheilffyrdd redeg yn ystod y pandemig, gan alluogi gweithwyr allweddol i gyrraedd eu gweithle ac i bobl barhau i allu cael gafael ar wasanaethau hanfodol. Derbynnir yn gyffredinol fod rhai grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig yn fwy tebygol o ddibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol i gael gafael ar swyddi a gwasanaethau oherwydd oedran, tlodi, iechyd neu am eu bod yn anabl. Bydd y cymorth ychwanegol hwn yn sicrhau bod rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus addas ar waith wrth inni symud ymlaen i'r cyfnod adfer.

2.41 Mae gyrrwyr tacsis yn elfen bwysig ar y rhwydwaith trafnidiaeth. Er mwyn sicrhau bod teithio mor ddiogel â phosibl i yrwyr a theithwyr, rydym wedi darparu **£1m** ar gyfer pecynnau cyfarpar diogelu personol (PPE) i yrwyr. Mae hyn yn golygu bod mwy o gysondeb rhwng y sector a gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae'r fenter yn deillio o gydweithio agos a chydweithredol rhwng y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Lyreco, a'r awdurdodau lleol. Wrth gyrchu'r PPE, rydym wedi gwneud pob ymdrech i ddod o hyd i gynnyrch gan gyflenwyr lleol.

2.42 O fewn y seilwaith trafnidiaeth cenedlaethol mae dyraniad o **£92.2m** ar gyfer ymyriadau ym maes economi a thrafnidiaeth i ymateb i'r pandemig.

Dyraniadau Covid-19 eraill

2.43 Mae CADW yn chwarae rhan bwysig wrth ddiogelu ein treftadaeth a gofalu am eiddo hanesyddol, gan ddod â manteision sylweddol o ran yr economi a thwristiaeth yn ogystal ag effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol pwysig. Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar incwm CADW wrth i eiddo, manwerthu, caffis a digwyddiadau gael eu cau a'u canslo. Felly, rydym wedi darparu **£5.1m** i leddfu'r pwysau hwn ac i sicrhau bod ein treftadaeth yn cael ei diogelu i bawb ei mwynhau yn y dyfodol.

- 2.44** Mae'r Arolygiaeth Gynllunio hefyd wedi colli incwm ffioedd o ganlyniad i Covid-19. Rydym wedi darparu cyllid o **£0.4m** i dalu am yr ymrwymiad heb ei ariannu a ragwelir.
- 2.45** Rydym hefyd wedi dyrannu **£0.8m** gyfer hyrwyddo a chefnogi'r Senedd. Mae'n bwysig bod pobl Cymru yn gallu cymryd rhan mewn prosesau democrataidd. Mae cyfleu'r neges ynghylch yr etholiad arfaethedig i'r Senedd yn arbennig o bwysig i bleidleiswyr sydd newydd gael y bleidlais, a'r rhai sydd wedi colli diddordeb yn y broses. Yn ystod Covid-19 gall cyfathrebu fod yn anoddach a bydd angen i'r negeseuon gael eu haddasu i weddu i'r sefyllfa sy'n datblygu. Bydd y cyllid hwn, yn rhannol, yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymgyrch gyfathrebu gryfach cyn etholiadau'r Senedd gyda'r nod o gyrraedd pob pleidleisiwr.
- 2.46** I gydnabod y sefyllfa ariannol eithriadol eleni, ac i gefnogi'r portffolios y mae'r pandemig yn effeithio fwyaf arnynt, rydym wedi dyrannu cronfa wrth gefn o £90 miliwn ar draws y gyllideb i alluogi gwariant ychwanegol pe bai ei angen cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Mae'r gronfa wedi'i rhannu yn gyfartal rhwng Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Yr Economi a Thrafnidiaeth; ac Addysg ac mae'n cyfateb i'r ddarpariaeth ar gyfer Llywodraeth Leol lle mae £30m wrth gefn wedi'i ddyrannu. Adroddir ar unrhyw ddefnydd o'r cronfeydd hyn fel rhan o'n hadroddiad Diwedd Blwyddyn ar Alldro.

Blaenoriaethau Ail-greu

2.47 Mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio ar fywydau pawb ledled Cymru, mewn sawl ffordd. Mae wedi cael effaith ddifrifol ar ein heconomi, ein cymdeithas a'n cymunedau, a bydd hynny'n parhau i'r dyfodol. Mae'n bwysig felly ein bod yn ymateb i'r effaith hirdymor debygol ac yn cynllunio ar gyfer y dyfodol hwnnw.

2.48 Fe wnaethom gynnal sgwrs genedlaethol i ddeall y meysydd blaenoriaeth a fyddai'n allweddol i ailadeiladu yng Nghymru. Wrth weithio gyda grwpiau cyfeirio arbenigol a'r cyhoedd ehangach yng Nghymru, cawsom ymdeimlad clir iawn o sut y mae pobl yng Nghymru yn teimlo y mae'r coronafeirws wedi effeithio fwyaf ar eu bywydau, ac mae hyn wedi bod yn hanfodol wrth ddatblygu ein blaenoriaethau ar gyfer ail-greu fel y'u nodir yn [Ail-greu ar ôl COVID-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau](#).

2.49 Mae hyn hefyd wedi cadarnhau o'r newydd inni mai'r materion yr ydym yn canolbwyntio arnynt ar hyn o bryd – yr argyfwng hinsawdd, effaith niweidiol tloidi, yr angen i addasu i newid economaidd cyflym, a phwysigrwydd ad-drefnu gwasanaethau cyhoeddus i'w gwneud yn fwy ymatebol a hygyrch – a'n gwerthoedd a'n hamcanion ar gyfer creu Cymru fwy llewyrchus, cyfartal a gwyrddach yw'r rhai cywir i'n cenedl, er bod hynny mewn cyd-destun sydd wedi newid.

Er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn ariannol gwerth £320m fis Hydref y llynedd i gefnogi'r blaenoriaethau ail-greu.

2.50 **Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i leihau diweithdra a rhoi'r cyfle gorau i bawb ganfod a chadw gwaith teilwng ac iddo ragolygon hirdymor, gan ychwanegu gwerth at raglen Kickstart Llywodraeth y DU.**

Mae'r cynnydd mewn diweithdra yng Nghymru ers dechrau'r pandemig Covid wedi'i liniaru gan y cynlluniau cymorth a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae

unrhyw gynnydd yn destun pryder a chan fod risg amlwg o gynnydd pellach dros y flwyddyn i ddod, mae'n hanfodol bod Llywodraeth y DU yn cynnal ei chynlluniau cyhyd ag y bo angen.

Fodd bynnag, nod y gwaith ail-greu yr ydym ninnau hefyd wedi'i wneud yw helpu llawer o'r bobl a'r busnesau y mae eu bywoliaeth wedi'i cholli, neu ei throï wyneb i waered gan y cyfyngiadau, i ddod o hyd i waith a dyfodol, law yn llaw â'r cymorth busnes uniongyrchol sylweddol yr ydym wedi'i ddarparu yn 2020-21.

Rydym wedi buddsoddi:

- **£2m** o gyllid refeniw ychwanegol i gadw sgiliau i gefnogi'r trydydd sector. Mae hyn wedi caniatáu i'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol, sy'n cael ei rhedeg gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, gael ei hystyngiadau gan helpu prosiectau ledled Cymru i gefnogi pobl sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar.
- **£0.3m** o gyllid refeniw ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Cynghori ar Wahaniaethu ar sail Cyflogaeth a fydd yn cynnig cymorth i unioni effeithiau anghymesur yr argyfwng coronafeirws sydd wedi bod yn ergyd i grwpiau sydd eisoes dan anfantais.
- **£0.2m** o gyllid refeniw ar gyfer Datblygu Partneriaeth Gymdeithasol a Gorfodi Hawliau Gweithwyr, gyda mesurau i gefnogi'r gwaith o gyflawni gwaith teg yng Nghymru drwy bartneriaeth gymdeithasol.

2.51 Byddwn yn sicrhau nad yw ein pobl ifanc ar eu colled yn addysgol nac yn economaidd oherwydd effeithiau Covid nac oherwydd unrhyw ddirywiad economaidd nad oes ganddynt reolaeth drosto.

Mae tystiolaeth yn dangos y gall effaith tarfu ar addysg ac ar brofiad cynnar yn y farchnad lafur gael effaith andwyol hirdymor iawn ar amrywiaeth o ganlyniadau. Gall pobl sydd â phrofiadau andwyol o'r mathau hyn brofi incwm is, mwy o risg o ddiweithdra ac iechyd a llesiant

gwaeth. Mae dadansoddiad gan y Resolution Foundation, y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth, ac eraill, wedi dangos bod pobl iau eisoes wedi dioddef yn anghymesur yn y farchnad lafur yn ystod yr anawsterau economaidd presennol.

I ymateb i hynny, rydym wedi buddsoddi mewn amrywiaeth o fesurau polisi i helpu pobl ifanc i "ddal i fyny":

- **£4.9m** o gyllid cyfalaf ychwanegol i fynd i'r afael ag allgáu digidol mewn addysg bellach – mae hyn ar ben y **£3.2m** a ddyrannwyd fis Ebrill 2020. Mae hyn wedi rhoi sylfaen gadarnach ar gyfer darpariaeth dysgu cyfunol barhaus yn ystod blwyddyn academiaidd 2020/21, drwy ymestyn cwmpas y cyllid i gynnwys dysgwyr ar raglenni hyfforddeiaeth hefyd.
- **£11.68m** o gyllid refeniw i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod hanner tymor mis Hydref, gwyliau'r Nadolig, hanner tymor Chwefror 2021 a gwyliau'r Pasg 2021. Mae hyn yn ar ben y **£40m yr** oeddem eisoes wedi'i ddyrannu i sicrhau parhad y ddarpariaeth yn lle prydau ysgol am ddim yn ystod y pandemig Covid-19 hyd at 31 Awst 2020. Daw hyn â chyfanswm ein buddsoddiad ychwanegol ar gyfer prydau ysgol am arian eleni i **£60.5m**.
- **£30m** o gyllid cyfalaf yn ein rhaglenni Seilwaith Addysg, sydd â llif sefydledig, cryf a chynaliadwy o brosiectau. Bydd y prosiectau adeiladu hyn yn cefnogi twf economaidd, arloesedd a swyddi cynaliadwy ar gyfer rhai o'r sectorau â chyflogau is yng Nghymru.
- **£10m** o gyllid refeniw i gefnogi cynnydd yn nifer y dysgwyr Addysg Bellach sy'n cofrestru oherwydd graddau uwch na'r disgwyl ac oherwydd yr opsiynau cyfyngedig yn y farchnad lafur.
- **£10m** o gyllid refeniw ychwanegol ym maes addysg uwch i roi mwy o gymorth i fyfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol, emosiynol neu iechyd meddwl. Mae hyn yn ychwanegol at y **£40m** ar gyfer caledi myfyrwyr ac iechyd meddwl myfyrwyr, sy'n golygu cyfanswm o £50m.

- **£5m** o gyllid refeniw ychwanegol ar gyfer gronfa Mynediad y Grant Datblygu Disgyblion i ddarparu cyllid i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i'w galluogi i ddarparu cymorth datblygiadol ychwanegol i blant, waeth ble maent yn byw, drwy adeiladu ar ddulliau llwyddiannus ein rhaglenni presennol o ymyrryd yn gynnar ac atal.
- **£9.5m** o gyllid refeniw i helpu dysgwyr i gael cymwysterau. Nod y cymorth ychwanegol hwn i ysgolion a cholegau yw galluogi ein holl bobl ifanc i aros mewn addysg a dal i fyny yn yr ysgol a'r coleg, gan ganolbwyntio'n arbennig ar grwpiau difreintiedig.
- **£0.01m** o gyllid refeniw i Arolygiaeth Gofal Cymru. Bydd yr arian hwn yn cefnogi gweithgarwch ar unwaith dros y 6 mis nesaf rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i leihau amrywiadau yng nghyfraddau perfformiad plant sy'n derbyn gofal. Bydd yn hwyluso'r gwaith o gynnal gweithdai adolygu gan gymheiriaid rhwng awdurdodau i drafod arferion da a chysondeb.
- **£3.8m** o gyllid refeniw i Ofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r costau ychwanegol sy'n deillio o'r pandemig Covid-19 a'r addasiadau penodol sydd eu hangen i sicrhau y gall safleoedd weithredu mewn modd sy'n ddiogel rhag Covid.
- **£0.1m** o gyllid refeniw ar gyfer y Fframwaith Nodau Gofal. Bydd yr arian yn darparu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ym maes lleferydd, iaith a chyfathrebu i'w galluogi i ddod yn fwy effeithiol ac ymatebol wrth ddarparu cymorth i blant a theuluoedd sydd ei angen.
- **£0.02m** o gyllid refeniw i sefydlu grŵp cyfeirio i gynghori ar hyfforddiant ar briodoldeb diwylliannol i staff sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau eirioli.

- **£1m** o gyllid refeniw ychwanegol ar gyfer cronfa Dydd Gŵyl Dewi. Bydd y cyllid yn cael effaith uniongyrchol ar bobl ifanc agored i niwed sy'n dioddef tlodi neu galedi ariannol a'r rhai sydd mewn perygl o golli eu hannibyniaeth neu golli tenantiaeth oherwydd effeithiau sy'n gysylltiedig â Covid-19.
- **£0.05m** o gyllid refeniw ar gyfer hyfforddiant arbenigol i ofalwyr maeth ar anghenion cymhleth, plant yn y ddalfa a phlant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.
- **£3m** o gyllid refeniw ar gyfer Cyfiawnder Teuluol i helpu i liniaru ôl-groniadau o achosion llys a chefnogi llwybrau allan o ofal.
- **£0.86m** o arian cyfalaf i barhau i fuddsoddi ym meysydd Dechrau'n Deg a'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru a helpu ein rhaglenni tlodi presennol i sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf posibl ar fywydau plant sy'n byw mewn tlodi wrth inni ddod allan o'r cyfnod argyfwng cychwynnol.
- **£0.07m** o gyllid refeniw i gefnogi datblygu Tîm Trawsnewid o ran Lleihau Niferoedd, i ddarparu cyngor a chymorth ar draws awdurdodau lleol Cymru sy'n parhau i weld cynnydd mawr yn nifer y plant sy'n dod i ofal.
- **£5m** o gyllid cyfalaf i alluogi'r ddarpariaeth gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar i weithredu mewn modd sy'n ddiogel rhag Covid ac i ganiatáu i awdurdodau lleol gynyddu mynediad at gyfleusterau chwarae awyr agored.
- **£2.2m** o gyllid refeniw ar gyfer Cynadleddau Grŵp Teulu, i helpu i atal yr angen i gymryd plant oddi wrth eu teuluoedd ac i wneud cynnydd ar y targedau i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal.

- **£0.8m** o gyllid refeniw i hyrwyddo sefydlogrwydd teuluol ac ansawdd perthynas. Byd hyn yn rhoi cymorth i deuluoedd sy'n cael anawsterau yn eu perthynas, gan helpu i ddatrys gwrthdaro a lleihau'r straen ar y teulu o ganlyniad i Covid-19 a'r cyfyngiadau symud.
- **£0.12m** o gyllid refeniw i ymestyn Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar gan alluogi plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd drwy ddiogelu, addysgu a chefnogi plant a phobl ifanc a hyrwyddo eu hawliau.
- **£2.35m** o gyllid refeniw ar gyfer gorchuddion wyneb i bob dysgwr mewn ysgol uwchradd a phob dysgwr amser llawn mewn coleg yng Nghymru ar gyfer 2020/21.
- **£0.32m** o gyllid refeniw i'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol i helpu plant sy'n agored i niwed yng Nghymru.
- **£2m** o gyllid refeniw i'n galluogi i ymestyn cwmpas y Gronfa Datblygu Plant i ddarparu adnoddau ychwanegol i awdurdodau lleol i ymestyn y cymorth sydd ar gael i fynd i'r afael â phryderon ynghylch oedi o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu, oedi o ran sgiliau echddygol manwl a bras, a datblygiad personol a chymdeithasol.

2.52 Byddwn yn cynyddu'r gwaith o adeiladu tai cyngor a thai cymdeithasol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i gael tai o ansawdd uchel ledled Cymru, gan fuddsoddi mewn tai carbon isel yn enwedig.

Mae tai yn ffactor eithriadol o bwysig ym mywydau pobl, ac rydym yn credu y dylai pawb gael cartref o ansawdd da ac na ddylai neb fod yn ddigartref. Cartrefi o ansawdd da yw sylfaen cymunedau da ac maent

yn sail i unigolion a theuluoedd ffynnu ym mhob agwedd ar eu bywydau, gan gynnwys cael effaith amlwg ar iechyd a llesiant. Drwy fuddsoddi mewn tai o ansawdd da, law yn llaw â chefnogi ein rhaglenni atal digartrefedd, gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran gwella bywydau'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Yn ogystal, gwyddom fod buddsoddi yn ein rhaglenni adeiladu tai yn ysgogiad i'r sector adeiladu.

- Rydym yn buddsoddi **£30m** ychwanegol o gyfalaf trafodiadau ariannol (FTC) yn ein Cronfa Datblygu Eiddo ac yng Nghronfa Safleoedd Segur Cymru. Mae'r cyllid hwn yn chefnogi datblygwyr eiddo sy'n fusnesau bach a chanolig i gyflwyno tai ar gyfer y farchnad a thai fforddiadwy, gan greu effaith luosogi o ran yr economi leol a'r swyddi medrus a gaiff eu creu a'u cadw. Mae hyn yn rhoi cymorth gwerthfawr i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn y gadwyn gyflenwi, gan gefnogi'r broses o ddatblygu tua 1,500 o gartrefi newydd.
- Ymhlith ein buddsoddiadau eraill o dan y flaenoriaeth hon mae diogelu'r gwaith o ddarparu ein rhaglenni tai fforddiadwy ac ôl-osod, drwy fuddsoddiad ychwanegol o **£20m** yn ein Rhaglen Tai Arloesol lwyddiannus. Rydym wedi cyflymu'r broses o adeiladu tai cyngor a thai cymdeithasol i gynyddu'r cyfle i gael tai o ansawdd uchel ledled Cymru, gan fuddsoddi mewn tai carbon isel yn enwedig.
- **£10m** o arian cyfalaf ar gyfer prif raglen y Grant Tai Cymdeithasol i sicrhau bod y teuluoedd ac unigolion â'r angen mwyaf yn gallu cael gafael ar dai sy'n eu galluogi i ffynnu.

2.53 Byddwn yn cynyddu ein buddsoddiad yng nghanol ein trefi i helpu i greu cymunedau gwydn

Mae'r pandemig Covid-19 wedi cyflymu'r angen i ailystyried sut yr ydym yn defnyddio canol trefi a dinasoedd. Rydym wedi ceisio adeiladu ar yr

ymdeimlad newydd o gymuned sydd wedi'i greu gan y pandemig, drwy geisio annog pobl i ymweld â chanol trefi am sawl rheswm – nid dim ond i siopa, ond hefyd i ddefnyddio cyfleusterau hamdden, gwasanaethau a gwaith, gan gefnogi ein polisi o roi 'Canol y Dref yn Gyntaf'. Dyma'r buddsoddiadau rydym wedi'u gwneud o dan y flaenoriaeth hon:

- **£5m** o gyllid cyfalaf i'r Gronfa Caffael Safleoedd Strategol, sy'n helpu awdurdodau lleol i gaffael tir ac adeiladau allweddol yng nghanol trefi er mwyn atal ein trefi rhag dirywio ymhellach.
- **£4m** o gyllid refeniw a **£0.15m** o gyllid cyfalaf ar gyfer gweithgareddau cymunedol a gwirfoddoli drwy awdurdodau lleol, i ddatblygu a gweithredu cynigion sy'n cynnal gwirfoddoli a gweithredu cymunedol yn ystod yr adferiad ac ar yr un pryd yn gwella neu'n cyflwyno systemau a threfniadau cymorth newydd.
- **£2m** o gyllid refeniw i gyflymu camau gweithredu ar fioamrywiaeth, a fydd yn cefnogi gwaith cynllunio a paratoi helaeth gan Bartneriaethau Natur Lleol a sefydliadau'r trydydd sector i gryfhau'r ddarpariaeth ar fioamrywiaeth yn 2021-22.
- **£0.7m** o gyllid refeniw ar gyfer parhau i roi Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ar waith.
- **£5.5m** o gyllid refeniw a **£7.7m** o gyllid cyfalaf ar gyfer Rhaglen yr Economi Gylchol fel bod modd datblygu rhagor o siopau aildefnyddio ac atgyweirio i hyrwyddo adferiad gwyrdd yng nghanol ein trefi. Mae hyn wedi galluogi buddsoddiadau mewn 36 o brosiectau, sydd wedi'u creu drwy bartneriaethau rhwng awdurdodau lleol, cynghorau tref a'r trydydd sector.

2.54 Byddwn yn parhau i ymateb yn egniol i'r argyfwng hinsawdd drwy ddilyn agenda datgarboneiddio gref, rheoli ein tir er budd

cymunedau gwledig a chenedlaethau'r dyfodol a diogelu a gwella ein hadnoddau naturiol

Mae'r pandemig Covid-19 wedi dangos mor bwysig yw ein hadnoddau naturiol ac wedi tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod ein buddsoddiadau yn ein helpu i adeiladu ar gyfer dyfodol gwyrddach fel rhan o'n hadferiad sy'n seiliedig ar werthoedd.

- **£2m** o gyllid cyfalaf i Fferm Solar Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe i ddarparu ynni adnewyddadwy ar gyfer safle Ysbyty Treforys fel rhan o'r ymdrechion i gyrraedd y targed o sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030, yn ogystal â lleihau eu costau ynni.
- Cyllid cyfalaf ychwanegol o **£12.5m** i Gronfa'r Economi Gylchol i awdurdodau lleol a chyrff a ariennir yn gyhoeddus er mwyn ariannu tua 50 o brosiectau ychwanegol sy'n cyfrannu at yr adferiad gwyrdd. Mae'r rhain yn cyfrannu at ddatblygu swyddi gwyrdd y dyfodol a chynyddu cyfradd ailgylchu a datgarboneiddio ledled Cymru.
- **£0.4m** o gyllid ychwanegol ar gyfer Ynni Adnewyddadwy Lleol i uwchraddio a chyflymu camau arloesol i ddatgloi buddsoddiad mewn prosiectau ym meysydd ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni a thrafnidiaeth.
- **£0.4m** o gyllid refeniw a **£0.1m** o gyllid cyfalaf ar gyfer Ysgogiad Gwyrdd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni mesurau effeithlonrwydd ynni.
- **£0.2m** o gyllid ychwanegol i Ganolfannau Hydrogen Byw'n Glyfar. Cyllid i gefnogi manyleb y gofyniad a dyluniad technegol hyb hydrogen gwyrdd.

- **£1.08m** o gyllid refeniw alluogi ein Parciau Cenedlaethol i ymgysylltu ag ymwelwyr a chymunedau, gan adeiladu asedau a gwaddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

2.55 Byddwn yn manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan y newid mewn patrymau gweithio a theithio, i adeiladu ar gynlluniau treialu trafndiaeth gyhoeddus sy'n ymateb i'r galw, gan weithio gydag undebau llafur, awdurdodau lleol a theithwyr a rhoi pwyslais clir yn ein Strategaeth Drafnidiaeth newydd ar leihau'r angen i deithio.

Rydym yn deall na all y rhan fwyaf o bobl weithio gartref ac y bydd llawer ohonom yn parhau i ddibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus i'n cludo i'r gwaith ac yn ôl. Derbynnir yn gyffredinol bod rhai grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig yn fwy tebygol o ddibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol i gael gafael ar swyddi a gwasanaethau oherwydd oedran, tlodi, iechyd neu anabledd.

Dyma'r buddsoddiadau rydym wedi'u gwneud o dan y flaenoriaeth hon:

- **£6.5m** o gyllid refeniw, a fydd yn caniatáu darparu amrywiaeth o ymyriadau trafndiaeth gyhoeddus ledled Cymru. Er enghraifft, yn ogystal â'r cynnydd yn y cyllid gyfer gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd i'w cynnal yn ystod y cyfnod o ddefnydd isel gan y cyhoedd ar hyn o bryd, rydym wedi ariannu rhaglen a fwriadwyd i dreialu'r broses o ddiwygio gwasanaethau bysiau, gan adeiladu ar gynlluniau sydd eisoes ar y gweill i dreialu gwasanaethau bysiau Fflecsi sy'n ymateb i'r galw.
- **£0.2m** o gyllid refeniw - Datgarboneiddio Trafndiaeth – er mwyn caffael adnoddau allanol ychwanegol i gynghori a chefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaethau, cynlluniau a rhaglenni i ddatgarboneiddio trafndiaeth.
- **£0.4m** o gyllid refeniw a **£0.5m** o gyllid cyfalaf i fwrw ymlaen â chyflwyno cynlluniau peilot ar gyfer parthau 20 milltir yr awr ledled Cymru, dechrau ymgynghori ar newid deddfwriaethol, a datblygu strategaeth ymgyrchu.

2.56 Byddwn yn canolbwyntio ar yr economi 'bob dydd'/sylfaenol ac yn cefnogi twf ac annibyniaeth busnesau sydd â'u pencadlys yng

Nghymru er mwyn meithrin gwydnwch economi Cymru yn wyneb Covid-19 a diwedd Cyfnod Pontio'r UE.

Gyda'n gilydd rydym yn canolbwyntio ar sicrhau dyfodol busnesau bach a chanolig eu maint, y mae pencadlys y rhan fwyaf ohonynt yng Nghymru, drwy gyd-ariannu buddsoddiadau wrth addasu i'r gwirioneddau newydd a wynebwn. Rydym hefyd yn darparu cymorth penodol i'r sectorau twristiaeth a lletygarwch sydd wedi cael eu taro gymaint gan y pandemig. Mae'n hanfodol, er mwyn cynnal swyddi yng Nghymru, ein bod yn diogelu'r sectorau twristiaeth, lletygarwch a diwylliannol yn ein heconomi.

Er mwyn cefnogi'r buddsoddiad sylweddol ar wahân rydym wedi'i wneud yn 2020-21 drwy ein Cronfa Cadernid Economaidd, mae ein dyraniadau eraill yn cynnwys:

- **£30m** ychwanegol o gyfalaf trafodiadau ariannol i roi hwb i Gronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru, gan gynyddu ein gallu i leddfu'r pwysau sy'n codi oherwydd bod llai o arian gan yr UE ar gael, a chaniatáu buddsoddiadau parhaus mewn busnesau ledled y De.
- **£24m** ychwanegol o gyfalaf trafodiadau ariannol i roi hwb i Gronfa Buddsoddi Twristiaeth Cymru.
- **£20m** o gyllid cyfalaf i'r Rhaglen Ffyrdd Strategol er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw a chaniatáu i waith cyfalaf gael ei wneud yn 2020/21, a fyddai o fudd i'r sector adeiladu.
- **£0.75m** o gyllid refeniw Band Eang Cyflym lawn i ehangu rhaglen Cyflymu Busnes Cymru sy'n helpu busnesau i fabwysiadu technolegau digidol.

2.57 Byddwn yn helpu'r GIG i ennill tir o ran trin cyflyrau nad ydynt yn gysylltiedig â Covid.

Mae rhoi mesurau brys ar waith i ymateb i Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar draws y GIG yng Nghymru. I gydnabod hyn, darparwyd y cyllid ychwanegol canlynol:

- **£7m** o gyllid cyfalaf ar gyfer ein rhaglen gyfalaf gofal sylfaenol, i fwrw ymlaen â phrosiectau mawr a fydd yn rhoi ysgogiad ychwanegol i'r sector adeiladu a chyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol integredig llawer gwell i gymunedau lleol.
- **£2.95m** o gyllid refeniw ar gyfer Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau, a fydd yn galluogi'r byrddau iechyd i gefnogi darpariaeth iechyd meddwl ataliol lefel isel drwy'r trydydd sector.
- **£4m** o gyllid refeniw a **£10m** o gyllid cyfalaf cyllid cyfalaf i helpu i greu capasiti ychwanegol ar gyfer y GIG eleni ac i helpu i baratoi gwasanaethau'n barod ar gyfer yr adferiad.
- **£0.28m** o gyllid refeniw ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol - adnodd cynllunio gofal sylfaenol i gefnogi datblygiadau cyfalaf.
- **£1.6m** o gyllid cyfalaf ar gyfer Sêr Cymru 3 i gefnogi'r ymchwil y mae mawr ei hangen a fydd yn llywio ymateb Llywodraeth Cymru i Covid-19 a'i effeithiau ehangach ar gymdeithas. Mae'r buddsoddiad hwn wedi galluogi cymorth i 23 o brosiectau ymchwil eraill, gan wneud cyfanswm o 40 prosiect a chyfanswm dyraniad o £2.9m

2.58 Byddwn yn ariannu ymyriadau sy'n canolbwyntio'n benodol ar gydraddoldeb.

Ym mhopeth a wnawn, rydym yn cydnabod nad yw effaith y pandemig hwn yn effeithio'n gyfartal ar bawb, ac rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gefnogi'r rhai y mae'r argyfwng Covid-19 wedi effeithio fwyaf arnynt. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc, menywod, y rhai mewn swyddi â chyflog isel ac ansicr, pobl Dduon, Asiaidd a

Lleiafrifoedd Ethnig, a phobl anabl. Felly, rydym wedi buddsoddi **£3.41m** yn ychwanegol sy'n cynnwys:

- **£0.35m** o gyllid refeniw i wella'r broses o fwydo data cydraddoldeb i benderfyniadau, a dechrau gweithio ar Uned Ddata Cydraddoldeb/Anghyfartaledd Hiliol, law yn llaw ar wneud gwaith ymgysylltu ynglŷn â'r Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol gyda chymunedau a sefydliadau ar lawr gwlad.
- **£1m** o gyllid cyfalaf i gefnogi ein rhaglen Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i ariannu cyfarpar i alluogi dioddefwyr i gael mynediad o bell i lysoedd.
- Rhoi hwb i Gronfa Ymateb Covid-19 Sefydliadau Pobl Anabl gyda chyllid refeniw ychwanegol o **£0.23m** i gefnogi pobl anabl yn ystod y pandemig.
- **£1.6m** o gyllid refeniw ar gyfer y Gronfa Ymyriadau i ddargyfeirio achosion yn ddiogel oddi wrth y Gofrestru Amddiffyn Plant.
- **£0.04m** o gyllid refeniw ar gyfer y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a fydd yn fecanwaith allweddol i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn yr ymateb i Covid-19 a'r cyfnod adfer. Bydd y Ddyletswydd yn cychwyn fis Mawrth 2021. Mae'r cyllid hwn wedi cynorthwyo'r gwaith o ddarparu deunyddiau ymgysylltu ategol ychwanegol ar gyfer cyrff cyhoeddus.
- **£0.19m** o gyllid refeniw i ariannu Glasbrintiau ar gyfer Menywod sy'n Troseddu a Chyfiawnder Ieuencid, sy'n ceisio gwella canlyniadau i fenywod a phobl ifanc sydd mewn perygl o ymuno â'r system cyfiawnder troseddol neu sydd mewn perygl o wneud hynny.

3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Ail Gyllideb Atodol 2020-21

- 3.1** Mae tablau 3.1 to 3.4 yn nodi effaith net yr holl newidiadau i gyllideb Cymru. Mae tabl 3.5 yn crynhoi cyfanswm y dyraniadau yn ôl MEG.

Tabl 3.1 – Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru

CYDRANNAU CYLLIDO LLYWODRAETH CYMRU	2020-21 Cyllideb Atodol Hydref 2020	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2020-21 Cynlluniau Newydd Chwefror 2021
	£000oedd	£000oedd	£000oedd
CYLLIDO ADNODDAU			
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):			
Cyllidol	17,345,729	950,759	18,296,488
Hyblygrwydd y cytunwyd arno â Thrysorlys Ei Mawrhydi	0	-497,557	-497,557
Anghyllidol	690,064	846,949	1,537,013
Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru	125,000	0	125,000
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):			
Cyllidol	22,159	1,665	23,824
Anghyllidol	135,499	184,879	320,378
Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:			
Ardrethi Annomestig	804,000	-112,000	692,000
Cyfradd Treth Incwm Cymru	2,169,668	0	2,169,668
Treth Trafodiadau Tir	131,854	44,603	176,457
Treth Gwarediadau Tirlenwi	34,153	-5,966	28,187
Prif ad-daliad o'r benthyciad	-2,362	0	-2,362
CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU	21,455,764	1,413,332	22,869,096
CYLLIDO CYFALAF			
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):			
Cyffredinol	2,133,145	773,345	2,906,490
Hyblygrwydd y cytunwyd arno â Thrysorlys Ei Mawrhydi	0	-137,131	-137,131
Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru	0	40,210	40,210
Trafodiadau Ariannol	304,574	52,862	357,436
Hyblygrwydd y cytunwyd arno â Thrysorlys Ei Mawrhydi	0	-25,530	-25,530
Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru	0	9,790	9,790

Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):			
Cyfalaf	863,631	34,113	897,744
Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:			
Benthyca	125,000	-125,000	0
CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF	3,426,350	622,659	4,049,009
CYFANSWM CYLLIDO CYMRU	24,882,114	2,035,991	26,918,105

Tabl 3.2 – Dyrannu Cyllideb Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	£000oedd			
	2020-21 Cyllideb Atodol Hydref 2020 Ailddatganwyd Rhagfyr 2020	Newidiadau	2020-21 Cyllideb Atodol Cynlluniau Newydd Chwefror 2021	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	10,341,215	244,534	10,467,826	
Tai a Llywodraeth Leol	6,409,908	396,319	6,731,169	
Yr Economi a Thrafnidiaeth	2,949,431	1,250,889	4,203,474	
Addysg	2,556,382	1,018,781	3,575,163	
Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg	268,196	38,963	413,580	
Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig	561,507	13,273	649,838	
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	414,352	34,041	456,741	
Cyfanswm y Dyraniad i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru	23,500,991	2,996,800	26,497,791	
Cyllid yr UE wedi'i ad-drefnu ar gyfer mesurau Covid-19	-245,000	245,000	0	
Dyraniad cynlluniedig i MEGs Llywodraeth Cymru	23,255,991	3,241,800	26,497,791	
Adnoddau heb eu Dyrannu	Adnoddau Cyllidol	1,151,418	-1,050,359	101,059
	Adnoddau Anghyllidol	151,123	91,775	242,898
Cyfalaf heb ei Ddyrannu	Cyffredinol	199,647	-198,669	978
	Trafodiadau Ariannol	50,258	-49,742	516
Comisiwn y Senedd	59,575	1,050	60,625	
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	5,110	160	5,270	
Swyddfa Archwilio Cymru	8,228	-5	8,223	
Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	764	-19	745	
CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU	24,882,114	2,035,991	26,918,105	

Tabl 3.3 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Adnoddau Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	£000oedd					
	CYLLIDOL			ANGHYLLIDOL		
	2020-21 Cyllideb Atodol Hydref 2020 Wedi'i Hailddatgan Rhagfyr 2020	Newidiadau	2020-21 Cyllideb Atodol Cynlluniau Newydd Chwefror 2021	2020-21 Cyllideb Atodol Hydref 2020 Wedi'i Hailddatgan Rhagfyr 2020	Newidiadau	2020-21 Cyllideb Atodol Cynlluniau Newydd Chwefror 2021
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	9,526,060	79,820	9,493,029	190,000	30,137	220,137
Tai a Llywodraeth Leol	4,815,823	336,609	5,103,774	240	-27	213
Yr Economi a Thrafnidiaeth	2,004,931	663,874	2,671,959	192,400	152,000	344,400
Addysg	1,490,143	167,700	1,657,843	107,154	575,137	682,291
Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg	207,788	-1,213	308,424	8,882	92	8,974
Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig	417,240	10,607	476,505	21,675	-3,000	18,675
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	366,907	39,015	413,770	16,000	835	16,835
Cyfanswm y Dyranriad i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru	18,828,892	1,296,412	20,125,304	536,351	755,174	1,291,525

Tudalen y pecyn 133

Tabl 3.4 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Cyfalaf Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	£000oedd					
	CYFALAF CYFFREDINOL			TRAFODIADAU ARIANNOL		
	2020-21 Cyllideb Atodol Hydref 2020 Wedi'i Hailddatgan Rhagfyr 2020	Newidiadau	2020-21 Cyllideb Atodol Cynlluniau Newydd Chwefror 2021	2020-21 Cyllideb Atodol Hydref 2020 Wedi'i Hailddatgan Rhagfyr 2020	Newidiadau	2020-21 Cyllideb Atodol Cynlluniau Newydd Chwefror 2021
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	407,488	41,225	443,641	0	0	0
Tai a Llywodraeth Leol	615,085	136,795	725,480	150,505	33,837	184,342
Yr Economi a Thrafnidiaeth	637,315	345,390	982,705	85,260	70,650	155,910
Addysg	219,450	180,856	400,306	-195	350	155
Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg	32,767	41,570	78,909	15,746	-15,973	-227
Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig	118,192	10,066	154,658	2,000	-2,000	0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	27,446	-5,809	22,137	1,000	0	1,000
Cyfanswm y Dyranriad i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru	2,057,743	750,093	2,807,836	254,316	86,864	341,180

- 3.2** Darperir trosolwg o'r newidiadau i'r ffynonellau cyllid isod a gellir gweld manylion dyraniadau o gronfeydd wrth gefn yn adran 4.

Addasiadau i Ffynonellau Cyllid

Adnoddau Cyllidol

- 3.3** Cafwyd cynnydd net o £950,759k i linell sylfaen Adnoddau Cyllidol gan gynnwys:

- Symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £2,310,610k y mae £497,557k ohono yn hyblygrwydd ychwanegol y cytunwyd arno i'w gario i 2021/22:
- Trosglwyddiadau o Drysorlys Ei Mawrhydi yn dod i gyfanswm o £136,343k ac yn cynnwys:
 - £97,000k mewn perthynas â cholledion credyd a ddisgwylir;
 - £(39,204)k o ddiwygiad yn addasiad y grant bloc;
 - £40,000k mewn perthynas â chost gwyliau sydd wedi cronni oherwydd pandemig y coronafeirws;
 - £11,855k sef y gweddill sy'n ddyledus mewn perthynas â chyllid taliadau uniongyrchol ar gyfer cymorthdaliadau fferm;
 - £10,000k mewn perthynas â Bargen Ddinesig Caerdydd;
 - £5,000k mewn perthynas â chostau adfer awdurdodau lleol yn sgil llifogydd;
 - £3,807k mewn perthynas â Chronfeydd Strwythurol yr UE;
 - £3,230k mewn perthynas â swm gweddilliol y Gordal Iechyd Mewnfudo ar gyfer 2019-20;
 - £2,597k mewn perthynas â Chronfa Cymunedau'r Arfordir;
 - £1,000k mewn perthynas ag atgyweirio tomenni glo arbennig o agored i niwed;
 - £625k mewn perthynas â Gwasanaethau Cyngor Ariannol;
 - £264k mewn perthynas â'r dreth ar damponau;
 - £145k mewn perthynas ag ad-daliad rheoli arian parod; a
 - £24k mewn perthynas â LIBOR (Ambiwlans Awyr Cymru).

- Trosglwyddiadau net ag adrannau eraill y Llywodraeth y DU sy'n dod i gyfanswm o £4,815k gan gynnwys y trosglwyddiadau o £1m neu ragor:
 - £3,300k oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas ag Addysg i Droseddwyr;
 - £1,832k oddi wrth yr Adran Drafnidiaeth mewn perthynas â Llinellau Craidd y Cymoedd;
 - £1,233k oddi wrth yr Asiantaethau Diogelwch a Chudd-wybodaeth mewn perthynas â Seibergadernid;
 - £1,000k oddi wrth Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) mewn perthynas â chymorth i'r sector pysgodfeydd a bwyd môr;
 - £(1,176)k i'r Swyddfa Gartref mewn perthynas ag adfachu gordaliad ar gyfer y Gordal Iechyd Mewnfudo yn y Prif Amcangyfrifon; a
 - £(1,600)k i'r Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys £(1,000)k mewn perthynas â Meithrin Capasiti Adferiad Gwyrdd y sector eNGO.
- Cyfnewid cyllidebol o £473,000k i Gyfalaf Cyffredinol a £28,000k i Drafodiadau Cyllidol.

Adnoddau Anghyllidol

3.4 Mae'r llinell sylfaen adnoddau anghyllidol wedi cynyddu £846,949k o ganlyniad i symiau canlyniadol Barnett a ddaeth i law adeg yr Amcangyfrifon Atodol. Maent yn cynnwys:

- £795,827k mewn perthynas â Benthyciadau Myfyrwyr a;
- £52,479k mewn perthynas â dibrisiant.

Cyllido Datganoledig Cymru

- 3.5** Mae lefel y gwariant a ariennir gan ardrethi annomestig wedi gostwng £112m i wrthbwysu'r cyfraniadau DEL a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhagolygon ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cynyddu £38,637k gan adlewyrchu cyhoeddi Rhagolygon Trethi Cymru ym mis Rhagfyr gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Yn unol â'r fframwaith cyllidol, nid yw Cyfradd Treth Incwm Cymru yn newid yn ystod y flwyddyn.

Cyfalaf Cyffredinol

- 3.6** Cafwyd cynnydd o £773,345k i'r linell sylfaen cyfalaf cyffredinol gan gynnwys:

- Symiau canlyniadol Barnett sy'n dod i gyfanswm o £137,538k o ganlyniad i Amcangyfrifon Atodol y DU ac mae'n hyblygrwydd ychwanegol i'w gario i 2021/22.
- Trosglwyddiadau o Drysorlys Ei Mawrhydi yn dod i gyfanswm o £1,000k (net) ac yn cynnwys:
 - £17,000k mewn perthynas â chostau adfer awdurdodau lleol yn sgil llifogydd; a
 - £8,000k mewn perthynas ag atgyweirio tomenni glo arbennig o agored i niwed;
 - £(24,000k) mewn perthynas ag ailbroffilio ar gyfer benthyciadau ynni'r sector cyhoeddus a Bargen Twf Gogledd Cymru.
- Trosglwyddiadau net ag adrannau eraill y Llywodraeth y DU sy'n dod i gyfanswm o £167,807k gan gynnwys y trosglwyddiadau o £1m neu ragor:
 - £154,290k oddi wrth yr Adran Drafnidiaeth mewn perthynas â Llinellau Craidd y Cymoedd;
 - £12,476k oddi wrth DCMS mewn perthynas â seilwaith digidol;
 - £4,841k oddi wrth BEIS, gan gynnwys £4,186k mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni; a

- £3,800k i DCMS yn cynnwys £2,300k mewn perthynas â 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur' a £1,300k mewn perthynas â'r Grant Coetiroedd Cymunedol.
- Cyfnewid cyllidebol o £473,000k o'r Adnoddau Cyllidol.

Yn ogystal, mae £40,210k wedi'i dynnu o Gronfa Wrth Gefn Cymru a'i ychwanegu at y llinell sylfaen Cyfalaf Cyffredinol.

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

3.7 Mae'r llinell sylfaen a neilltuwyd ar gyfer cyfalaf trafodiadau wedi cynyddu £52,862 yn cynnwys:

- Symiau canlyniadol o £24,862k a dderbyniwyd o ganlyniad i Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU ac mae hwn yn hyblygrwydd y cytunwyd arno i'w gario i 2021/22;
- Cyfnewid cyllidebol o £28,000k o'r Adnoddau Cyllidol

Yn ogystal, mae £9,790k wedi'i dynnu o Gronfa Wrth Gefn Cymru Cymru ac wedi'i ychwanegu at y llinell sylfaen Trafodiadau Ariannol.

Cyllido AME

3.8 Amlinellir newidiadau i gyllid a gwariant AME ers yr Ail Gyllideb Atodol ym Mhennod 5.

Tabl 3.5 – Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru

CYFANSWM DYRANIADAU MEG 2020-21 yn ôl y GYLLIDEB ATODOL										
£000oedd										
PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	Adnoddau			Cyfalaf			AME			CYFANSWM DYRANIAD MEG
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyffredinol	Trafodiad au Cyllidol	Cyfanswm Cyfalaf	Cyfalaf	Adnoddau	AME Cyfanswm	
Iechyd a Gwasanaethau Cyndeithasol	9,493,029	220,137	9,713,166	443,641	0	443,641	311,019	0	311,019	10,467,826
Tŷ a Llywodraeth Leol	5,103,774	213	5,103,987	725,480	184,342	909,822	717,360	0	717,360	6,731,169
Yr Economi a Trafnidiaeth	2,671,959	344,400	3,016,359	982,705	155,910	1,138,615	48,500	0	48,500	4,203,474
Ardysg	1,657,843	682,291	2,340,134	400,306	155	400,461	-63,176	897,744	834,568	3,575,163
Iechyd Meddwl, Lesiant a'r Gymraeg	308,424	8,974	317,398	78,909	-227	78,682	17,500	0	17,500	413,580
Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig	476,505	18,675	495,180	154,658	0	154,658	0	0	0	649,838
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	413,770	16,835	430,605	22,137	1,000	23,137	2,999	0	2,999	456,741
CYFANSWM Y DYRANIADAU I MEGS LLYWODRAETH	20,125,304	1,291,525	21,416,829	2,807,836	341,180	3,149,016	1,034,202	897,744	1,931,946	26,497,791

CYMRU



Tudalen y pecyn 140

4. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn

4.1 Mae'r gyllideb hon yn cysoni nifer o ddyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt.

Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

4.2 Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £1,317,620k wedi'u gwneud o Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn mewn ymateb i Covid-19 ac mae £96,305k wedi'i ddyrannu fel rhan o becyn adfer yn sgil Covid-19.

Dyraniadau Covid-19:

• Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	£74,700k
• Tai a Llywodraeth Leol	£286,239k
• Yr Economi a Thrafnidiaeth	£799,770k
• Addysg	£83,881k
• Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg	£37,330k
• Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	£4,700k

Pecyn Ail-greu ar ôl Covid 19:

• Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	£17,069k
• Tai a Llywodraeth Leol	£14,138k
• Yr Economi a Thrafnidiaeth	£7,850k
• Addysg	£37,612bn
• Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg	£2,950k
• Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig	£9,575k
• Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	£7,111k

Dylid nodi bod rhywfaint o gyllid sy'n gysylltiedig â Covid a ddyfarnwyd mewn cyllidebau atodol blaenorol wedi'i ddychwelyd i gronfeydd wrth gefn at ddibenion aildrefnu. Mae'r manylion ym mharagraff 4.5 isod.

4.3 Yn ogystal, mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £224,036k wedi'u gwneud i bortffolios o gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys y dyraniadau canlynol o £1m neu ragor:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:
 - £3,230k mewn perthynas â symiau gweddilliol y Gordal Iechyd Mewnfudo sy'n ddyledus ar gyfer 2019-20.

- Tai a Llywodraeth Leol:
 - £5,081k i gefnogi ardrethi annomestig, rhyddhad ardrethi;
 - £4,000k mewn perthynas ag ymateb i lifogydd;
 - £3,239k mewn perthynas â Chronfa Cymunedau'r Arfordir;
 - £3,239k mewn perthynas â Chronfa Bontio'r UE;
 - £1,608k mewn perthynas â cholledion credyd a ddisgwyllir;
 - £1,074k mewn perthynas â cholli incwm; a
 - £1,300k fel cymorth ychwanegol i'r Grant Plant a Chymunedau.

- Yr Economi a Thrafnidiaeth:
 - £82,000k mewn perthynas â cholledion credyd a ddisgwyllir;
 - £53,699k mewn perthynas â phrosiectau sy'n seiliedig ar anghenion yn dilyn atal cyllid yr UE;
 - £7,000k mewn perthynas â datganiad ariannol rhwymedigaethau gwrthbwysu costau tanwydd rheilffyrdd;
 - £5,000k mewn perthynas â Chomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru;
 - £2,081k mewn perthynas â ffyrdd dynesu'r A55 i Borthladd Caergybi y dilyn diwedd cyfnod pontio'r UE;
 - £1,776k o gyllid a ddaeth i law oddi wrth yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gefnogi Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus; a
 - £1,125k mewn perthynas â Dogfen Cychwyn Prosiect yn ymwneud ag argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru.

- Addysg:
 - £4,000k i gefnogi'r gwaith o ariannu prosiectau cynnal a chadw sydd wedi cronni a phrosiectau cyfalaf ar raddfa fach mewn addysg bellach;
 - £3,981k mewn perthynas â chynnydd mewn ysgolion a chyllid chweched dosbarth; a
 - ££3,300k o gyllid a ddaeth i law oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi addysg i droseddwyr yng Ngharchar EM, y Berwyn.

- Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg:
 - £1,950k i gefnogi blaenoriaethau ariannu, sy'n cynnwys £1,450k i Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru a £500k i Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

- Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:
 - £11,855k a ddaeth i law oddi wrth Drysorlys EM mewn perthynas â Chynllun y Taliad Sylfaenol; a
 - £1,500k mewn perthynas â cholledion credyd a ddisgwyllir.

- Gweinyddu Canolog a Gwasanaethau:
 - £5,768k mewn perthynas â dyfarniad cyflog 2020-21;
 - £3,807k o gyllid a ddaeth i law oddi wrth Drysorlys EM mewn perthynas â chronfeydd Strwythurol yr UE;
 - £3,000k mewn perthynas â newid cyfalaf i adnoddau;
 - £2,283k oddi wrth yr Asiantaethau Diogelwch a Chudd-wybodaeth mewn perthynas â Seibergadernid;
 - £1,768k o gyllid i gefnogi Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu; a
 - £1,285k mewn perthynas â recriwtio staff.

4.4 Mae dyraniadau ychwanegol gwerth cyfanswm o £810k wedi'u gwneud o'r Cronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn i'r cyrff a ariennir yn

uniongyrchol oherwydd costau ychwanegol a ysgwyddwyd mewn perthynas â gwyliau sydd wedi cronni o ganlyniad uniongyrchol i bandemig Covid. Mae'r trosglwyddiadau'n cynnwys:

- £650k i Gomisiwn y Senedd; a
- £160k i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

4.5 Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £171,549k wedi'u gwneud i gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn o'r portffolios. Mae hyn yn cynnwys y trosglwyddiadau canlynol o £1m neu ragor:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:
 - £1,176k mewn perthynas ag adfachu gordaliad y Gordal Iechyd Mewnffudo yn ymwneud ag ailgyfrifo rhagolygon ar gyfer 2020-21.
- Tai a Llywodraeth Leol:
 - £2,280k mewn perthynas â Covid-19 at ddibenion aildrefnu.
- Yr Economi a Thrafnidiaeth:
 - £112,000k mewn perthynas â Covid-19 a thanwariant yn achos Ardrethi Annomestig.
- Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg:
 - £42,400k mewn perthynas ag adnodd i newid cyfalaf sy'n ymwneud ag aiddosbarthu ymchwil a datblygu.
- Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:
 - £9,918k mewn perthynas ag incwm ffermydd gwynt sy'n ymwneud â Chyfoeth Naturiol Cymru;
 - £2,415k mewn perthynas â dychwelyd cyllid cydnerthedd Covid-19 a ddyrannwyd ar gyfer dosbarthu bwyd i bobl sy'n gwarchod eu hunain; a

- £1,000k i dalu am y trosglwyddiad i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon mewn perthynas â chyfraniad Llywodraeth Cymru i'r cynllun grant 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur' .

4.6 Yn ogystal, trosglwyddwyd £5k yn ôl i gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn o Archwilio Cymru mewn perthynas â'r gostyngiad mewn costau sy'n gysylltiedig â Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru.

Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

4.7 Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £758,201k wedi'u gwneud i'r MEGs o gronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys y dyraniadau canlynol o £1m neu ragor:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:
 - £34,000k mewn perthynas â gofynion anghyllidol ar gyfer y GIG.
- Yr Economi a Thrafnidiaeth:
 - £114,000k mewn perthynas â dibrisiant ac amhariad y rhwydwaith ffyrdd; a
 - £38,000k mewn perthynas â dibrisiant Rheilffyrdd Craidd Llinellau'r Cymoedd; a
- Addysg:
 - £571,274k mewn perthynas â chymorth benthyciadau i fyfyrwyr.

Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Anghyllidol Wrth Gefn

4.8 Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £3,027k wedi'u gwneud i'r cronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddiad o £3,000k o MEG yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn perthynas â'r gostyngiad yn y gofynion anghyllidol ar gyfer TG.

Dyraniadau o Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

4.9 Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £50,013k wedi'u gwneud o gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn ac mae £138,310k wedi'i ddyrannu fel rhan o becyn adfer yn sgil Covid-19.

Dyraniadau Covid-19:

- Yr Economi a Thrafnidiaeth £28,500k
- Addysg £21,513k

Pecyn Ail-greu ar ôl Covid 19:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol £22,000k
- Tai a Llywodraeth Leol £35,000k
- Yr Economi a Thrafnidiaeth £ 20,500k
- Addysg £39,360k
- Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig £ 20,300k
- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu £1,150k

4.10 Yn ogystal, gwnaed dyraniadau gwerth cyfanswm o £584,053k i bortffolios o gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys y dyraniadau canlynol o £1m neu ragor:

- Tai a Llywodraeth Leol:
 - £36,000k mewn perthynas â Bargen Ddinesig Abertawe;
 - £30,000k mewn perthynas ag adfywio;
 - £17,559k mewn perthynas ag ymateb i lifogydd;
 - £16,000k mewn perthynas â Bargen Twf Gogledd Cymru;
 - £10,500k mewn perthynas â diogelwch adeiladau; a
 - £1,000k o gronfa bontio'r UE.
- Yr Economi a Thrafnidiaeth:
 - £270,000k mewn perthynas â chyllid gwaddol Banc Datblygu Cymru;

- £10,768k mewn perthynas â chyllid a ddaeth i law oddi wrth DCMS ar gyfer Rhwydwaith Ffyrdd Strategol De Cymru (SWSRN);
 - £10,000k mewn perthynas â Banc Datblygu Cymru;
 - £5,115k mewn perthynas â gweithredu argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth Cymru De-ddwyrain Cymru; a
 - £3,010k mewn perthynas â ffyrdd dynesu i Borthladd Caergybi y dilyn diwedd cyfnod pontio'r UE.
- Addysg:
 - £50,000k mewn perthynas â cynnal a chadw cyfalaf;
 - £44,000k mewn perthynas ag ymchwil CCAUC
 - £15,040k i hwyluso caffael tir
 - £6,000k i gefnogi buddsoddiad mewn TG a'r gost i darparwyr o ran trefnu bod cymorth digidol ar gael i ddysgwyr.
 - £4,326k i gefnogi prosiectau sy'n seiliedig ar anghenion yn dilyn lleihau incwm Ewropeaidd; a
 - £1,000k o BEIS mewn perthynas ag enillwyr 'GovTech' yng Nghymru.
 - Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg:
 - £42,400k mewn perthynas ag adnodd i newid cyfalaf sy'n ymwneud ag aiddosbarthu ymchwil a datblygu.
 - Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:
 - £8,000k mewn perthynas â diogelwch adeiladau; a
 - £3,000k mewn perthynas â'r Cynllun Gwella Busnesau Fferm.

Dyraniadau i Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

4.11 Gwnaed trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £22,283k i'r cronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn o'r portffolios. Mae hyn yn cynnwys y trosglwyddiadau canlynol o £1m neu ragor:

- Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:

- £15,000k o incwm benthyciadau; a
- £3,800k i dalu am y trosglwyddiad i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon mewn perthynas â chyfraniad Llywodraeth Cymru i'r cynllun grant cyfalaf 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur' (£2,300k) a chynllun grant cyfalaf y Gronfa Goetir (£1,500k).
- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu:
 - £3,000k mewn perthynas â newid o gyfalaf i adnoddau.

Dyraniadau o'r Cronfeydd Cyfalaf Trafodiadau Ariannol Wrth Gefn

4.12 Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £8,520k wedi'u gwneud o gronfeydd cyfalaf cyffredinol mewn ymateb i Covid-19 ac mae £84,000k yn ychwanegol wedi'i ddyrannu fel rhan o'r pecyn adfer yn sgil Covid-19.

Dyraniadau Covid-19:

- Tai a Llywodraeth Leol £ 520k
- Yr Economi a Thrafnidiaeth £8,000k

Ail-greu ar ôl Covid 19:

- Tai a Llywodraeth Leol £30,000k
- Yr Economi a Thrafnidiaeth £54,000k

4.13 Yn ogystal mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £17,160k wedi'u gwneud i bortffolios o gronfeydd cyfalaf trafodiadau ariannol wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys y dyraniadau canlynol o £1m neu ragor:

- Tai a Llywodraeth Leol:
 - £7,700k mewn perthynas â'r cynllun benthyciad arbed tenantiaeth.
- Yr Economi a Thrafnidiaeth:
 - £8,650k mewn perthynas â benthyciadau i Fanc Datblygu Cymru.

Dyraniadau i'r Cronfeydd Cyfalaf Trafodiadau Ariannol Wrth Gefn

4.14 Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £20,766k wedi'u gwneud i gronfeydd cyfalaf trafodiadau ariannol wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys y trosglwyddiadau canlynol o £1m neu ragor:

- Tai a Llywodraeth Leol:
 - £2,000k yn ymwneud â'r ad-daliad cynnar mewn perthynas â ffordd gyswllt Ynys y Barri.

- Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg:
 - £16,000k mewn perthynas â llithriant mewn datblygiadau.

- Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:
 - £2,000k mewn perthynas â'r Gronfa Twf Gwyrdd.

5. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

- 5.1** Mae'r cyllidebau AME a nodir yn y Drydedd Gyllideb Atodol hon yn adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf a ddarparwyd i Drysorlys Ei Mawrhydi.
- 5.2** Mae'r addasiadau canlynol wedi'u gwneud ers i'r Ail Gyllideb Atodol gael ei chymeradwyo:
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:
 - Cynnydd o £93,352k ar gyfer amhariadau a darpariaethau yn ymwneud â'r GIG yng Nghymru.
 - Tai a Llywodraeth Leol:
 - Gostyngiad o £112,000k i gyllideb rhyddhad ardrethi annomestig i wrthbwysu'r cyllid DEL ychwanegol a ddarparwyd. Gwnaed y dyraniad DEL mewn ymateb i'r gostyngiad disgwylidig yn refferiw NDR i lywodraeth leol o ganlyniad i Covid-19;
 - Cynnydd o £1,665k mewn perthynas â Phensiynau'r Gwasanaeth Tân; a
 - Gostyngiad o £560k mewn perthynas â Chymorth i Brynu, Cymru.
 - Yr Economi a Thrafnidiaeth:
 - Cynnydd o £13,975k mewn perthynas â'r amhariadau ar gyfer seilwaith sy'n gysylltiedig â seilwaith;
 - Cynnydd o £3,000k mewn perthynas â'r ddarpariaeth pensiynau i Gyrrfa Cymru; a
 - Cynnydd o £2,000k mewn perthynas â darpariaethau ar gyfer Trafnidiaeth Cymru.
 - Addysg
 - Cynnydd net o £94,738 i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr, gan gynnwys:
 - Cynnydd o £60,625k mewn adnoddau a

- Cynnydd o £34,113k mewn cyfalaf.
- Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg:
 - Cynnydd mewn darpariaethau pensiwn ar gyfer cyrff a noddir o £12,987k gan gynnwys:
 - £6,609k mewn perthynas ag Amgueddfeydd Cymru;
 - £4,378k mewn perthynas â Llyfrgell Genedlaethol Cymru; a
 - £2,000k mewn perthynas â Chwaraeon Cymru; a
 - Darpariaeth newydd o £1,500k ar gyfer dyledion drwg.
- Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:
 - Gostyngiad o £2,400k mewn perthynas â'r ddarpariaeth pensiynau i Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Tabl 5.1 isod yn nodi'r cyllidebau AME presennol.

Tabl 5.1 – Newidiadau i Ddyraniadau AME MEG Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	£000oedd					
	ADNODDAU			CYFALAF		
	2020-21 Cyllideb Atodol Hydref 2020 Wedi'i Hailddatgan Rhagfyr 2020	Newidiadau	2020-21 Cyllideb Atodol Cynlluniau Newydd Chwefror 2021	2020-21 Cyllideb Atodol Hydref 2020 Wedi'i Hailddatgan Rhagfyr 2020	Newidiadau	2020-21 Cyllideb Atodol Cynlluniau Newydd Chwefror 2021
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	217,667	93,352	311,019	0	0	0
Tai a Llywodraeth Leol	828,255	-110,895	717,360	0	0	0
Yr Economi a Thrafnidiaeth	29,525	18,975	48,500	0	0	0
Addysg	-123,801	60,625	-63,176	863,631	34,113	897,744
Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg	3,013	14,487	17,500	0	0	0
Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig	2,400	-2,400	0	0	0	0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	2,999	0	2,999	0	0	0
Cyfanswm Dyraniad i Lywodraeth Cymru	960,058	74,144	1,034,202	863,631	34,113	897,744

Tudalen y pecyn 152

Atodiad 1 - Y pecyn ail-greu: dadansoddiad yn ôl MEG a maes blaenoriaeth

Darparu cymorth i helpu i leihau diweithdra a rhoi'r cyfle gorau i bawb ddod o hyd i ganfod a chadw gwaith teilwng ac iddo ragolygon hirdymor, gan ychwanegu gwerth at raglen Kickstart Llywodraeth y DU.

Disgrifiad	Refeniw £m	Cyfalaf £m	FTC £m	Cyfanswm £m
Cadw Sgiliau i Gefnogi'r Trydydd Sector	2	0	0	2
Gwasanaethau Cyngor ar Wahaniaethu ar sail Cyflogaeth	0.3	0	0	0.3
Datblygu Partneriaeth Gymdeithasol a Gorfodi Hawliau Gweithwyr	0.2	0	0	0.2
	2.5	0	0	2.5

Sicrhau nad yw ein pobl ifanc ar eu colled yn addysgol nac yn economaidd oherwydd effeithiau Covid nac oherwydd unrhyw ddirywiad economaidd nad oes ganddynt reolaeth drosto.

Disgrifiad	Refeniw £m	Cyfalaf £m	FTC £m	Cyfanswm £m
Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad	5	0	0	5
Cronfa Datblygu Gofal Plant	2	0	0	2
Helpu dysgwyr i gael cymwysterau - cymorth ychwanegol i ysgolion a cholegau	9.5	0	0	9.5
Arolygiaeth Gofal Cymru – Plant sy'n Derbyn Gofal: Atal ac Ymyrryd	0.01	0	0	0.01
Gofal Plant, Chwarae a'r Blynnyddoedd Cynnar - Cymorth refeniw i'r sector gofal plant	3.8	0	0	3.8
Prydau Ysgol am Ddim i ysgolion a cholegau yn ystod y gwyliau (hanner tymor mis Hydref, y Nadolig, hanner tymor Chwefror 2021 a Phasg 2021)	11.68	0	0	11.68
Fframwaith Nodau Gofal, Hyfforddiant ar gyfer Hyfforddiant i Gyfieithwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL) a matrices aeddfedrwydd y Fframwaith Arolygu Addysg (EIF)	0.1	0	0	0.1
Gwasanaethau Cymdeithasol - Diogelu - Grŵp Cyfeirio ar gyfer ymgysylltu ag eiriolaeth plant a phobl ifanc Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig	0.02	0	0	0.02

Cyllid ychwanegol ar gyfer cronfa Dydd Gŵyl Dewi	1	0	0	1
Hyfforddiant arbenigol i ofalwyr maeth ar anghenion cymhleth, plant yn y ddalfa a phlant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches	0.05	0	0	0.05
Arian ychwanegol i fynd i'r afael ag Allgáu Digidol mewn Addysg Bellach	0	4.9	0	4.9
Cyfiawnder Teuluol – lliniaru ôl-groniadau o achosion llys a chefnogi llwybrau i adael gofal	3	0	0	3
Cyfalaf Dechrau'n Deg	0	0.86	0	0.86
Tîm Trawsnewid i leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal	0.07	0	0	0.07
Darpariaeth Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar – costau ychwanegol sy'n wynebu gofal plant a gwasanaethau chwarae. Yn cynnwys cymorth i awdurdodau lleol ar gyfer cyfleusterau chwarae awyr agored.	0	5	0	5
Cynadleddau Grwpiau Teulu – cronfa arian sefydlu	2.2	0	0	2.2
Hyrwyddo sefydlogrwydd teuluol ac ansawdd perthynas	0.8	0	0	0.8
Ymestyn y Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar	0.12	0	0	0.12
Gorchuddion wyneb ar gyfer pob dysgwr mewn ysgol uwchradd a phob dysgwr amser llawn mewn coleg yng Nghymru ar gyfer 2020/21.	2.35	0	0	2.35
Fframwaith Maethu Cenedlaethol	0.32	0	0	0.32
Addysg Bellach - Effaith Covid-19 ar gofrestrïadau addysg bellach	10	0	0	10
Addysg Uwch - cymorth i fyfyrwyr a gwasanaethau iechyd meddwl	10	0	0	10
Seilwaith Addysg	0	30	0	30
	62.04	40.76	0	102.80

Cynyddu'r gwaith o adeiladu tai cyngor a thai cymdeithasol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i gael tai o ansawdd uchel ledled Cymru, gan fuddsoddi mewn tai carbon isel yn enwedig.

Disgrifiad	Refeniw £m	Cyfalaf £m	FTC £m	Cyfanswm £m
Cynyddu'r Rhaglen Ôl-ffitio er mwyn Optimeiddio	0	10	0	10

Y Rhaglen Tai Arloesol	0	10	0	10
Prif Raglen y Grant Tai Cymdeithasol	0	10	0	10
Cronfa Datblygu Eiddo	0	0	15	15
Safleoedd Segur	0	0	15	15
	0	30	30	60

Cynyddu ein buddsoddiad yng nghanol ein trefi i helpu i greu cymunedau gwydn.

Disgrifiad	Refeniw £m	Cyfalaf £m	FTC £m	Cyfanswm £m
Cyflymu'r camau gweithredu ar fioamrywiaeth	2	0	0	2
Cymuned a Gwirfoddoli	4	0.15	0	4.15
Gweithredu'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)	0.7	0	0	0.7
Economi Gylchol – siopau trwsio	5.5	7.7	0	13.2
Cronfa Caffael Safleoedd Strategol mewn Canol Trefi	0	5	0	5
	12.2	12.85	0	25.05

Ymateb yn egnïol i'r argyfwng hinsawdd drwy ddilyn agenda datgarboneiddio gref, rheoli ein tir er budd cymunedau gwledig a chenedlaethau'r dyfodol a diogelu a gwella ein hadnoddau naturiol

Disgrifiad	Refeniw £m	Cyfalaf £m	FTC £m	Cyfanswm £m
Ynni Adnewyddadwy Lleol	0.4	0	0	0.4
Ehangu'r Gronfa Economi Gylchol i awdurdodau lleol a chyrrff a ariennir yn gyhoeddus	0	12.5	0	12.5
Ysgogiad Gwyrdd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru	0.4	0.1	0	0.5
Hybiau Hydrogen Byw'n Glyfar	0.2	0	0	0.2
Fferm Solar Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe	0	2	0	2
Parciau Cenedlaethol Gwydn – adferiad Covid-19 ac ymgysylltu â'r cyhoedd	1.08	0	0	0.6
	1.5	14.7	0	16.2

Manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan y newid mewn patrymau gweithio a theithio, i adeiladu ar gynlluniau treialu trafndiaeth gyhoeddus sy'n ymateb i'r galw, gan weithio gydag undebau llafur, awdurdodau lleol a theithwyr a rhoi pwyslais clir yn ein Strategaeth Drafnidiaeth newydd.

Disgrifiad	Refeniw £m	Cyfalaf £m	FTC £m	Cyfanswm £m
Diwygio Gwasanaethau Bysiau - Ymyriadau amrywiol ynghylch diwygio bysiau gan gynnwys gwerthuso a chyflwyno cynlluniau treialu cyfredol	6.5	0	0	6.5
Datgarboneiddio Trafnidiaeth - Caffael adnoddau allanol ychwanegol i gynghori a chefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaethau, cynlluniau a rhaglenni i ddatgarboneiddio trafndiaeth	0.2	0	0	0.2
Parthau 20 mya – Bwrw ymlaen â chyflwyno cynlluniau peilot 20mya ledled Cymru, dechrau ymgynghori ar newid deddfwriaethol, a datblygu strategaeth ymgyrchu	0.4	0.5	0	0.9
	7.1	0.5	0	7.6

Cefnogi twf ac annibyniaeth busnesau sydd â'u pencadlys yng Nghymru er mwyn meithrin gwydnwch economi Cymru yn wyneb Covid-19 a diwedd Cyfnod Pontio'r UE.

Disgrifiad	Refeniw £m	Cyfalaf £m	FTC £m	Cyfanswm £m
Band Eang Cyflym Iawn	0.75	0	0	0.75
Cyfalafu'r Gronfa Buddsoddi Hyblyg	0	0	30	30
Cyfalafu Cronfa Buddsoddi Twristiaeth Cymru	0	0	24	24
Rhwydwaith Ffyrdd Strategol	0	20	0	20
	0.75	20	54	74.75

Helpu'r GIG i ennill tir o ran trin cyflyrau nad ydynt yn gysylltiedig â Covid.

Disgrifiad	Refeniw £m	Cyfalaf £m	FTC £m	Cyfanswm £m
Gofal Sylfaenol Cyfalaf - ystod o gyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol integredig penodol	0	7	0	7
Gofal Sylfaenol a Chymunedol - Adnodd cynllunio Gofal Sylfaenol i gefnogi datblygiadau cyfalaf	0.28	0	0	0.28
Sêr Cymru 3	0	1.6	0	1.6
Cymorth Iechyd Meddwl / Camddefnyddio Sylweddau	2.95	0	0	2.95
Cyllid Cymorth i Gynllun Adfer y GIG	4	10	0	14

	7.23	18.6	0	25.83
--	-------------	-------------	----------	--------------

Ariannu ymyriadau sy'n canolbwyntio'n benodol ar gydraddoldebau.				
Disgrifiad	Refeniw £m	Cyfalaf £m	FTC £m	Cyfanswm £m
Trais yn Erbyn Menywod a Chamdrin Domestig a Thrais Rhywiol: Ymateb Cyfalaf Covid-19	0	1	0	1
Cronfa Ymateb Covid-19 Sefydliadau Pobl Anabl ac Adroddiad ar yr Effaith ar Anabledd	0.23	0	0	0.23
Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol	0.04	0	0	0.04
Glasbrintiau ar gyfer Menywod sy'n Troseddu a Chyfiawnder Ieuenctid	0.19	0	0	0.19
Cydraddoldeb Hiliol – Gweithredu mewn Ymateb i effaith Covid-19	0.35	0	0	0.35
Cronfa Ymyriadau i ddargyfeirio achosion yn ddiogel oddi wrth y Gofrest Amddiffyn Plant	1.6	0	0	1.6
	2.41	1	0	3.41

Atodiad 2 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb

Mae'r Nodyn Esboniadol yn ategu Cynnig y Gyllideb Atodol, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon, sy'n nodi'r newidiadau i'r adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio yn 2020-21 a'r arian parod y mae'n ceisio awdurdod i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r tablau yn y nodyn hwn yn defnyddio cyfansymiau rheoli Trysorlys Ei Mawrhydi ac yn cyd-fynd â Thablau'r BEL. Er hynny, mae'r ffigurau yng Nghynnig y Gyllideb Atodol yn cyd-fynd â'r Datganiad o Alldro Adnoddau a ddefnyddir yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru ac sy'n cael ei baratoi ar sail ychydig yn wahanol.

Mae cyllideb weinyddol Llywodraeth Cymru yn cynnwys eitemau nad ydynt yn sgorio fel rhan o'r 'Adnoddau sy'n Ofynnol' gan Weinidogion Cymru. Mae'r Atodiad hwn yn darparu cysoniad rhwng y ddau yn ôl pob portffolio.

CYLLIDEB ATODOL 2020-21								
£000oedd								
	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Tai a Llywodraeth Leol	Yr Economi a Thrafnidiaeth	Addysg	Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg	Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig	Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	CYFANSWM
Adnoddau	9,713,166	5,103,987	3,016,359	2,340,134	317,398	495,180	430,605	21,416,829
Cyfalaf	443,641	909,822	1,138,615	400,461	78,682	154,658	23,137	3,149,016
AME Adnoddau	311,019	717,360	48,500	-63,176	17,500	0	2,999	1,034,202
AME Cyfalaf	0	0	0	897,744	0	0	0	897,744
CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR	10,467,826	6,731,169	4,203,474	3,575,163	413,580	649,838	456,741	26,497,791
Cysoni ag Adnoddau								
Defnyddio Adnoddau – Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru	-230	-180		-305		-10,000		-10,715
Benthyca â Chymorth		-88,800	771					-88,029
Costau Casglu Derbyniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol	-906							-906
Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy (a'r Costau Casglu)		-697,172						-697,172
Taliadau Llog ar Fenthyciadau							-2,474	-2,474
Y Fenter Cyllid Preifat			-8,982					-8,982
Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru							-765	-765
ADNODDAU Y GWNAED CAIS AMDANYNT	10,466,690	5,945,017	4,195,263	3,574,858	413,580	639,838	453,502	25,688,748

Atodiad 3 – Geirfa

Cam gweithredu	O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu.
Cwmpasoedd	Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae Disgrifiadau o'r Cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng Nghynigion y Gyllideb Blynyddol a'r Gyllideb Atodol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant (MEG).
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)	Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlfwyddyn yn yr un ffordd â'r Terfyn Gwariant Adrannol (DEL), ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys Ei Mawrhydi. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME), fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw; er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr.
Cynnig y Gyllideb	Y dull a ddefnyddir gan Senedd Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru.
Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)	O fewn pob Cam Gweithredu, dyrennir cyllidebau i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL). Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y BEL ar gael yn: https://llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru
Cyfalaf	Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae gan gyllidebau Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) a Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf a reffeniw.

Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)	Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi mewn Adolygiadau o Wariant.
Dibrisiant	Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darford. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ond eitem DEL adnoddau anghyllidol ydyw.
Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu'n uniongyrchol ac felly nad yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y taliadau a godir yn uniongyrchol mae taliad cydnabyddiaeth y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.
Trafodiadau Ariannol	Dim ond at ddibenion benthyciadau ac ecwiti y gellir defnyddio trafodiadau ariannol. Hefyd mae'n rhaid ad-dalu cyfran o'r cyllid i'r Trysorlys EM.
DEL Adnoddau Cyllidol (y cyfeirir ato weithiau fel referniw)	Mae Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Adnoddau Cyllidol yn sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran. Cofnodir gwariant ar sail cronadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau cyfredol a chymorthdaliadau.
Prif Grŵp Gwariant (MEG)	Caiff Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant (MEG). Ceir 7 MEG ar hyn o bryd: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Tai a Llywodraeth Leol; Yr Economi a Thrafnidiaeth; Addysg; Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg; Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.
DEL Adnoddau Anghyllidol (y cyfeirir ato weithiau fel referniw 'nad ydyw'n arian parod')	Mae'r gyllideb Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Adnoddau Anghyllidol yn sgorio gwariant cyfredol yr adran mewn perthynas â dibrisiant ac amhariadau benthyciadau i fyfyrwyr. Mae DEL Adnoddau Anghyllidol wedi'i glustnodi ac ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant DEL adnoddau cyllidol.
Derbyniadau	Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol.

Cyllidebu adnoddau	Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllidebu adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd.
Adolygiad o Wariant	O bryd i'w gilydd mae Trysorlys EM yn adolygu gwariant pob un o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng Fformiwla Barnett, sef y dull a ddefnyddir i gyfrifo'r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu'r newidiadau yn lefelau'r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	Cyfanswm Rheoli gan Drysorlys Ei Mawrhydi yw hwn sy'n cynnwys cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol ynghyd â Gwariant a Reolir yn Flynyddol.
Cronfa Gyfunol Cymru	Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU.
CNLC	Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/RE/0465/21

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

1 Chwefror 2021

Annwyl Llŷr,

Ysgrifennais atoch yn flaenorol i gadarnhau fy mwriad i gyhoeddi trydedd gyllideb atodol ar gyfer 2020-21 ar 9 Chwefror. Roeddwn wedi disgwyl y byddwn yn cael cadarnhad gan Lywodraeth y DU ynghylch ein setliad terfynol ar gyfer 2020-21 mewn da bryd i baratoi'r drydedd gyllideb atodol erbyn y dyddiad hwn. Fodd bynnag, nid wyf wedi cael yr wybodaeth honno, ac ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, nid oes unrhyw ymrwymiad cadarn o ran pryd y bydd hynny'n digwydd.

Mae'n destun siom nad yw Llywodraeth y DU wedi gallu cadarnhau newidiadau i'r gyllideb ar gyfer Cymru, nac ychwaith hyd yn hyn wedi gallu cynnig cadarnhad o ran unrhyw un o'r elfennau hyblyg ychwanegol y gofynnwyd amdanynt. Oherwydd yr amgylchiadau hyn, yn anffodus ni fyddaf yn gallu paratoi'r drydedd gyllideb a'i chyhoeddi ar 9 Chwefror. Fy mwriad yw ei chyhoeddi erbyn 16 Chwefror fan bellaf, gan gynnig y cynnig ar gyfer y gyllideb atodol ar 9 Mawrth. Er y byddai hyn yn caniatáu ar gyfer y tair wythnos sy'n ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog, byddaf yn gwneud pob ymdrech i gyhoeddi'r gyllideb atodol cyn 16 Chwefror er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i'r Pwyllgor graffu arni. Rwy'n deall bod y mater hwn wedi effeithio hefyd ar waith y llywodraethau datganoledig eraill o ran adolygu eu cyllidebau a'u hamserlenni hwythau.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-RE-0360-20

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

10 Chwefror 2021

Annwyl Llyr,

Roeddwn am roi gwybod i'r Pwyllgor fod Trysorlys ei Mawrhydi wedi cymeradwyo blaenswm o hyd at £3.8bn o Gronfa Hapddigwyddiadau'r DU i Swyddfa Cymru yn ddiweddar. Bydd y blaendaliad hwn yn galluogi Ysgrifennydd Gwladol Cymru i fodloni'r rhagolwg o ran y gofynion arian parod Llywodraeth Cymru cyn i Senedd y DU gymeradwyo Amcangyfrifon Atodol 2020-21 a ddisgwylir ym mis Mawrth.

Mewn amgylchiadau tebyg i'r blaendaliad a oedd yn ofynnol ym mis Gorffennaf 2020, o ganlyniad i'r gwariant ychwanegol digynsail sydd wedi digwydd mewn ymateb i bandemig y coronafeirws, nid yw terfyn yr arian parod a awdurdodwyd gan y Prif Amcangyfrifon 2020-21 ym mis Gorffennaf yn ddigon i gwmpasu'r arian parod sydd ei angen cyn i'r Amcangyfrif Atodol gael ei gymeradwyo ym mis Mawrth. Gan nad oes gennym reolaeth dros yr amserlen gymeradwyo honno, rydym wedi gofyn am flaendaliad ar gyfer yr amcangyfrif uchaf o ran y gofyniad arian parod.

Mae'r Gronfa Hapddigwyddiadau yn weithdrefn safonol yn y DU i gael gafael ar arian i fodloni'r angen tymor byr cyn i'r Amcangyfrif Atodol gael ei gymeradwyo a chaiff ei ad-dalu unwaith y caiff yr Amcangyfrif Atodol ei gymeradwyo. Bydd Swyddfa Cymru yn rhoi cyfrif am y blaendaliad a'r ad-daliad.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i chi. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Archwilydd Cyffredinol Cymru er gwybodaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 164
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Cynllun Ffioedd 2021-22

Chwefror 2021

Cynllun ffioedd yw hwn a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Gosodir y cynllun ffioedd hwn gerbron y Senedd o dan adran 24(4)(c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

© Swyddfa Archwilio Cymru 2021



Adrian Crompton

Archwilydd
Cyffredinol Cymru



Lindsay Foyster

Cadeirydd, Swyddfa
Archwilio Cymru

Cynnwys

Trosolwg	4
Cyflwyniad	4
Cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd	4
Codi ffioedd	8
Atodiadau	10
1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24	10
2 Rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd oddi tanynt ac y mae'n rhaid iddi wneud	12
3 Graddfeydd ffioedd o 1 Ebrill 2021	14

Cyflwyniad

Cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd

- 1 Paratowyd y Cynllun Ffioedd hwn o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf) (**Atodiad 1**). Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd, mae'r Cynllun Ffioedd yn darparu'r sail ar gyfer codi ffioedd.
- 2 Fel y nodir yn ein [hymgyngoriad](#) ar ffioedd arfaethedig ym mis Tachwedd 2020, mae'r Bwrdd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn parhau i fod yn benderfynol i gadw ffioedd archwilio fel y maent, gan sicrhau bod ansawdd ein harchwiliad yn parhau i fodloni safonau trwyadl.
- 3 Yn Archwilio Cymru, rydym yn ymwybodol iawn o'r effaith y mae'r pandemig byd-eang COVID-19 yn ei chael ar ein gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn ymateb i hynny drwy leihau ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru yn 2021-22 a chadw ein cyfraddau ffioedd a'n graddfeydd ffioedd ar y lefelau a bennwyd ar gyfer 2020-21.
- 4 Mae mwyafrif y gwasanaethau cyhoeddus wedi gweld gostyngiadau mewn termau real yn eu ffioedd archwilio yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac eithrio pan fo amgylchiadau lleol wedi cyfiawnhau fel arall. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i leihau ffioedd pan fo hynny'n bosibl trwy arbedion archwilio a chadw ein costau gweithredu fel y maent. Bydd ein Cyfarwyddwyr Ymgysylltu yn trafod y ffioedd sy'n benodol i archwiliadau gyda phob corff wrth nesáu at y flwyddyn archwilio nesaf.
- 5 Rydym hefyd yn bwriadu parhau i ddarparu mynediad am ddim i'r Fenter Twyll Genedlaethol gyda chostau'n cael eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru.
- 6 Mae'r Cynllun Ffioedd hwn yn adlewyrchu ein Hamcangyfrif cymeradwy ar gyfer 2021-22 ac mae'n nodi:
 - y deddfiadau yr ydym yn codi ffioedd archwilio oddi tanynt.
 - y trefniadau ar gyfer pennu'r ffioedd hynny, sy'n cynnwys naill ai:
 - graddfeydd ffioedd sy'n nodi ystodau ffioedd ar gyfer meysydd penodol o waith archwilio mewn llywodraeth leol; neu
 - gyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith nas cwmpesir gan raddfeydd ffioedd.

- 7 Yn fras, ariennir 65% o'n gwariant drwy ffioedd a godir ar gyrff archwiliedig. Daw'r 35% sy'n weddill o Gronfa Gyfunol Cymru drwy'r cynnig cyllidebol a basiwyd gan y Senedd.
- 8 Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol na fydd y ffioedd a godir gennym yn fwy na'r gost lawn o arfer y swyddogaeth y mae'r ffi yn ymwneud â hi. Rydym yn pennu ein ffioedd archwilio ar sail ein hamcangyfrif o'r sylfaen gostau, yr amcangyfrif o'r cymysgedd sgiliau ar gyfer gwaith archwilio a'r amcangyfrif o nifer y diwrnodau y bydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Nid ydym ac ni chawn wneud elw ar ein gwaith. Mae ein cyfraddau ffioedd wedi eu pennu ar lefel er mwyn adennill yr amcangyfrif o'r gost lawn, ond dim mwy.
- 9 Ceir tensiwn rhwng rhoi ffi ymlaen llaw i gyrff archwiliedig am y gwaith sydd i'w wneud ar archwiliadau penodol a chael trefn ddigon hyblyg sy'n cydnabod bod amrywiannau'n anochel. Rydym yn pennu ein ffioedd archwilio ar sail yr amcangyfrif o'n gwariant, yr amcangyfrif o'r cymysgedd sgiliau a'r amcangyfrif o nifer y diwrnodau y bydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Pan fydd y gwaith gofynnol yn sylweddol uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol, o ganlyniad i gymhlethdodau yn ystod yr archwiliad, efallai y byddwn yn codi ffi uwch, fel y caniateir gan ddeddfwriaeth.
- 10 Aethom y tu hwnt i'r gofynion ymgynghori statudol ar ffioedd ac, ym mis Tachwedd 2020, fe wnaethom ymgynghori â'r holl gyrff archwiliedig a rhanddeiliaid eraill ar ein cyfraddau ffioedd a'n graddfeydd ffioedd arfaethedig ar gyfer 2021-22.
- 11 Ymgynghorwyd â chyfanswm o 82 o wahanol gyrff. Pedwar ymateb yn unig a gawsom, sy'n awgrymu nad yw ein ffioedd yn destun pryder sylweddol i fwyafrif y cyrff. Dywedodd yr ymatebion a gafwyd wrthym fod cyrff archwiliedig:
 - yn gwerthfawrogi dull pragmatig a hyblyg ein timau archwilio yn ystod y flwyddyn anodd hon;
 - yn croesawu'r cynnig i beidio â chynyddu ein cyfraddau ffioedd ar gyfer 2021-22 ac i ddarparu mynediad am ddim i'r Fenter Twyll Genedlaethol;
 - yn gofyn na fydd ein hymrwymiad i gadw costau gweithredu fel y maent yn dod ar draul ansawdd yr archwiliad;
 - yn mynegi rhywfaint o bryder y byddai ffioedd archwilio yn cynyddu mewn ymateb i'r cynnydd sylweddol mewn gwariant a gafwyd mewn ymateb i'r pandemig COVID;
 - yn dymuno cael dadansoddiad manwl o'u ffioedd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r amser sydd ei angen ar gyfer yr archwiliad; ac
 - yn nodi nad oedd yr ymgynghoriad yn cyfeirio at feincnodi gwybodaeth a fyddai, yn eu barn nhw, yn eu galluogi i asesu gwerth am arian ein ffioedd archwilio yn well.

- 12 Nid yw ein cyfraddau ffioedd arfaethedig ar gyfer 2021-22 wedi newid ers y flwyddyn bresennol ac fe'u nodir yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: Cyfraddau Ffioedd Arfaethedig 2021-22

Gradd	Cyfradd (£ yr awr) 2021-22	Cyfradd (£ yr awr) 2020-21
Cyfarwyddwr Ymgysylltu	162	162
Rheolwr Archwilio	119	119
Arweinydd Archwilio	96	96
Uwch Archwilydd	77	77
Archwilydd	59	59
Hyfforddai graddedig	48	48
Prentis	37	37

- 13 Mae'n ofynnol i ni ragnodi graddfeydd ffioedd ar gyfer:
- gwaith sy'n ymwneud ag archwilio cyrff llywodraeth leol;
 - gwaith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009¹; a
 - gwaith paru data (Y Fenter Twyll Genedlaethol).
- 14 Darperir graddfeydd ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon ariannol 2020-21 ac archwiliadau gwybodaeth gwelliant 2021-22 ac asesiadau gwelliant yn **Atodiad 3** mewn cysylltiad â gwaith a wnaed mewn awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstablaid, cynghorau tref a chymuned a chronfeydd pensiwn llywodraeth leol. Darperir graddfa ffioedd ar wahân i ymwneud â'r Fenter Twyll Genedlaethol.
- 15 Ffordd o reoleiddio cost archwiliadau cyhoeddus yw graddfeydd ffioedd, trwy bennu terfynau ac adolygu ffioedd o'u cymharu â'r terfynau hynny. Mae graddfeydd ffioedd yn darparu fframwaith hefyd fel y gall archwilwyr asesu faint o waith archwilio blynyddol sydd ei angen a'r ffi i'w chodi am y gwaith hwnnw mewn corff archwiliedig penodol.

1 Bydd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn cael ei ddiddymu pan fydd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn cael Cydsyniad Brenhinol ac y bydd darpariaethau perthnasol yn dechrau. Mae'n ymddangos yn debygol y bydd darpariaethau ffioedd Mesur 2009 yn parhau mewn grym mewn cysylltiad â 2021-22.

- 16 Cyfrifir amcangyfrif ffioedd archwilio cyrff archwiliedig nas cwmpesir gan y gofyniad statudol am raddfa ffioedd yn yr un modd â'r rhai a gwmpesir ganddo – hynny yw, trwy gymhwysu'r cyfraddau ffioedd a gyhoeddir yn y Cynllun Ffioedd hwn i'r amcangyfrif o'r cymysgedd tîm a nifer yr oriau sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni'r archwiliad.
- 17 Mae archwilwyr yn gwneud gwaith ardystio grantiau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae faint o waith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau sy'n destun archwiliad a nifer y cyrff archwiliedig sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Cyfrifir costau'r gwaith hwn trwy ddefnyddio'r cyfraddau ffioedd a gan adlewyrchu maint, cymhlethdod neu unrhyw faterion penodol mewn cysylltiad â'r grant dan sylw.
- 18 Mae'r cyfraddau ffioedd yn berthnasol i'r holl waith archwilio ac eithrio i'r graddau y mae'r graddfeydd ffioedd, pan fo'n berthnasol, yn rheoleiddio'r swm sydd i'w godi (neu yn achos gwaith a wneir o dan gytundebau a wnaed cyn 1 Ebrill 2014, mae'r cyfraddau mewn termau y cytunwyd arnynt). Os yw'n ymddangos wedyn fod y gwaith sy'n gysylltiedig ag archwiliad penodol yn wahanol iawn i'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, mae'n bosib y byddwn yn codi ffi sy'n wahanol i'r hyn a hysbyswyd yn wreiddiol.
- 19 Yn achos y gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol eraill a ddarperir, codir ffioedd yn unol â'r cytundeb perthnasol, ar yr amod nad yw symiau o'r fath yn fwy na'r gost lawn o ddarparu'r gwasanaeth.
- 20 Er mwyn cyflawni cyfrifoldebau statudol mae angen i archwilwyr wneud gwaith sy'n mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau cyffredinol weithiau. Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliad eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith ychwanegol mewn cysylltiad â chwestiynau a gwrthwynebiad gan etholwyr, ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd costau y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith sydd ei angen.
- 21 Pan fo angen cymorth arbenigol neu gyngor cyfreithiol neu broffesiynol arall, bydd y tâl am hyn yn cael ei godi ar gyrrff archwiliedig yn ychwanegol at gost ein staff archwilio.

Codi ffioedd

- 22 Bydd Cyfarwyddwr Ymgysylltu pob corff yn esbonio'r cymysgedd sgiliau sydd ei angen ar gyfer yr archwiliad a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y ffi gyffredinol. Cytunir ar drefniadau codi tâl gyda chyrrff archwiliedig, a gallent gwmpasu taliadau untro, cyfnodol, rheolaidd neu flynyddol, fel y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau.
- 23 Disgwylir i gyrff archwiliedig dalu ein hanfonebau o fewn eu targed perfformiad ar gyfer taliadau credydwr, sef deng niwrnod fel arfer. Mae'n bosibl y byddwn yn codi tâl am y costau gweinyddol a ysgwyddir wrth fynd ar drywydd taliadau hwyr.
- 24 Os bydd angen hynny ar gyrff archwiliedig, dylid codi archeb brynu am y ffi archwilio y cytunwyd arni cyn anfon anfonebau.
- 25 Ar ôl cwblhau aseiniadau archwilio, byddwn yn asesu'r costau gwirioneddol a ysgwyddwyd wrth ymgymryd â'r aseiniad o'u cymharu â'r ffi a godwyd. Byddwn yn ad-dalu unrhyw ffi ormodol sy'n fwy na'r gost ac, i'r gwrthwyneb, mae'n bosibl y byddwn yn codi costau ychwanegol pan fydd y ffi yn rhy isel. Byddwn yn prosesu ad-daliadau a thaliadau ychwanegol mewn modd sy'n ceisio lleihau costau gweinyddol, megis trwy wrthbwysio ffioedd yn erbyn ffioedd yn y dyfodol neu ffioedd am agweddau eraill ar weithgareddau archwilio.



Atodiadau

- 1 **Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24**
- 2 **Rhestr o’r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd oddi tanynt ac y mae’n rhaid iddi wneud**
- 3 **Graddfeydd ffioedd o Ebrill 2021**



Atodiad 1 – Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24

- (1) Rhaid i SAC baratoi cynllun sy'n ymwneud â chodi ffioedd gan SAC.
- (2) Rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol:
 - (a) rhestr o'r deddfiadau y caiff SAC godi ffi odanynt;
 - (b) pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i SAC ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, y raddfa honno neu'r graddfeydd hynny;
 - (c) pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i SAC ragnodi swm i'w godi, y swm hwnnw;
 - (d) pan nad oes darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, na rhagnodi swm, y modd y bydd SAC yn cyfrifo'r ffi a godir.
- (3) Caiff y cynllun wneud y canlynol ymysg pethau eraill:
 - (a) cynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddsbarthau ar achosion gwahanol, a
 - (b) darparu ar gyfer yr adegau a'r modd y bydd taliadau yn cael eu gwneud.

- (4) O ran y cynllun:
 - (a) rhaid i SAC ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr,
 - (b) caiff SAC ei ddiwygio neu ei ail-wneud ar unrhyw adeg, ac
 - (c) rhaid i SAC ei osod (a gosod unrhyw ddiwygiad iddo) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol^[2].
- (5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd o dan:
 - (a) adran 64F o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ffioedd am baru data), neu
 - (b) adran 27A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd), i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan SAC, rhaid i SAC ddiwygio'r cynllun i gynnwys y raddfa neu'r graddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru yn lle'r rhai a ragnodwyd gan SAC.
- (6) Nid oes rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol os mai diwygiad a wneir yn unol ag isadran (5) yw'r unig ddiwygiad i gynllun.
- (7) Bydd y cynllun yn cael effaith pan fydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol neu, yn achos diwygiad a wneir yn unol ag isadran (5), unwaith y bydd wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad.
- (8) Rhaid i SAC gyhoeddi'r cynllun (ac unrhyw ddiwygiad iddo) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi iddo gael effaith.

2 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli yn cyfeirio at y 'Cynulliad Cenedlaethol' er i'r enw newid i 'Y Senedd'.



Atodiad 2 – Rhestr o’r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd oddi tanynt ac y mae’n rhaid iddi wneud

Natur y gwaith	Deddfiadau
Caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol	
Archwiliad o gyfrifon gan yr Archwilydd Cyffredinol (ac eithrio cyfrifon llywodraeth leol).	Adran 23(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
Astudiaethau gwerth am arian a gynhelir drwy gytundeb (ac eithrio sefydliadau addysgol a chyrrff llywodraeth leol—gweler isod).	Adran 23(3)(a), (b) a (c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
Ymchwiliad, ardystiad neu adroddiad o dan adran 31 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 mewn cysylltiad â Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru.	Adran 23 (3) (ba) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2013

Natur y gwaith	Deddfiadau
Ymchwiliad o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) (ymchwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy).	Adran 23(3)(ca) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
Unrhyw swyddogaethau sydd gan awdurdod perthnasol a arferir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol ac a gyflawnir drwy gytundeb, ac unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol sydd i'w darparu gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy drefniant o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.	Adran 23(3)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
Archwiliad eithriadol o gyfrifon corff llywodraeth leol.	Adran 37(8) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004
Cyngor a chymorth a ddarperir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.	Adran 145D(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998
Mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfeydd ffioedd ar gyfer y gweithgareddau canlynol	
Archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol	Adran 20(A1)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004
Cymorth i Brif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant Cymru	Adran 41A(6) o Ddeddf Addysg 1997
Astudiaethau sy'n ymwneud â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (cymdeithasau tai)	Adran 145C(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998
Astudiaethau ar gais cyrff llywodraeth leol	Adran 20(A1)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004
Astudiaethau gweinyddu budd-daliadau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol	Adran 45(7) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004
Gwasanaethau ardystio grantiau.	Adran 23(4)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
Astudiaethau ar gais cyrff addysgol	Adran 23(4)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Atodiad 3 – Graddfeydd ffioedd o Ebrill 2021

Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wnaed o dan y Fenter Twyll Genedlaethol

Mae'n ofynnol i ni ymgynghori ar raddfeydd ffioedd ar gyfer paru data am gyfranogwyr gorfodol yn y Fenter Twyll Genedlaethol, a rhagnodi'r graddfeydd hynny. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol gan ddefnyddio ei bwerau paru data statudol o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau a thrafodiadau a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi bod yn offeryn effeithiol iawn wrth ganfod ac atal twyll a gordaliadau. Nododd ein hadroddiad dwyflynyddol diwethaf arbedion a gordaliadau posibl o £8 miliwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy'n cynyddu'r arbedion cronus i £42.9 miliwn ers 1996.

Ers mis Ebrill 2015, mae'r Senedd wedi talu costau rhedeg y Fenter Twyll Genedlaethol trwy daliad o Gronfa Gyfunol Cymru. Bwriad hyn yw annog sefydliadau i gymryd rhan yn wirfoddol a symleiddio'r trefniadau ar gyfer cyfranogwyr gorfodol. Fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, dangosir y ffioedd ar gyfer cyfranogwyr gorfodol yn **Arddangosyn 2**.

Arddangosyn 2: Ffioedd y Fenter Twyll Genedlaethol**Ffi 2021-22**

Awdurdod unedol; comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabiliaid; awdurdodau tân ac achub; ymddiriedolaethau'r GIG; byrddau iechyd lleol. Nil

Cyfranogwyr gwirfoddol Nil

Hefyd, gellir rhoi mynediad i'r holl gyfranogwyr at wiriwr ceisiadau'r Fenter Twyll Cenedlaethol (App Check). Nil


Graddfeydd ffioedd ar gyfer awdurdodau unedol**Arddangosyn 3: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2020-21**

Gwariant Gros	Amrediad ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol
	Minimum £'000	Median £'000	Maximum £'000	Median £'000
£ miliwn	Isafswm	133	153	133
£ '000	Canolrif	161	185	161
£ '000	Uchafswm	179	206	179
£ '000	Canolrif	193	222	193
£ '000	174	205	236	205
600	183	215	247	215
700	190	224	258	224
800	197	232	267	232
900	204	240	276	240
1,000	209	246	283	246
1,100	215	253	291	253
1,200	220	259	297	259

Arddangosyn 4: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2021-22

Pob awdurdod unedol	Amrediad ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
	93	101	112	101

Arddangosyn 5: graff o gyfanswm graddfa ffioedd ar gyfer awdurdodau unedol



Graddfeydd ffioedd ar gyfer cronfeydd pensiwn llywodraeth leol

Arddangosyn 6: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2020-21

Pob cronfa pensiwn	Amrediad ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
	30	41	48	41

Graddfeydd ffioedd ar gyfer awdurdodau tân ac achub


Arddangosyn 7: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2020-21

Gwariant Gros £ miliwn	Amrediad ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
20	33	39	45	39
40	40	47	54	47
60	45	52	60	52
80	48	57	65	57
100	51	60	69	60

Arddangosyn 8: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2021-22

Pob awdurdod tân ac achub	Amrediad ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
	16	16	16	16

Arddangosyn 9: graff o gyfanswm graddfa'r ffioedd ar gyfer awdurdodau tân ac achub



Graddfeydd ffioedd ar gyfer awdurdodau parciau cenedlaethol

Arddangosyn 10: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2020-21

Gwariant Gros £ miliwn	Amrediad ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol	
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000	
2	21	24	28	24	
4	25	29	34	29	
6	28	32	37	32	
8	30	35	40	35	
10	32	37	43	37	

Arddangosyn 11: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2021-22

Pob awdurdod parc cenedlaethol	Amrediad ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol	
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000	
	14	17	19	17	


Graddfeydd ffioedd ar gyfer comisiynwyr heddlu a throseddu

Mae archwilwyr yn cynnal archwiliadau o ddau gorff statudol mewn ardal heddlu – y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstablaid. Mater i archwilwyr benderfynu arno fydd rhannu cyfanswm y ffi rhwng y ddau gorff mewn ardal heddlu benodol, ar sail gofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredu a roddwyd ar waith gan y cyrff.

Arddangosyn 12: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2020-21

Gwariant Gros Cyfunol Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstablaid £ miliwn	Amrediad ffioedd cyfunol ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstablaid			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
50	54	64	74	64
100	65	76	88	76
150	72	85	97	85
200	77	91	105	91
250	81	96	111	96
300	85	101	116	101
350	89	105	121	105

Arddangosyn 13: graff o gyfanswm graddfa ffioedd comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabiaid



Graddfeydd ffioedd ar gyfer cyngorau tref a chymuned sydd ag incwm neu wariant blynyddol o dan £2.5 miliwn

Mae cyngorau tref a chymuned yng Nghymru yn ddarostyngedig i drefn archwilio sicrwydd cyfyngedig.

Ym mis Ionawr 2020, ymgyngorodd yr Archwilydd Cyffredinol ar drefniadau archwilio newydd i'w cymhwyso i archwiliadau 2020-21. Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol bapur yn nodi'r newidiadau a wneir i'r trefniadau archwilio o 2020-21 ymlaen, pan fydd archwiliadau'n cael eu cynnal ar gylch tair blynedd fel y nodir yn **Arddangosyn 13**.

Arddangosyn 13 – Cylch archwilio tair blynedd ar gyfer cyngorau tref a chymuned

	Grŵp A	Grŵp B	Grŵp C
Blwyddyn 1	Profi trafodiadau	Gweithdrefnau cyfyngedig	Gweithdrefnau cyfyngedig
Blwyddyn 2	Gweithdrefnau cyfyngedig	Profi trafodiadau	Gweithdrefnau cyfyngedig
Blwyddyn 3	Gweithdrefnau cyfyngedig	Gweithdrefnau cyfyngedig	Profi trafodiadau

Geilir y costau am y gwaith hwn ar yr amser a gymerir i gwblhau'r archwiliad ar gostau cyfradd ffioedd fel y nodir yn **Arddangosyn 1** ar dudalen 4.

O dan amgylchiadau pan fo angen rhagor o dystiolaeth ar yr archwilydd i gyflawni ei gyfrifoldebau'n briodol, gan gynnwys ar ôl cyhoeddi adroddiad cysylltiedig er budd cyhoeddus, cynhelir profion ychwanegol i fynd i'r afael â phryderon yr archwilydd.

Pwysleisir y bydd y gost wirioneddol a godir ar unrhyw gorff penodol yn dibynnu ar yr amser gwirioneddol a weithiwyd ar yr archwiliad penodol hwnnw. At ddibenion dangosol yn unig y mae'r amrediad ffioedd a ddarperir yn **Arddangosyn 14**.

Arddangosyn 14: amcangyfrif o'r costau amser ar gyfer archwilio cyfrifon cynghorau tref a chymuned 2020-21

	Band 1 (<£10k)	Band 2 (<£25k)	Band 3 (<£50k)	Band 4 (<£100k)	Band 5 (<£500k)	Band 6 (>£500k)
Archwilio trafodiadau	£140 - £170	£150 - £185	£215 - £260	£330 - £400	£585 - £700	£775 - £1,000
Gweithdrefnau cyfyngedig	£100 - £120	£125 - 150	£125 - £150	£190 - £230	£190 - £230	£190 - £230

Cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith arall mewn llywodraeth leol

Heblaw am y mathau hynny o gyrff y mae graddfeydd ffioedd wedi eu rhagnodi ar eu cyfer fel y dangosir uchod, ceir rhai mathau eraill o gyrff llywodraeth leol y mae'r broses o ragnodi graddfa ffioedd yn fater o drosi'r gofynion adnoddau yn ffioedd yn seiliedig yn uniongyrchol ar gostau cyflawni'r gwaith neu drwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd fel y nodir yn **Arddangosyn 1**. Mae'n dal yn wir, ar gyfer archwilio'r gyrff hyn, ein bod yn defnyddio dull cwbl gynhwysfawr o gynllunio'r archwiliadau.

Er mwyn i gyrff llywodraeth leol o bob math gyflawni eu cyfrifoldebau statudol, mae angen i'r Archwilydd Cyffredinol wneud gwaith sy'n mynd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol weithiau (y rhai a nodir yn adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac yn adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliad eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith ychwanegol mewn cysylltiad â heriau gan etholwyr, ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd costau y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith sydd ei angen.

Mae'n bosibl hefyd y bydd archwilwyr yn ymgymryd â gwaith ardystio grantiau mewn gyrff llywodraeth leol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae faint o waith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau sy'n destun archwiliad a nifer y gyrff archwiliedig sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Codir tâl am y gwaith hwn fesul awr ac mae'n adlewyrchu maint, cymhlethdod neu unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r grant dan sylw fel y nodir yn **Arddangosyn 15**.

Arddangosyn 15: amcangyfrifon o gyfrannau cymharol graddau staff archwilio sydd i'w defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o waith grantiau.

Gradd y staff	Cymysgedd staff grantiau cymhleth %	Cymysgedd staff pob math arall o grantiau %
Cyfarwyddwr ymgysylltu	1 i 2	0 i 1
Rheolwr Archwilio	4 i 6	1 i 2
Arweinydd Archwilio	18 i 21	12 i 16
Archwilydd/hyfforddai graddedig/prentis	71 i 77	81 i 87

Mae grantiau cymhleth yn cynnwys:

- BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a'r dreth gyngor
- LA01 Ffurflen ardrethi annomestig cenedlaethol
- PEN05 Ffurflen pensiynau athrawon



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Facs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.wales

Gwefan: www.archwilio.cymru

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon